www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1
RHIF 500
Ebrill
2022

# Dathlu 500



ECO'R WYDDFA
RHIF 1 CHWEFROR 1976 PRIS : 8g.

EICH PAPUR CHI

Dyma fo o'r diwedd – papur bro plwyfi Llanrug, Llanberis a Llanddeiniolen. Bu'r gobaith o sefydlu papur o'r math yma yn freuddwyd i lawer ers sawl blwyddyn. Trodd y breuddwyd yn bosibilrwydd ym mis Hydref 1975, a dyma fo ar ddiwedd Chwefror 1976 – yn ffaith.

EI SEFYDLU

Daeth nifer go dda o drigolion y fro at ei gilydd i Ysgol Brynrefail, Llanrug i drafod y posibiliadau o'i sefydlu. Ar ôl cael sgwrs a thrafodaeth hir â chynrychiolwyr o ddau bapur bro cyfagos, sef Llais Ogwen a Lleu, daethpwyd i'r penderfyniad i sefydlu ECO'R WYDDFA. Mae'n dyled i'r cynrychiolwyr hyn yn fawr iawn. Aethpwyd ati yn ystod wythnosau'r gaeaf i lunio polisi a rhyw fath o gyfansoddiad i'r papur yn ogystal â dewis swyddogion i fod yn gyfrifol am wahanol adrannau ac agweddau ohono.

BABI NEWYDD

Papur newydd misol fydd ECO'R WYDDFA, gyda'i holl staff yn gweithio'n wirfoddol a di-dâl. Rhaid wrth staff i'w redeg, ond ni, trigolion y fro fydd piau'r papur. Ni fydd yn ei reoli, ei ysgrifennu, ei werthu a'i brynu. Yn naturiol felly mae'n rhaid i mi apelio'n daer arnoch chi'r trigolion i'n cefnogi a chydweithredu â ni. Os ...

... sydd am weld ei farn, ei sylwadau, ei feirniadaeth, ei werthfawrogiad ar unrhyw ddigwyddiad neu bwnc yn cael ei gyhoeddi. Beth bynnag fo'ch rhesymau – 'sgwennwch i mewn.

LLWYFAN GWLEIDYDDOL

Bydd yn bapur hollol annibynnol, heb gysylltiad ag unrhyw blaid wleidyddol, enwad crefyddol nac unrhyw sefydliad arall. Yn unol ...

BETH DDAW O'R YSGOL?

Dair blynedd ar ddeg yn ôl, prynwyd hen Ysgol Brynrefail gan y "Rainer Foundation" i'w defnyddio yn ysgol i blant oedd ag angen addysg a sylw arbennig. Oherwydd prinder arian, bu'n rhaid cau'r ysgol, ac erbyn hyn mae'r adeilad unwaith eto'n wag.

CÂN ECO'R WYDDFA

Fe gewch yn Eco'r Wyddfa
Rywbeth at bob dant,
Ysgrifau a barddoniaeth
A chomic bach i'r plant.
Wel, prynwch Eco'r Wyddfa
A chewch newyddion bro
O Benisarwaen a Bethel
Llanrug a Chwm-y-Glo.

*Cytgan:*
*Eco'r Wyddfa, Eco, Eco'r Wyddfa*
*Dyma'n papur bro.*
*Eco'r Wyddfa, Eco'r Wyddfa,*
*Dyma'r papur bro.*

O'i wely yng Ngwasg Gwynedd
Unwaith yn y mis
Daw'r Eco i'ch cartrefi,
Rhesymol yw ei bris.
Newyddion o Ddinorwig,
Deiniolen a Fachwen;
Am gasglu sgwps yr ardal
Bydd Eco'r Wyddfa'n ben.

Tudalen ar chwaraeon,
Llythyrau, pynciau'r dydd,
A lle i bawb ohonoch ...

PRYDER

Ar ôl hyn, mynegodd nifer o drigolion eu barn ynghylch dyfodol yr ysgol, a rhai'n bryderus oherwydd sibrydion y gellid defnyddio'r lle fel man aros i weithwyr. Er mwyn mynd i lygad y ffynnon, bu gohebwyr Eco'r Wyddfa mewn cyfarfod cyhoeddus i wyntyllu'r mater. Rhoed cyfle i bobl Brynrefail fynegi eu barn yn gyhoeddus yng nghwmni'r Cynghorydd P. Larsen, Cyngor Arfon, y Cynghorydd Gwyn O. Jones, Cyngor Gwynedd; a Mr. Ken Jones o'r Cyngor Cymuned. ... 'Rainer Foundation', sef Mr. Clen... Prif Warden. Llywydd y ... oedd Mr. G. Pritchard.

AWGRYMIADAU



ECO'R WYDDFA

RHIFYN ARBENNIG

CANT!



ECO'R WYDDFA 200

Eco'r Wyddfa yn ddeunaw oed

Gobaith yr iaith fu'r maeth iawn, — Ei geiriau
Fu'r fagwraeth gyflawn,
A heddiw mor amryddawn
Yw'r plentyn yn llencyn llawn.

DATHLU'R 200

DIOLCH YN FAWR . . .

CEFNOGWCH EIN NODDWYR A'N HYSBYSEBWYR



ECO'r Wyddfa

400

Marathon o farathon ym Morocco

544

Llances a Llanciau'r Llechen



ECO'R WYDDFA

PEN-BLWYDD HAPUS

BETH DDAW O'R YSGOL?

EICH PAPUR CHI

CANT!

200

300

Elin Enfys

## Chwilio am Elin Enfys

Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.



## Yn y rhifyn hwn:


- Hanes sefydlu Eco'r Wyddfa - tud 5
- Cynllun celf i'n hysgolion - tud 6
- Prosiect Natur - tud 25





- Teithiau cerdded - tud 7





- Llwyddiant ym myd rhedeg - tud 32

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths
post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail. 01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis. 01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Eryl Roberts.
Peris, 56 Glanffynnon, Llanrug.
01286 675384.

**Nant Peris:**
Kate Pritchard
01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

## Neges gan Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eco'r Wyddfa

Braint a phleser i mi yw ysgrifennu pwt ar achlysur dathlu'r 500fed rhifyn o Eco'r Wyddfa.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cydweithwyr niferus sydd yn cyfrannu cymaint at lwyddiant yr Eco:

Fy nghyd-aelodau o'r Pwyllgor Gwaith; ein Panel Golygyddol gweithgar, ffyddlon a thalentog; ein cyfeillion yng Ngwasg y Lolfa am eu gwaith safonol a'u cydweithrediad; i Elgan Griffiths, ein dylunydd gwych am sicrhau diwyg mor arbennig i'r papur; ein holl ohebwyr pentref a'n dosbarthwyr di-gŵyn; ein hysbysebwyr cefnogol, ond yn bennaf CHWITHAU, ein darllenwyr ffyddlon. Eich papur CHI yw'r Eco, a'n braint ni yw gwneud ein gorau glas i adrodd hanes ein bro unigryw a'n cymunedau gwerthfawr o fis i fis.

Rwyf wedi cael cyfle yn ddiweddar i edrych yn ôl trwy nifer o ôl-rifynnau'r Eco gan gychwyn gyda'r rhifyn cyntaf ym mis Chwefror, 1976. Breuddwyd ysbrydoledig Arwel, Selwyn, John ac Evan oedd yr Eco, ac iddyn nhw mae'r diolch mwyaf am fentro'n ddewr a llwyddo'n ddiamheuol. Peth arall a'm tarodd oedd y nifer sylweddol o drigolion ein bro, sydd bellach wedi ein gadael, a roddodd o'u hamser, eu brwdfrydedd a'u cariad at eu cymunedau, eu bro a'u hiaith i helpu cynnal Yr Eco. Erys y cof amdanynt yn fyw a'n diolch iddynt yn enfawr.

Hoffwn orffen ar nodyn personol trwy gyfeirio at rifyn Gorffennaf - Awst 1980, sef 50fed rhifyn yr Eco. Tipyn o syndod i mi oedd sylwi bod dau englyn o'm heiddo yn ymddangos ar dudalen flaen y papur a minnau wedi anghofio amdanynt! Rwyf yn mentro eu hail-ddefnyddio yn y rhifyn arbennig hwn, nid am eu bod yn arbennig o ran crefft, ond am fod y neges a gostrelir ynddynt yr un mor addas a pherthnasol heddiw ag yr oedd yn ôl yn 1976.

Yr ydym yma o hyd, a'r Eco yn symbol o wyrth ein parhad, ac o'r ffaith ein bod ni'n MYNNU parhau!

Diolch o waelod calon i bob un ohonoch.

Yn wyneb her estroniaith; - yn wyneb
Edwino ein mamiaith;
Gwelwn yn hwn yr heniaith
Yn llawn hwyl mewn gŵyl a gwaith.

Daw hwn â chwa'r dadeni - yn fisol
I feysydd y cyni;
Caer uniaith; cawr â'i ynni
Yn rhoi nerth i'n henfro ni.

**Tony Elliott**

## Panel Golygyddol

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## Ble ga'i afael ar yr *Eco*?

Mae'r *Eco* ar werth yn y siopau canlynol:

- Y Co-op, Llanrug
- SPAR, Llanrug
- One Stop, Llanberis
- SPAR, Llanberis
- Garej Beran, Deiniolen
- Siop Waunfawr
- Garej Gwalia, Caeathro
- Caffi Maes, Caernarfon
- Siop Na-Nog, Caernarfon
- Palas Print, Caernarfon
- Siop Awen Menai, Porthaethwy

**Ydach chi eisiau derbyn copi o'r *Eco* yn rheolaidd bob mis? Tanysgrifiwch!**
Os ydach chi'n byw o fewn dalgylch yr *Eco*, pa well ffordd o wneud yn siwr na wnewch chi byth golli rhifyn na thrwy danysgrifio? Bydd ein criw o ddosbarthwyr caredig yn danfon copi drwy'r drws i chi, a gallwch arbed trafferth i chi eich hun drwy dalu o flaen llaw. Os prynwch danysgrifiad blwyddyn (Ebrill - Mawrth) fe gewch un rhifyn am ddim - dim ond £10 am 11 rhifyn, bargen yn wir!

Gellir archebu copiau drwy ebost (£10 am flwyddyn).

Gellir archebu copiau drwy'r post (£27 am flwyddyn).

Beth am roi tanysgrifiad fel rhodd pen-blwydd neu Nadolig i ffrind neu aelod o'r teulu sy'n byw tu allan i'r ardal?

I drefnu tanysgrifiad cysylltwch â Goronwy neu Olwen Hughes ar 01286 674839 neu goronwy@lineone.net

## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Mai | 8 Ebrill | 22 Ebrill |
| Mehefin | 13 Mai | 27 Mai |
| Gorffennaf | 10 Mehefin | 24 Mehefin |

## Yn ystod y mis aeth heibio...

- Achubiaeth. Gwraig o Durham dan warchae gan ladron yn ei chartref, ond yn llwyddo i gysylltu â'r heddlu. Heddlu Durham, Lloegr yn cysylltu â Heddlu Durham, Canada, a lwyddodd i ryddhau'r wraig oedd wedi ffonio'r heddlu anghywir.
- Henaint. Dwy brifysgol yn America wedi ymchwilio i effaith henaint, a honni fod oedolion hŷn yn storio gormod o wybodaeth yn eu hymennydd, ac felly'n cael trafferth i gofio rhai ffeithiau unigol.
- Cap. Mae cap lledr Amelia Earhart, y ferch gyntaf i hedfan awyren ar draws Môr Iwerydd, yn cael ei roi ar ocsiwn ar-lein. Disgwylir iddo werthu am dros £59,000.
- Koala. Yr anifail yn cael ei roi ar restr anifeiliaid mewn perygl yn Awstralia, a hynny oherwydd sychder a difrodi coed eucalyptus gan dân.
- HELP!!!! Jacob Rees-Mogg yn cael ei benodi yn Weinidog Cyfleoedd Brexit, ac yn gofyn am gymorth gan ddarllenwyr papur newydd y Sun.
- Dannedd Gosod. Un-ar-ddeg mlynedd yn ôl aeth gŵr o Fanceinion i Benidorm i dreulio gwyliau meddw, a cholli ei ddanned gosod tra'n chwydu. Eleni cafodd y dannedd eu dychwelyd iddo ar ôl iddynt gael eu darganfod tra'n clirio tomen sbwriel, ac i'r awdurdodau






**Cwpled o englyn**
**William Ambrose (Emrys)**

… 'Segurdod yw clod y cledd
A rhwd yw ei anrhydedd'.

# "Ardal Ni 2035" - cyfle i bobl Gwynedd siapio dyfodol eu milltir sgwâr

'Beth sy'n dda am eich ardal leol?'; 'Beth sydd ddim mor dda?'; 'Beth sydd angen newid er mwyn gwneud eich ardal yn lle gwych i fyw ynddo erbyn 2035?'.

Mae Cyngor Gwynedd yn galw ar drigolion y sir - o Ben Llŷn i Benllyn ac o Aberdyfi i Abergwyngregyn – i lenwi holiadur "Ardal Ni 2035" er mwyn canfod atebion i'r cwestiynau allweddol yma.




Bydd canlyniadau'r holiaduron yn siapio'r gwaith o ddatblygu 13 cynllun adfywio lleol unigryw ar gyfer cymunedau Gwynedd dros y 15 mlynedd nesaf, ac un o'r 13 ardal yw Bro Peris. Mae'r holiaduron ar agor tan Fehefin 2022 a gallwch eu llenwi:

- ar-lein drwy ymweld â gwefan dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru/broperis
- drwy geisio copi papur o'r llyfrgell neu Siop Gwynedd lleol;
- drwy ffonio Galw Gwynedd (01766 771 000) i ofyn am gopi papur drwy'r post.

Dywedodd Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn:

"Nod 'Ardal Ni 2035' ydy gwneud y gorau o'r balchder a'r angerdd sydd gan bobl Gwynedd yn eu cymuned gan osod y pwyslais yn sgwâr ar y lleol.

"Mae gan bob un ohonom farn am yr hyn sydd angen digwydd yn ein bröydd, ac mae barn a phrofiad pob un ohonom yn cyfri.

"Rwy'n erfyn felly ar bawb o bobl Gwynedd i fynd ati i lenwi holiadur 'Ardal Ni 2035'. Mae'r cwestiynau yn syml, yn hawdd eu dilyn, a drwy sbario ychydig funudau byddwch yn cyfrannu at y nod o sicrhau fod adfywio lleol yn seiliedig ar eich blaenoriaethau chi fel y bobl sy'n byw yn y cymunedau hyn."

Yn dilyn cwblhau'r holiadur 'Ardal Ni' mae cyfle pwysig hefyd i lenwi holiadur am anghenion tai pobl leol. Bydd yr adborth yn cael ei ddefnyddio gan Adran Tai ac Eiddo'r Cyngor wrth baratoi cynlluniau tai mewn cymunedau yn y sir.

# Llythyr

**Bryn Hafod, Pen y Berth, Llanfair Pwll**

Annwyl Ddarllenwyr Eco'r Wyddfa,
Hoffwn ddiolch o galon i bawb a anfonodd air o gydymdeimlad atom fel teulu ar farwolaeth Alwyn Pleming yng nghanol mis Ionawr. Roedd ei flynyddoedd fel pennaeth yr adran Gymraeg ac wedyn pennaeth y chweched, Ysgol Brynrefail, yn rhai hapus iawn a byddaf yn trysori atgofion y disgyblion hynny a gysylltodd â mi i fynegi eu gwerthfawrogiad o "athro ysbrydoledig a hoffus."

**Jean Pleming**

## Dai Jones, Llanilar

Dai'n foliog, Dai yn felin,
Dai a'i sgript fu'n bwydo sgrin;
Dai yw cof henfyd cyfoes,
hyd y wlad, Dai yw ei loes.
Herio dŵr, Dai ar ei din,
Dai y Proms, Dai y Primin;
Dai ro'r Gair wedi'r gwirion,
mynnai Dai yr emyn dôn.
O'i fodd rho Dai 'wahoddiad'
drwy ei lais yn daer i'w wlad;
yn ei sgwrs, Dai'r clôs neu sgwâr
llawn hwyl oedd Dai Llanilar.

R.LL.J.

roi prawf DNA arnynt. Does wybod a yw'n eu defnyddio.

- Priodi. Miloedd o barau yn China yn priodi ar yr ail ar hugain o fis Chwefror (22-2-22), a hynny'n unig oherwydd fod y rhif 'dau' yn iaith Mandarin yn swnio'n debyg iawn i'w gair am 'gariad'.
- Stormydd. Dudley, Eunice a Franklin, a rhoi enwau'r Swyddfa Dywydd arnynt, yn creu problemau lu drwy'r holl wlad, boed hynny o ganlyniad i wyntoedd cryfion, llanw uchel neu lawogydd trwm.
- Gwenyn. Bob blwyddyn mae miloedd o gychod gwenyn yn cael eu cario i Galiffornia ar gyfer peillio miloedd o aceri o goed almond. Ond dros fil o gychod gwenyn yn cael eu dwyn am eu bod yn werth mil o ddoleri yr un i'r lladron.
- Ola i ka wai. Yn iaith Hawaii mae'n golygu 'dŵr yw bywyd', ac y mae'n cynrychioli un o bedwar duw yr ynysoedd. Does ryfedd felly fod yr ynyswyr yn hynod flin fod llong Llynges America wedi colli petroleum i gronfa puro dŵr yn Pearl Harbour, a llygru cyflenwad dŵr nes peri i dros 6,000 o bobl fynd yn wael. Mae wedi gwaethygu'r teimladau o ddiffyg ymddiriedaeth yng nghyfundrefn filitaraidd America yn Hawaii.
- £260,000. Dyna, ar gyfartaledd yw pris tŷ ym Mhrydain, cynnydd o bron i £30,000 ers y llynedd.
- Cymdogion. Mae'r gyfres deledu boblogaidd o Awstralia – 'Neighbours' yn cael ei dirwyn i ben wedi pedwar degawd o'i darlledu.
- Anhegwch. Ers y cyntaf o Ebrill mae Aelodau Seneddol Llundeinig yn cael codiad o £2,212 yn eu cyflog, tra bo gweithwyr cyffredin yn wynebu mwy o dâl Yswiriant Cenedlaethol, mwy o drethi a chynnydd yng nghostau tanwydd.
- Ulysses. Argraffiad arbennig o lyfr James Joyce yn dyddio o 1936 yn cael ei gyflwyno i siop elusen yng Nghaerdydd, a'i brisio yn werth punt – nes i un o'r gweithwyr sylweddoli ei fod yn rhwymiad arbennig. Mae'n bosib y bydd yn gwerthu am £800 mewn ocsiwn.
- Rhyfel. Neu 'Ymgyrch Filwrol Arbennig' fel y gelwir hi gan Rwsia – a does wybod faint mwy o erchyllterau a fydd wedi digwydd erbyn i chwi ddarllen hyn o lith.

## Rhoddion

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

**£10 - Mary Lloyd Evans gynt o Maes Eilian, er cof am Dafydd.**

**Eluned Jones.**

**Helen Evans-Munro, Cynan, Llanrug.**

**Di-enw Llanrug.**

**Eirlys a Brian Sharpe, Ael-y-Bryn, Bethel.**

**Gethin Edwards ac Elen Parry-Edwards, Llanrug.**

**£40 - Mrs E Bedford, Pant Afon Bach, Llanrug.**

# Ti'n cofio 1...100...200...300...400?

Dros y misoedd dwytha mae'r *Eco* wedi bod yn rhannu atgofion o hen rifynnau o'r papur 10, 20, 30 a 40 mlynedd yn ôl. Gobeithio eich bod wedi cael blas arnynt, a'u bod wedi procio'r cof neu wedi cyflwyno hanesion o'r newydd.

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* - **www.ecorwyddfa.co.uk** - yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am 46 o flynyddoedd? Cyhoeddwyd rhifyn cyntaf yr *Eco* fis Chwefror 1976, ac ar ôl yr holl amser dyma ni wedi cyrraedd rhifyn rhif 500!

Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch fynediad i'r holl hen rifynnau a nifer fawr o luniau. Ewch i gael cip i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalennau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi o *Eco'r* gorffennol, ac i ddathlu gwahanol benblwyddi'r papur, dyma grynhoi rhifynnau rhif 1, 100, 200, 300 a 400…




## Rhifyn 1, Chwefror 1976

**Pris yn 8g am 12 tudalen.**

- Ar y dudalen flaen yr oedd y gân hon. Does 'na ddim sôn am alaw, ond gallwn dybio mai 'Titw Tomos' ydi hi?

Fe gewch yn Eco'r Wyddfa
Rywbeth at bob dant
Ysgrifau a barddoniaeth
A chomic bach i'r plant
Wel, prynwch Eco'r Wyddfa
A chewch newyddion bro
O Benisarwaen a Bethel
Llanrug a Chwm-y-Glo.

*Cytgan:*
*Eco'r Wyddfa, Eco, Eco'r Wyddfa*
*Dyma'n papur bro.*
*Eco'r Wyddfa, Eco'r Wyddfa.*
*Dyma'r papur bro.*

O'i wely yng Ngwasg Gwynedd
Unwaith yn y mis
Daw'r Eco i'ch cartrefi
Rhesymol yw ei bris.
Newyddion o Ddinorwig,
Deiniolen a Fachwen;
Am gasglu sgŵps yr ardal
Bydd Eco'r Wyddfa'n ben.

Tudalen ar chwaraeon,
Llythyrau, pynciau'r dydd,
A lle i bawb ohonoch
Gael lleisioch barn yn rhydd;
Llanberis a Brynrefail
O Glwt y Bont i'r Nant,
Wel dyma'r papur gorau
I Taid a Nain, a'r plant.

- Nifer o gyfeiriadau yn newyddion y pentrefi am weithgareddau i blant a phobl ifanc - aelwydydd yr Urdd, Clwb Ieuenctid Llanberis, Girl Guides a'r Brownies,
- Adolygiad o berfformiad Cwmni Drama Llanberis o'r ddrama Dedwydd Briodas gan J B Priestley.
- Caniatad wedi ei roi i glirio tir ar gyfer adeiladu tai yn Llanrug - y llecyn cyntaf ar gyfer Stâd Bryn Moelyn, a'r ail gyfer Hafan Elan.
- Colofn 'Chwedlau'r Fro' yn rhoi esboniad am darddiad enwau a'r chwedlau a dyfodd o amgylch Marchlyn, Ffynnon Cegin Arthur a'r Wyddfa.
- Ddiwedd Ionawr cynhaliwyd cyngerdd mawreddog Eco'r Wyddfa yn neuadd Ysgol Brynrefail, gyda 150 o blant y fro yn perfformio a thua 500 o drigolion yn y gynulleidfa.
- Chwaraeon - tymor cyntaf i Glwb Gwyddbwyll Llanberis yng Nghyngrhair Gwynedd; gemau dartiau rhwng timau lleol; tri aelod o Glwb Codi Pwysau Llanrug wedi bod yn llwyddiannus ym mhencampwriaeth ieuenctid Cymru.

## Rhifyn 100, Chwefror 1985





**Pris yn 20c am 24 tudalen.**

- "Mae o yma o hyd" - atgofion Arwel Jones, un o sylfaenwyr Eco'r Wyddfa, am ddyddiau cynnar y papur, a darogan gwae gan rai na fyddai'r Eco fyw mwy na rhyw 6 mlynedd!
- 'Canrif o Hysbysebion' - atgofion John Roberts o drefnu hysbysebion i 100 o rifynnau o'r Eco. Cawn ambell stori ddoniol a throeon trwstan y gwaith pwysig yma.
- Llond dwy dudalen o luniau a barn trigolion y fro am yr Eco.
- O fewn yr Eco cafwyd rifyn arbennig a gwahanol iawn - rhifyn dychmygol o'r flwyddyn 1885.
- Hanesion o Ysgol Brynrefail yn y golofn 'Sibrydion o'r Ysgolion'. Er eu bod yn bencampwyr Gwynedd, fe gollodd tîm pêl-droed yr ysgol o 8-1 yn erbyn Coleg Kelsterton o Lannau Dyfrdwy. Mae'n debyg bod yna ddau chwaraewr rhyngwladol yn chwarae i dîm y coleg, oes yna rhywun yn cofio pwy oeddynt?
- Ydach chi'n cofio'r gyfres deledu boblogaidd 'Minafon'? Mae sawl cysylltiad rhwng y gyfres a Waunfawr, ac mae nodyn i atgoffa pawb i wylio'r bennod olaf ddiwedd y mis!
- Patrwm gwau fest wlân ar gyfer plant yn Ethiopia, ar gyfer apêl Oxfam.

## Rhifyn 200, Ebrill 1994

- Pris yn 25c am 24 tudalen.
- Hel atgofion o'r 199 rhifyn a fu, a chyfle hefyd i ddathlu penblwydd yr Eco yn ddeunaw oed.
- Gwybodaeth am gyfri banc gan y Midland oedd yn cynnig gwasanaeth heb ffioedd i elusennau a chymdeithasau. Gyda'r ffioedd wedi eu codi ar elusennau eto'n ddiweddar, bechod na fedrwn ni symud yn ôl i arferion 1994.
- Gorsaf Bŵer Dinorwig yn dathlu ei phenblwydd yn 10 oed drwy gynnal diwrnod agored o weithgareddau a theithiau tywys i grombil yr orsaf.
- Erthygl liwgar Delyth Eronwy yn dweud ei hanes yn ymweld â Brunei a Beijing.
- Rhifyn dychmygol o'r 'Eco Chwarterol' o'r flwyddyn 1794.
- Cyfle i greu y *dream team* pêl-droed drwy ddewis y chwaraewyr gorau ar gyfer pob safle o blith y rhai fu'n chwarae i dimau'r ardal dros y 18 mlynedd blaenorol. Ysgwn i pwy gafodd eu dewis? Oes rhywun yn cofio pwy oedd aelodau'r tîm delfrydol?






## Rhifyn 300, Mai 2003




**Pris yn 40c am 22 tudalen.**

- Kia Ora Tatoo - hanes Gwenllian Parry a'i theulu o Benisarwaun oedd wedi symud i fyw ers blwyddyn i Seland Newydd. Cawsant ymweliad gan Hywel Gwynfryn a chriw ffilmio rhaglen 'Ar dy Feic' i S4C, a chawn hanes yr ymweliad hwnnw ac am fywyd a gwaith Gwenllian a'i theulu.
- Atgofion am 'pobl y Waun', sef cymeriadau nodedig y pentref. Cawn esboniad o ble y cafodd Mamws ei enw, pam fod Jac Wmffra Bach wedi colli ei waith, a'r stori am John Evans yn mudo i'r America gan honni bod yna lwyth o bobl frodorol oedd yn siarad Cymraeg. Y stori hon roddodd ysbrydoliaeth i albwm a ffilm American Interior Gruff Rhys.
- Cyfarfod cyhoeddus yn Llanrug er mwyn trafod y posibilrwydd o gael canolfan gelfyddydol newydd i'r pentref - yn bennaf er mwyn cael cartref newydd i weithgareddau'r Band a grŵp Rygarug.
- Pencampwyr Gogledd Cymru 2003 - llongyfarch tîm pêl-droed Llanrug ar ddod yn bencampwyr Cynghrair Gwynedd.

## Rhifyn 400, Mehefin 2012



**Pris yn 50c am 28 tudalen.**







- Rhedwyr ac athletwyr o fri yn derbyn clod haeddiannol - Ashley Wager o Frynrefail wedi cwblhau Marathon des Sables ym Morocco, sef 152 o filltiroedd mewn gwres o thua 40 gradd. Rhedodd Ashley saith marathon 'arferol' dros saith niwrnod, gan godi dros £1,000 i Hospis Dewi Sant. Bu nifer o drigolion lleol eraill yn cystadlu yng nghystadleuaeth triathlon 'Llanc y Llechen' (neu'r Slateman).
- Llythyr yn gwahodd unrhyw un i gyfarfod cyhoeddus cyntaf y Wicipedia Cymraeg, gan gynnig hyfforddiant a chymorth i unrhyw un sy'n awyddus i gyfrannu at y wefan.
- Hanes chwalu hen adeilad Ysgol Glanmoelyn yn Llanrug, a fu'n sefyll am 180 o flynyddoedd. Mae'r safle bellach yn gartref i Stâd Hen Ysgol.
- 'Lleisiau Llanbabs' yn teithio i'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon er mwyn cynrychioli Cymru mewn dwy gystadleuaeth. Teithiodd y côr o 28 o blant a'u rhieni a ffrindiau (77 i gyd!) draw i Carlow, a buont yn diddanu mewn nosweithiau llawen ac mewn ysgolion lleol yn ogystal â chystadlu yn yr Ŵyl. Be' oedd canlyniad y cystadlaethau dwi'n eich clywed yn gofyn? Wedi ennill siwr iawn! Llongyfarchiadau gwresog i bawb.
- Stribyn cartrwn gwych yn olrhain hanes yr Eco ers ei sefydlu. Ewch yn ôl i'r archif i gael sbec.
- Merched yn serenu ar y cae pêl-droed - taith tîm dan 16 oed merched Bethel i Sbaen, a llwyddiant timau dan 10 ac 14 oed Llewod Llanrug yng nghystadleuaeth Cwpan Carfan Gogledd Cymru.

# Hanes Sefydlu Eco'r Wyddfa

Aeth dros 46 mlynedd heibio ers i bedwar gŵr ifanc (!) gerdded o Sefydliad Coffa Llanrug i lawr i dafarn Penbont i "wlychu pig" ar ôl cyfarfod hir Plaid Cymru. Y pedwar oedd John Roberts, Selwyn Williams, y diweddar Evan Parry a minnau Arwel Jones. Hydref 1975 oedd hi pan soniodd y pedwar ohonom, wrth deithio i lawr Ffordd yr Orsaf, ei bod yn ddyletswydd ar rywun neu rywrai i sefydlu papur bro yn Nyffryn Peris. Roedd Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle wedi mentro; felly pam na ddylsem ni, drigolion Dyffryn Peris, ddilyn eu hesiamplau? Ar ôl eistedd i lawr yng nghornel y dafarn aed ymlaen â'r sgwrs a dod i'r casgliad unfrydol y dylai'r pedwar ohonom gymryd yr awenau a'r cyfrifoldeb i drefnu cyfarfod i edrych faint o ddiddordeb fyddai yn y Dyffryn i'r fath fenter. Doedd dim pwrpas SIARAD am y fenter hyd at syrffed: GWEITHREDU oedd yn bwysig.

A dyna wnaed. Cysylltwyd â thrigolion y Dyffryn trwy anfon cyhoeddiad i gapeli ac eglwysi'r fro, sefydliadau a chymdeithasau, ac yn bennaf targedu unigolion oedd yn ymwneud â'r 'pethe'. Daeth nifer dda iawn o drigolion i'r cyfarfod cyntaf yn Neuadd Ysgol Brynrefail. Roedd y brwdfrydedd yn heintus a phenderfynwyd cael ail gyfarfod i wthio'r cwch i'r dŵr fel 'tae. Daeth cynrychiolwyr o *Llais Ogwan* a *Lleu* i'r ail gyfarfod i adrodd am eu profiadau hwy wrth sefydlu'r ddau bapur. Ar ddiwedd y cyfarfod



**Y 4 cyntaf efo'r rhifyn cyntaf**

penderfynwyd sefydlu papur bro yn Nyffryn Peris. Dewiswyd pwyllgor i drafod penodi swyddogion yn y gobaith y byddai'r papur yn gweld golau ddydd yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Derbyniwyd nifer fawr o deitlau i'r papur bro newydd ond *ECO'R WYDDFA* ddaeth i'r brig. Cynnig y diweddar Selwyn Griffith, Bethel oedd hwn, gŵr a ddaeth ymhen amser yn Brifardd ac yn Archdderwydd Cymru.

Er yr holl frwdfrydedd a ddangoswyd yn y cyfarfodydd sefydlu, ychydig iawn oedd yn fodlon llenwi'r swyddi oedd yn angenrheidiol i redeg y papur. Er syndod i John, Selwyn, Evan a minnau, bu'n rhaid i ni lenwi'r swyddi hynny ein hunain! John Roberts gymrodd y cyfrifoldeb o drefnu hysbysebion, swydd bwysig iawn o gofio fod coffrau'r *ECO* yn wag ar y cychwyn. Selwyn Williams gymrodd y dasg enfawr o drefnu'r gwerthiant. Daeth Evan Parry yn ffotograffydd y papur a minnau'n Olygydd cwbl ddi-glem a di-brofiad! Yn ffodus iawn, cefais gymorth gan ddau olygydd eithriadol o brofiadol – y diweddar John Roberts Williams, cyn-olygydd *Y Cymro* a drigai yn yr un stryd â mi yn Llanrug, ac yna Norman Williams, Waunfawr cyn-olygydd papur bro cyntaf Cymru, papur bro Caerdydd - *Y Dinesydd*.

Daeth Dafydd Evans, Penisarwaun yn Olygydd Chwaraeon. Gwyn Oliver Jones, Deiniolen oedd yn gyfrifol am y coffrau gwag! Cafwyd nifer o ohebwyr lleol fyddai'n gyfrifol am newyddion clystyrau o bentrefi'r fro: y Parchg John Owen – Llanberis a Nant Peris; Leslie Larsen – Llanrug, Ceunant, Tanycoed, Cwm-y-Glo a Phenisarwaun; y diweddar Geraint Elis – Bethel; a'r diweddar Robert Williams – Deiniolen, Dinorwig, Fachwen, Brynrefail a Chlwt y Bont. Dyna'r tîm fu'n gyfrifol am y rhifynnau cyntaf cyn i nifer ddechrau dangos diddordeb ac ymgymryd â sawl swydd ychwanegol.

Diolch amdanynt, a diolch i'r criw mawr o ddosbarthwyr yn ogystal. Oherwydd gwaith diflino'r dosbarthwyr roeddwn mewn sefyllfa bleserus i allu cyhoeddi yn rhifyn 25 fod yr *ECO* yn gwerthu rhwng 2,500 a 2,600 o gopïau, ac amcangyfrifwyd felly fod rhwng saith ac wyth mil o bobl yn ei ddarllen! Dyna'r hwb yr oeddem fel aelodau o dîm golygyddol y papur ei angen a bod yn rhaid cario ymlaen â'r fenter. Cododd y ffigyrau yma galonnau pawb, er ei fod yn golygu llawer mwy o waith i'r ffyddloniaid a fyddai'n ymgynnull yn fisol yng Ngwasg Gwynedd Nant Peris i blygu'r *ECO*!

Yn anffodus, nid yw'r gwerthiant mor uchel erbyn hyn a hynny am sawl rheswm. Ond dyma'r 500 rhifyn wedi ymddangos, ac mae hynny ynddo'i hun yn rhyfeddod onid yw? Dros y blynyddoedd, rhoddodd nifer fawr o wirfoddolwyr eu hamser prin i gynnal breichiau'r *ECO*. A diolch amdanynt. Dros gyfnod hir a welodd ddatblygiadau ym myd technoleg mae bellach yn bapur deniadol a lliwgar ei ddiwyg ac yn ddiddorol ei gynnwys. Hir y pery felly.

**Arwel Jones - Golygydd cyntaf *ECO'R WYDDFA***

# Lansio trefn gofrestru i ddigwyddiadau Llanberis a'r Wyddfa

Mae Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri wedi lansio trefn gofrestru newydd ar gyfer digwyddiadau fydd i'w cynnal yn Llanberis neu ar Yr Wyddfa.

Er mwyn ymateb i'r cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr ac i geisio cael rheolaeth well ar y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn Llanberis ac ar Yr Wyddfa, mae'r ddau gorff wedi cyd-weithio i ddatblygu system i gofrestru digwyddiadau bach a mawr.





Ar ôl blwyddyn o dreialu a gwneud gwelliannau mae'r system yn barod i'w defnyddio yn 2022.

Bydd disgwyl i unrhyw drefnydd digwyddiad fydd eisiau cynnal digwyddiad yn Llanberis neu ar Yr Wyddfa gofrestru eu digwyddiad trwy wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/digwyddiadau) neu'r Parc (https://www.eryri.llyw.cymru/ymweld/digwyddiadau-rhestredig).

Mae'r gwaith pwysig yma yn rhan o weledigaeth ehangach o gydweithio rhwng y Parc a'r Cyngor i gael gwell rheolaeth ar ymwelwyr â'r ardal trwy ddatblygu a gweithredu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy 2035.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd:

"Mae hwn yn ddatblygiad cyffrous ac yn un sydd yn angenrheidiol er mwyn i'n cymunedau wybod pa ddigwyddiadau fydd yn cael eu cynnal yn eu hardaloedd.

"Bydd y drefn newydd hefyd yn sicrhau ein bod yn medru cael gwell rheolaeth o faint o ddigwyddiadau sy'n digwydd yn yr ardal yr un pryd, gan geisio annog trefnwyr digwyddiadau i ail-ystyried dyddiadau os oes gormodedd.

"Er mwyn i'r system weithio'n llwyddiannus, mae'n hynod bwysig bod pob trefnydd digwyddiad sy'n bwriadu cynnal digwyddiad ar yr Wyddfa neu yn Llanberis o 2022 ymlaen yn cofrestru hefo'r system yma cyn gynted ac sy'n bosib."

Dywedodd Peter Rutherford, Rheolwr Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri:

"Mae'r drefn newydd yn creu cyfleon i drefnwyr digwyddiadau ystyried cynnal digwyddiadau ar draws y tymor, yn enwedig yn ardal Yr Wyddfa er mwyn lleihau'r pwysau ar ein cymunedau yn ystod y cyfnodau brig.

"Mi fydd hyn yn gyfle hefyd i ni rannu negeseuon o flaen llaw gyda trefnwyr digwyddiadau - yn enwedig ar fynydda diogel, trafnidiaeth gynaliadwy a rheoli sbwriel.

"Mae rheoli digwyddiadau yn ein hardaloedd a safleoedd prysuraf yn hanfodol er mwyn amddiffyn bioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol y rhan arbennig yma o'r byd."

# Prosiect Creadigol Dathlu 500 i ysgolion cynradd bro'r Eco



Fel rhan o'r dathliadau 500fed rhifyn yr Eco, rydym wedi sicrhau cyllid grant drwy gronfa Celfyddydau Cymunedol Cyngor Gwynedd i gynnal prosiect celfyddydol yn ysgolion cynradd ein bro.

Ar fore gwyllt, gwlyb a gwyntog, llwythwyd trwmbal y car efo'r pecynnau o'r papur. Roedd y trowsus glaw a'r gôt law yn barod am ddilyw, ond bu'r tywydd yn garedig a dim ond ambell i ddiferyn o law welwyd wrth drosglwyddod pecynnau o ôl-rifynnau'r Eco oedd yn dyddio o 1979 hyd at rifyn mis Mawrth 2022 i bob ysgol gynradd. Yn ogystal trwy haelioni Dafydd Whiteside Thomas cawsant sawl copi o'r llyfr 'Hen Luniau Bro Eco'r Wyddfa'.

YSGOL GWAUN GYNFI



Dyma'r cam cyntaf yn y prosiect, fel bod y plant yn cael cyfle i bori drwy'r hen bapurau a gweld beth sy'n eu diddori ynddynt. Ymhellach ymlaen bydd artist neu fardd neu gerddor yn ymweld â phob ysgol ac yn cynnal gweithdy, i arwain creu naill ai collage 2D neu waith 3D neu gerdd neu gân gyda dosbarth o fewn yr Adran Iau. Caiff y plant gyfle wedyn i gwblhau eu gwaith creadigol fydd wedi ei seilio ar yr hyn welsant yn yr hen bapurau.

Caiff y gwaith gorffenedig ei arddangos mewn man canolog lleol er mwyn i bawb gael cyfle i'w fwynhau, cyn dychwelyd y gweithiau'n ôl i'r ysgolion unigol. Mawr obeithiwn bydd y plant yn tynnu lluniau/ffotograffau o'r broses greadigol a'u teimladau wrth fynd ati i greu ac yn ysgrifennu'r hanes o greu, fel y gallwn eu cyhoeddi yn yr Eco dros y misoedd nesaf.

Dyma ohebwyr, artistiaid, beirdd, cyfansoddwyr a brodorion y fro i'r dyfodol. Dyma ddyfodol yr Eco.









# Cerddwn Ymlaen

Mae yna gymaint o weithgareddau wedi eu gohirio dros y ddwy flynedd ddiwethaf, am resymau da iawn wrth gwrs. Mae criw'r Eco yn credu bod cyrraedd rhifyn 500 yn gyfle bendigedig i ni ddod yn ôl i fwynhau cwmni ein gilydd unwaith eto. Pa well ffordd o sgwrsio, cael awyr iach a mwynhau ein bro nag i fynd am dro!

Diolch yn fawr iawn, felly, i bawb sydd wedi helpu i drefnu tair taith gerdded yn ystod mis Ebrill. Mae'r wybodaeth amdanynt isod. Er mwyn sicrhau diogelwch bydd angen i ni gyfyngu ar y niferoedd i 25 ar gyfer bob taith yn anffodus. Cyntaf i'r felin ydi hi, felly anfonwch eich enw, a phan daith yr hoffech fynd arni, i ebost yr Eco cyn gynted â phosib - ecorwyddfa@gmail.com. Byddwn wedyn yn cadarnhau os oes lle i chi ar y daith.

Dewch yn llu!

**Taith Gerdded Dathlu'r 500 (A)**
*"Pont, Melin a Chreigiau"*

Pnawn Sul, Ebrill 24ain am 1.30PM

Cyfarfod: Pont Pen Llyn (ceisiwch rannu car os yw hynny'n bosib, rhag ofn na fydd yr holl ymwelwyr wedi mynd am adra ar ddiwedd gwyliau'r Pasg!)

Angen: Esgidiau cryf - gall rhannau fod yn wlyb.

Arweinydd: Dafydd Whiteside Thomas

**Taith Gerdded Dathlu'r 500 (B)**
*'"Hanesion lleol"* - Taith gylch heibio Eglwys Llanrug, Tan y Coed, Bryn Bras, Cwm y Glo, Stabla ac yn ol i Lanrug.

Bore Sadwrn 16eg Ebrill am 10.00AM

Cyfarfod: Sgwâr Llanrug (pawb i barcio rhywle yn y pentref a cheisiwch rannu car os yn bosib) Mae'n debyg y bydd lle i barcio yn Glanmoelyn neu ym maes parcio'r ysgol gynradd.

Hyd y daith: 6 milltir

Byddwn yn cerdded ambell Lwybr Cyhoeddus, felly bydd angen esgidiau cerdded addas.

Dewch a brechdannau a diod efo chi i gael picnic bach yn ystod y daith.

Arweinydd: Gareth Roberts

**Taith Gerdded Dathlu'r 500 ( C )**
"Wrth Ochr Llyn Padarn" (Helfa natur i'r plant)

Bore Iau a 21ain Ebrill am 10AM tan - 12 PM

Cyfarfod: Pont Pen Llyn (ceisiwch rannu car os yw hynny'n bosib, oherwydd mae'n brysur ym mhobman adeg gwyliau'r Pasg!)


Gwisgwch esgidiau cyfforddus.

Arweinydd: Angharad Owen

## CAEATHRO

**Capel**
Ar y 3ydd o Ebrill bydd gwasanaeth dan arweiniad y Parchedig R E Hughes am 2.00 PM. Ar ddydd Sul y Pasg, yr 17eg o Ebrill, bydd gwasanaeth dan arweiniad Bob Morris am 2.00 PM.

**Etholiadau – Mai 2022**
Ym mis Mai 2022, bydd cyfle unwaith eto i drigolion yr ardal fwrw pleidlais i ethol cynghorwyr i gynrychioli ein cymunedau lleol. Pwysig yw nodi y bydd Ward Caeathro wedi symud o sedd Waunfawr i sedd Bontnewydd ar gyfer yr etholiad hwn. Er hyn, ni fydd ffin y Ward yn newid – gellir gweld y ffiniau priodol ar y map isod. Bydd yr Orsaf Bleidleisio hefyd yn parhau yng Nghanolfan Y Capel yng Nghaeathro.



# Un funud fach ...

## MARINA OVSYANNIKOVA



Gwraig ddewr ydi Marina Ovsyannikova, un o olygyddion sianel deledu *Perviy Kanal* (Sianel 1) yn Rwsia. Yn ystod bwletin newyddion heno (nos Lun, Mawrth 14, 2022) safodd y tu ôl i'r cyflwynydd gan ddangos poster ac arno'r geiriau 'No War – Dim rhyfel. Rwsiaid yn erbyn rhyfel.' Cafodd ei harestio, a does ond gobeithio na fydd yn dioddef am fentro dweud ei barn ar lwyfan mor gyhoeddus.

Yn naturiol, cafodd protest ddewr Marina Ovsyannikova sylw haeddiannol, yma yng ngwledydd Prydain fel mewn sawl gwlad arall mae'n debyg. Dangosodd hi, ynghyd â'r miloedd a fu'n protestio ar strydoedd Rwsia, fod yna wrthwynebiad cryf yn y wlad honno hefyd i'r Rhyfel yn Wcráin. Diolch i Dduw am barodrwydd y bobl hyn i godi llais yn erbyn y Rhyfel ac o blaid heddwch. Erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn, bydd o leiaf ddeng niwrnod arall wedi mynd heibio. Gwn fod hynny'n fwy na digon o amser i bethau waethygu yn Wcráin, ond rwy'n gobeithio a gweddïo ei fod hefyd yn fwy na digon o amser i'r bomio ddod i ben ac i ryw lun ar heddwch gael ei adfer.

Mae'r Rhyfel yn Wcráin wedi'n brawychu gan ddangos o'r newydd mor wrthun ac ynfyd yw rhyfel, bob amser ac ym mhob man. Mor erchyll y lladd ac mor ddiangen y dioddef. Daw'r rhyfel hwn i ben yn hwyr neu hwyrach. Gweddïwn y digwydd hynny'n fuan, o fewn y dyddiau nesaf. A phan ddigwydd, does ond gobeithio y bydd yr erchylltra a welwyd yn Wcráin wedi atgoffa pobl o orffwylltra rhyfel ac wedi argyhoeddi arweinwyr byd o'r angen i wneud popeth o fewn eu gallu i geisio cymod a heddwch a chyfiawnder ym mha le bynnag y ceir brwydro ar hyn o bryd.

Do, fe glodforwyd Marina Ovsyannikova. A heno mi geisiaf weddïo drosti, gan ddiolch i Dduw am ei dewrder ac erfyn iddi gael ei rhyddhau o'r ddalfa'n ddiogel a dianaf. Ac mi wnaf hynny gan gofio nad yw popeth yn berffaith yn ein plith ninnau. Mi weddïaf drosti gan geisio'r un pryd ras i beidio â bod fel y Pharisead a ddiolchai nad oedd o 'fel pawb arall' (Luc 18:11). Mi weddïaf gyda'r gostyngeiddrwydd sy'n gweddu i rywun sy'n byw o fewn terfynau'r Deyrnas Unedig ryfedd sydd ohoni. Oherwydd mi weddïaf gan gofio fod y Llywodraeth yn San Steffan ar ganol cyflwyno'r 'Bil Heddlu, Trosedd, Dedfrydu a Llysoedd' sy'n debygol o gyfyngu'n sylweddol ar hawl a gallu pobl i brotestio'n gyhoeddus ac yn heddychol yn erbyn pob math o bethau yma yng ngwledydd Prydain.

Mi geisiaf weddïo ar i Dduw ddiogelu Marina Ovsyannikova yn wyneb gelyniaeth ei gwladwriaeth i bob protest yn erbyn ei pholisïau. A diolch i Dduw am gael gwneud hynny heno: gweddïo am heddwch i Wcráin, a gweddïo dros Rwsia a'i phobl gan ddiolch am Marina a phawb a fu'n galw am derfyn i'r Rhyfel. Ac er y gall deddf seneddol ymddangos yn beth diflas ac eilradd yn wyneb erchylltra rhyfel, gweddïwn y cedwir pob llywodraeth rhag beirniadu eraill a bod yr un pryd yn ddall i'w ffaeleddau eu hunain. A gweddïwn hefyd am y gras i adnabod pob tuedd debyg ynom ein hunain i sylwi ar feiau pawb arall ond aros yn gwbl ddall i'n beiau ni ein hunain.

*JOHN PRITCHARD*

# LLANBERIS

**Noson Gwis**
Cynhaliwyd noson gwis yn Y Gwynedd ar 8fed Mawrth er mwyn codi arian at Oleuadau Nadolig Llanberis a Nant Peris 2022. Fe godwyd £185.00 ar y noson rhwng arian y cwis ac arian y raffl.




Hoffwn ddiolch i fusnesau a thrigolion Llanberis a Nant Peris am gyfrannu'n ariannol a thrwy gynnig gwobrwyon ar gyfer y noson. Hoffwn hefyd ddiolch i Neil Griffith ac Anthony yn Y Gwynedd am y croeso cynnes ar y noson, ac hefyd i Kate Pritchard a Glyn Hughes am helpu gyda'r trefnu.

Roedd y noson yn hynod lwyddiannus ac yn gychwyn ar godi arian tuag at yr achos, gan obeithio y bydd noson gwis arall yn fuan.



**Clwb Gwnïo**
Braf yw gweld bod digwyddiadau newydd yn cael eu trefnu yn ein hardal yn dilyn dwy flynedd o ddiflastod. Mae grŵp neu glwb gwnïo yn ail-ddechrau yn Y Ganolfan, Llanberis, bob prynhawn Iau rhwng 12.30PM a 4.00PM.

**Capel Coch:**
Ers i ni ail ddechrau'r oedfaon wedi'r cyfnodau clo a ddaeth yn sgil Covid-19 rydym wedi cynnal oedfa yn y Capel bob pythefnos. O ddechrau mis Ebrill bydd oedfa yn Capel Coch am 10.00 AM bob bore Sul. Edrychwn ymlaen at y cam pellach hwn o ddod nôl i'r drefn arferol. Bydd yr Ysgol Sul yn parhau i gyfarfod bob pythefnos am y tro. Bydd manylion llawn am ein hoedfaon i'w gweld yn *Gronyn* bob wythnos ac ar wefan yr Ofalaeth, **gronyn.org** Mae croeso cynnes i unrhyw un i ymuno â ni yn yr oedfa ar fore Sul.

# Gweithgareddau llesiant i bobl ifanc Llanberis

Yn ddiweddar bu'r fenter gymdeithasol CircoArts yn rhedeg rhaglen, ' Llesiant y gaeaf' yng nghanolfan elusen celfyddydau cymunedol **Y Festri** yn Llanberis, a arianwyd gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru trwy uned gofal plant Cyngor Gwynedd.

Bwriad y rhaglen ariannu oedd cefnogi llesiant plant a phobl ifanc, hyd at 25 oed, dros fisoedd y gaeaf, gyda'r bwriad o ddarparu gweithgareddau fyddai'n cefnogi llesiant cymdeithasol, emosiynol a chorfforol ein plant a phobl ifanc. Y nod oedd darparu gofod ac amser i chwarae trwy fentrau rhyngweithiol cymdeithasol oedd yn greadigol, yn annog gweithgarwch corfforol, helpu datblygu ac adeiladu ar sgiliau cymdeithasol, a darparu cyfleoedd ar gyfer pob gallu ymhle gallent ymwneud â'u ffrindiau a chyfoedion. Roedd y gweithgareddau wedi eu trefnu o gwmpas yr amser oedd yn siwtio'r plant a phobl ifanc orau ac yn rhad ac am ddim.

Bob dydd Llun roedd yna sgiliau syrcas ar y llawr ar gyfer oedrannau cynradd ac uwchradd, gan gynnwys, jyglo, troelli a sgiliau cydbwyso, yn ogystal â beicio un olwyn, cerdded rhaff a chwarae gemau. Cynhaliwyd clwb celf 'Gwnewch eich Marciau' ('*Make your Marks*') ar ddyddiau Mawrth, eto ar gyfer oedrannau cynradd ac uwchradd, oedd yn defnyddio ystod eang o dechnegau celf wrth ddathlu dyddiadau diwylliannol. Ar ôl tynnu lluniau calonnau ar lechen i ddathlu Dydd Santes Dwynwen roedd y plant yn awyddus i'w rhoi yn y bocs ffôn ar y stryd fawr, er mwyn i bawb gael eu gweld! Roedd sgiliau syrcas ar gael i bobl ifanc hŷn bob dydd Gwener, oedd yn fwy o ofod ymlacio i'r ieuenctid, ble roedden nhw'n cael dewis beth oedden nhw am ei ddysgu. Gwelwyd cymysgedd da o fyfyrwyr mwy profiadol ynghyd â rhai nad oedden nhw erioed wedi trio sgiliau syrcas o'r blaen.

Dywedodd un rhiant, "Wnaeth fy mhlentyn i, wirioneddol fwynhau ei sesiwn gyntaf yn Y Festri, wnaeth hi ddim stopio siarad amdano fo weddill y gyda'r nos."

Roedd y cyllid yn cynnwys darparu dŵr a byrbrydau iach. Roedden nhw'n cael dewis pa ffrwythau a llysiau roeddent yn dymuno eu cael yn y sesiynau. Roedd cynnwrf mawr wrth iddyn nhw gael dewis a bwyta eu hoff ffrwyth, oedd yn ei dro yn annog plant eraill i drio pethau doedden nhw heb eu blasu o'r blaen. Ffefryn iachusol oedd dyfrfelon a mafon.

Dywed Thomasine Tomkins, "Roedden ni mor falch i gael y cyllid yma, mae wedi'n galluogi ni i agor dosbarthiadau yn Y Festri. Nid yn unig roedd hyn yn rhoi gwaith i'n hyfforddwyr syrcas a thiwtoriaid celf, ond roedd hefyd yn helpu'r plant i weld hen ffrindiau a gwneud ffrindiau newydd. Trwy gynnal dosbarthiadau'n gyson adeiladwyd ar yr ymdeimlad o berthyn a datblygiad creadigol y plant a'r bobl ifanc. Mi ydan ni'n sicr ein bod ni wedi gwneud gwahaniaeth iddyn nhw, ac yn gobeithio ei fod wedi helpu eu gwella o'r niwed mae'r pandemig Covid-19 wedi ei gael arnynt. Mae wedi bod yn sialens, gan fod cyfraddau Covid-19 yn dal yn uchel yn y pentref, sydd wedi tarfu rhywfaint ar y presenoldeb, ond mae pawb wedi bod yn gefnogol ac yn barchus o'r polisïau/lleddfiadau. Yn bennaf oll, roedd hi mor braf i wireddu'r freuddwyd o gael Y Festri yn llawn hwyl a chwerthin unwaith eto." Sylw un rhiant oedd, bod ei blentyn "y mwyaf ymlaciedig ac yn debycach iddo fo'i hun ac yn fwy brwdfrydig nag ydw i wedi ei weld ers hydoedd, ar ôl gwneud y sesiwn yna'r wythnos dwaetha."

Cafodd y sesiynau'r bawd i fyny gan yr Hyfforddwr Syrcas, Joe Thomas o Benisarwaun a ddywedodd, "Mae hi wedi bod yn arbennig o dda i fod yn ôl yn Y Festri, yn gweithio efo'r plant a'r bobl ifanc, ond hefyd o gael bod yn rhan o'u hapusrwydd nhw a'i fwynhau gymaint â'r plant."


**Amser ffrwythau**


**Syrcas a jyglo**


**Clwb Gwnewch eich marciau - marblo**


**Calonau ar lechen Santes Dwynwen**


**Staff y Clwb Syrcas yn mwynhau byrbrydau iachus**


**Sgiliau estynedig hŵla hŵp**

## PENISARWAUN

**Eglwys St Helen**
Cynhelir gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid am 11.00AM pob dydd Sul. Estynnir croeso cynnes i bawb i ymuno â ni, ceir lluniaeth ysgafn i ddilyn y gwasanaethau.

**Gwasanaethau Y Pasg**
Fe gynhelir gwasanaethau yn ystod yr wythnos fawr yng ngwahanol eglwysi'r fro, ac fe fydd y canlynol yma yn St Helen:

Dydd Gwener y Groglith 15ed Ebrill, 2.00PM - Awr dawel a myfyrdod.

Dydd Sul y Pasg 17eg Ebrill, 11.00AM - Cymun y Pasg.

**Cronfa'r Fynwent**
Carai swyddogion yr Eglwys ddiolch yn fawr iawn i Dilys a Nansi, gynt o 3 Bryntirion, am eu rhodd o £20 tuag at gronfa cynnal a chadw'r fynwent.

**Bingo Arian**
Cynhelir bingo arian yn Neuadd yr Eglwys pob nos Fercher am 7.00PM.

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Wedi cyfnod maith o fethu cynnal cyfarfodydd oherwydd Covid-19, roedd hi'n braf cael croesawu aelodau i'r Pwyllgor ar nos Lun 14eg Mawrth, gan gadw at y rheolau o wisgo mwgwd a chadw pellter o ddwy fetr.

Dewiswyd swyddogion ac aelodau newydd a chafwyd cyfle i drafod cynnal gweithgareddau er budd codi arian tuag at y gost hyrwyddol o redeg y Neuadd Gymuned. Dymunir anfon ein cofion at Myfanwy wedi triniaeth yn yr ysbyty ac at eraill sy'n sâl yn y pentref.

Dymunir ysbaid hapus i Leslie Larsen, Is-Drysorydd ffyddlon am flynyddoedd maith, yng Nghartref Gofal, Marbryn, Caernarfon. Bu'n gymwynaswr mawr i'r pentref a'r gymuned a mawr yw ein diolch iddo. Gobeithir ail-gychwyn y Clwb Cant, gan obeithio cael yr un ffyddlondeb a denu mwy o aelodau.

**Pwyllgor Eisteddfod Bentref**
Edrychir ymlaen at gynnal Pwyllgor Eisteddfod Bentref yn fuan, gan wir obeithio y cawn gefnogaeth aelodau ifanc, brwdfrydig, sy'n dymuno cynnig cyfle i'r bobol ifanc ar lwyfan ein heisteddfod. Braf fydd cael mwynhau cwmni ein gilydd, yn y gymuned agos yma, wrth i'r haint leihau.

**Llongyfarchiadau**
Hyfryd oedd gwrando ar Magi Tudur a'i thad yn talu teyrnged i ewythr a brawd (Emyr) ar Noson Lawen Bryn Fôn, gyda theyrnged i gyfansoddwr cyfoes Cymru, Emyr Huws Jones. Ymhyfrydir yn llwyddiant Magi, fel un a gychwynnodd yn dair oed, ar lwyfan yr Eisteddfod Bentrtef. Yn yr un modd llongyferchir Efan Jac fel aelod o Gôr Ieuenctid Glanaethwy (Côr Nain Rhian) yntau hefyd wedi cychwyn yma yn yr Eisteddfod Bentref

Dymunir pob llwyddiant i Myfi ar gipio'r wobr gyntaf yn eisteddfod Cylch yr Urdd a phob dymuniad da iddi yn yr Eisteddfod Sir.

Llongyferchir John Eifion a Marina ar ddod yn daid a nain balch, am y tro cyntaf. Ganwyd merch fach, Nelw Siân i Lois Eifion ac Urien, nith fach i Anti Anest a gor-wyres i Hannah, Tŷ'r Ysgol Dinorwig, i Ann, Hendre Cennin ac i deulu Deiniolen. Dyma aelod fach arall fydd yn sicr o loywi'n lleisiol ac offerynnol yn y dyfodol. Hyfrydwch oedd mwynhau datganiad John Eifion o Cân Mel' er coffâd i'w dad a 'Gweddi'r Arglwydd', ar 'Noson Lawen Eifionydd'.

**Brysiwch wella**
Anfonwn ein cofion at Myfanwy a Tegid, wedi eu triniaeth yn yr ysbyty, ac yn dymuno adferiad iechyd buan i bawb arall sy'n sâl yn y pentref.

**Tâl am Yr Eco**
Mae Dosbarthwyr yr Eco yn dymuno derbyn y tâl blynyddol am yr Eco (£10) mor fuan ag sy'n bosib os gwelwch yn dda.


Gwasanaeth Gwres a Plymio
Ar gyfer eich holl anghenion gwres a plymio
*Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser*
Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig Bethel LL55 1UW
Ffôn (01248) 674927 Symudol - 07798 746718


## Ysgol Penisarwaun

Dyma luniau o Ddiwrnod y Llyfr Ysgol Penisarwaun a'r plant yn edrych yn ddigon o sioe.










# DEINIOLEN

**Apêl Wcrain**
Mae ymdrechion i godi arian yn y pentref i helpu'r rhai sy'n ffoi o'r hunllef sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn Wcrain. Mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu cynnal i bobl allu cyfrannu at yr achos yma. Diolch i bawb a drefnodd ac a gyfrannodd.

**Cydymdeimlo**
Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Dafydd Morris, neu Dafydd Cefn Coch fel fyddai pawb yn ei adnabod. Roedd yn ddyn ei filltir sgwâr ac yn amaethwr heb ei ail, fydd y tiroedd a'r caeau uwchben Deiniolen yn lle rhyfedd iawn heb Dafydd. Cofion at Wil, John, Alwena a Dylan a'r holl deulu a chyfeillion.

Estynnwn hefyd ein cydymdeimlad i deulu'r ddiweddar Aileen May Jones, gynt o Vaenol House, Clwt-y-Bont, a fu farw yn 93 mlwydd oed. Colled drist i'w theulu a'i ffrindiau oll.



**Capel**
Braf iawn oedd gweld gwasanaeth yn ail ddechrau o dan ofal y Parchg John Pritchard yn Nhŷ Elidir yn ddiweddar.

**Rhifyn 500 yr Eco**
Llongyfarchiadau enfawr i bawb sydd wedi bod yn rhan o lwyddiant yr Eco ers ei gychwyn yn ôl ar ddiwedd y 70'au. Mae'r ymdrech gan y trefnwyr ers y diwrnod cyntaf yn fater i fod yn falch iawn ohono. Ond mae ei lwyddiant hefyd yn ddibynnol ar gyfraniad amhrisiadwy y gohebwyr, dosbarthwyr ac wrth gwrs y darllenwyr. Mae'n waith sydd wedi ac yn parhau i gael ei wneud yn gwbl wirfoddol, ac yn achos y dosbarthwyr, ym mhob tywydd!! Diolch i bob un wan jac ohonoch ac i'r rhai a fu'n rhan mor bwysig o'i gynnal ond sydd bellach ddim efo ni.

**Cylch Meithrin Deiniolen**
Hoffai'r Cylch ddiolch o galon i Aelodau Bingo Tŷ Elidir am eu rhodd hael o £100 i Gylch Meithrin Deiniolen.



**Pedair cenhedlaeth yn mwynhau'r Eco**
Wrth edrych tua'r dyfodol…dyma lun o bedair cenhedlaeth o ferched hapus un teulu o Ddeiniolen. Mae Helen yn darllen yr Eco'n fisol - diolch yn fawr i chi Helen - a dyma hi gyda'i merch, wyres a gor-wyres. O'r chwith i'r dde - Nora (4 mis), Heddwen (26), Helen (85) a Rhian (51).

# Newyddion Elusen Dyffryn Peris

Moliannwn oll yn llon, mae amser gwell i ddyfod, ha-haleliwia … mae arwyddion dymunol o'n blaenau!

Mae yna chwe mis wedi hedfan heibio ers i chi gael newyddion am yr Elusen … ac mae'n ymddangos fod y gwaethaf o'r Covid tu cefn i ni (er mae angen i ni gyd fod yn ofalus am rwan) … ac rydym yn falch o gael cyhoeddi ein bod wedi cymeradwyo 3 cais yn ystod y misoedd diwethaf.

Do, er gwaethaf y Covid, fe ddaeth ychydig o geisiadau i law ac rydym fel Ymddiriedolwyr Elusen Dyffryn Peris wedi bod yn cyfarfod drwy gyfrwng Zoom pob 3 mis … gan obeithio y gwelwn rhagor o geisiadau yn y dyfodol agos.

Os cofiwch un o amcanion sylfaenol Ymddiriedolwyr Ynni Padarn Peris oedd sefydlu elusen a chyfrannu £10,000 y flwyddyn iddi i'w rannu i brosiectau amgylcheddol lleol. Ers ei sefydlu yn 2017 mae'r cynllun heidro cymunedol eisoes wedi rhoi £20,000 yn rhodd i'r elusen, a'r gobaith ydi y byddwn yn cael rhagor o geisiadau i'w hystyried fel mae pethau'n gwella.

Y cais cyntaf i'w gymeradwyo oedd cyfraniad o £500 i Glwb Pêl-droed Plant a Ieuenctid Deiniolen i'w galluogi i brynu offer ar gyfer sesiynau hyfforddi eu tri tîm – Dan 6, Dan 8 a Dan 16 oed. Maent eisoes wedi prynu goliau, peli a chôns a bydd gwariant pellach yn nhymor y gwanwyn ar gyfer y tîm dan 16 oed ar Gae'r Bwthyn, Deiniolen.

Roedd yr ail gais i'w gymeradwyo yn un mwy sylweddol, gan Gyngor Cymuned Llanberis, i'w galluogi i roi wyneb newydd ar gae pêl-droed pob-tywydd sydd wedi ei leoli tu ôl i'r Ganolfan ym mhentref Llanberis. Cae hynod boblogaidd a ddaeth gyda grantiau Ewropeaidd ond oedd bellach angen sylw sylweddol ac roedd yr amcangyfrif i gwblhau'r gwaith oddeutu £25,000 ac i'w wneud ar fyrder. Penderfynodd yr elusen roi £5,000 fel cyfraniad i'r prosiect ac fe sicrhawyd gweddill y costau o grantiau gan Gist Gwynedd a First Hydro. Gobeithiwn gael lluniau o'r agoriad swyddogol maes o law.

Daeth y trydydd cais gan Grŵp Datblygu Llanberis i gael tair mainc newydd yng ngardd Plas Pengwaith fel bod y trigolion ac ymwelwyr yn cael mwynhau sgwrsio allan yn yr awyr iach – roedd y meinciau presennol mewn cyflwr gwael ac angen eu hadnewyddu. Cymeradwywyd y gost o £738 i brynu'r meinciau a byddant yn eu lle yn fuan i alluogi'r preswylwyr i ymgysylltu â'r gymuned ehangach yn ddiogel yn yr awyr agored.

Gobeithiwn gyhoeddi lluniau, felly os oes gennych syniad am brosiect yn nalgylch yr elusen ewch ati i edrych ar ein gwefan.

Er mwyn bod yn llwyddiannus rhaid i'r ceisiadau gyflawni un o nodau'r elusen – dyma'r math o brosiectau a gefnogir:

* Lleihau tlodi tanwydd
* Hyrwyddo ynni adnewyddadwy
* Hybu trafnidiaeth gynaliadwy
* Annog busnesau i arbed ynni
* Cysylltu unigolion o bob oed â'r amgylchedd
* Lleihau gwastraff
* Hybu unigolion i wirfoddoli yn eu cymunedau
* Hybu ymarfer corff yn y gymuned
* Helpu dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg i gynnal natur ddwyieithog ein cymuned.

Fe ddylai ymrwymiad i'r iaith Gymraeg fod yn amlwg ym mhob prosiect ac fe all unigolion neu grwpiau ymgeisio am y grantiau.

Byddwn yn derbyn ceisiadau yn chwarterol - 1 Ionawr - 31 Mawrth, 1 Ebrill - 30 Mehefin, 1 Gorffennaf - 30 Medi a 1 Hydref - 31 Rhagfyr. Felly ewch i'n gwefan – **www.elusendyffrynperis.cymru** – i lawrlwytho ein Canllawiau i Ymgeiswyr a'r Ffurflen Gais, ac efallai y cewch chi ysbrydoliaeth i wireddu breuddwyd a all wella ein cymuned wedi'r holl drafferthion a wynebwyd yn ddiweddar.

Os oes angen i chi gysylltu â ni ynghylch eich cais, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn anfonwch e-bost at **cais@elusendyffrynperis.cymru**

# Ysgol Brynrefail

**Gweithdy Adolygu**
Yn dilyn cais gan y Cyngor Ysgol a chyngor Blwyddyn 12 ac 13 trefnwyd gweithdy adolygu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 12 ac 13 ar ddechrau Mawrth wrth i'r disgyblion ddychwelyd i'r ysgol wedi'r gwyliau i wynebu'r hanner tymor olaf cyn bydd eu harholiadau yn cychwyn.

**Diwrnod Sgiliau Ysgol Brynrefail 16eg Chwefror 2022**
Roedd dydd Mercher, 16eg Chwefror 2022 yn ddiwrnod pwysig iawn yng nghalendr yr ysgol sef achlysur y Diwrnod Sgiliau. Efallai bod rhai ohonoch yn pendroni, tybed beth yw diwrnod o'r fath a pham ei fod mor bwysig? Mewn blwyddyn ysgol, rydym fel arfer yn trefnu 5 diwrnod sgiliau – un yn nhymor yr hydref, yr ail yn nhymor y gwanwyn a thridiau ar ddiwedd tymor yr haf. Eleni, byddwn yn cynnal pedwar diwrnod ar ddiwedd tymor yr haf gan fod y niferoedd yn yr ysgol yn tyfu.

Mae'r diwrnod sgiliau yn gyfle i ddisgyblion flasu profiadau gwahanol i'r gwersi arferol ac yn gyfle iddynt gyda datblygu sgiliau newydd a fydd yn fuddiol iddynt yn y dyfodol. Maent yn ddiwrnodau poblogaidd iawn ymysg y disgyblion ac wrth eu cynllunio rydym yn gwneud ein gorau i ymateb i'w dymuniadau a'u hanghenion. Rydym hefyd yn ffodus iawn bod myfyrwyr Blwyddyn 12 ar gael i gynorthwyo gyda'r gweithgareddau ac yn gallu meithrin cyfrifoldeb a datblygu eu sgiliau cydweithio ac arwain – roedd cefnogaeth nifer fawr ohonynt yn amhrisiadwy i'r athrawon eleni eto a'r disgyblion iau yn mwynhau eu cwmni fel modelau rôl bositif hefyd.

'Yr Ynys' oedd thema diwrnod Blwyddyn 7 – roedden nhw'n gorfod dychmygu eu bod wedi glanio ar ynys bellennig ac yn gorfod cwblhau tasgau penodol i ddianc oddi yno. Tasgau fel gwneud arbrawf dŵr, chwarae gemau a chyfle i ennill gwobr drwy gasglu llythrennau i ddarganfod y côd cudd! Buon nhw hefyd yn cyfansoddi cân, yn gwneud gweithdy drama, yn mynd ar daith synhwyrau ac yn creu map. Roedden nhw wir wedi mwynhau gan fod rhywbeth at ddant pawb a digon o hwyl i'w gael ar y diwrnod.

Cafodd Blwyddyn 8 ddiwrnod i ganolbwyntio ar eu hiechyd meddwl ac i ddeall mwy am sut i gadw'n iach yn feddyliol – rhywbeth sy'n gynyddol bwysig yn ystod yr amseroedd cythryblus yr ydym yn byw ynddynt. Cawsant gyfle i ddysgu mwy am yr ymennydd, i fynd ar daith gerdded (yn y glaw i rai yn anffodus!) ac i wneud gweithdy yoga. Bu cyfle hefyd i ddeall beth ydy hapusrwydd a'r pethau bychan rhad ac am ddim gallwn ni gyd eu gwneud i greu hapusrwydd – pethau fel gwenu, bod yn garedig, meddwl am eraill a gwrando ar gerddoriaeth. Cynhaliwyd gweithdy celf a chrefft boblogaidd a phrysur iawn hefyd.

Cadw'n iach oedd thema'r diwrnod i ddisgyblion Blwyddyn 9. Trefnwyd diwrnod prysur iawn ar eu cyfer gyda phawb yn canmol y diwrnod i'r cymylau. Cafodd bawb y cyfle i wneud hyfforddiant cylchol neu 'circuit training', i wneud ychydig o Karate, i goginio gyda chogydd proffesiynol lleol, i ddysgu mwy mewn gweithdy am fwyta'n iach, i chwarae gemau bwrdd ac i roi sylw i'r foment hon a'u hanadlu mewn gweithdy meddylgarwch neu 'mindfulness' ac yoga. Mae'n bwysig iawn fod disgyblion yr oed yma, a fydd yn wynebu TGAU ym Mlwyddyn 10, yn deall pa strategaethau sy'n bosib eu defnyddio i gadw'n iach yn gorfforol ac yn feddyliol.

Cyfres o weithdai Menter oedd ffocws y diwrnod i ddisgyblion Blwyddyn 10 a phrofodd y gweithgareddau yn boblogaidd ymysg y disgyblion. Cawsant gyfle i ddatblygu syniad busnes, i feddwl am greu CV ac i ddysgu mwy am sut mae busnesau yn holi barn a marchnata eu cynnyrch.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 11 ddiwrnod i ddysgu mwy am sut i adolygu'n llwyddiannus a chyfle i adolygu yn rhai o'r pynciau craidd fel Saesneg a Mathemateg – mae ganddynt gyfnod heriol iawn yr arholiadau TGAU o'u blaenau felly roedd rhoi sylw i hyn yn amserol iawn.

Yn yr un modd, cafodd fyfyrwyr Blwyddyn 13 y cyfle i weithio ar eu hymchwiliadau unigol (sy'n cyfri am 50% o'u gradd Bac) a threfnwyd cyflwyniad gan Gyllid Myfyrwyr Cymru iddynt hefyd a the bach i ymlacio ar ddiwedd y dydd yn y ffreutur.



**Prosiect yr Amgueddfa**
Mae holl ddisgyblion Blwyddyn 7 yn mwynhau gweithio ar brosiect hynod gyffrous ar hyn o bryd fel rhan o baratoadau'r Amgueddfa Lechi i ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed eleni. Fel rhan o waith y prosiect bu pob dosbarth Blwyddyn 7 ar ymweliad â'r amgueddfa yn Llanberis yn dilyn gwyliau'r hanner tymor. Edrychwn ymlaen at fwy o gydweithio cyffrous gyda'r Amgueddfa dros y misoedd nesaf.




**Codi arian ar gyfer Ysgol Pendalar**
Llongyfarchiadau i Haf Williams a Cerys, Blwyddyn 12 am yr ymdrech arbennig a wnaethant yn ddiweddar i godi swm sylweddol o arian ar gyfer Ysgol Pendalar ac i griw'r Chweched Dosbarth am ychwanegu £250 at yr arian o'u cronfa er mwyn gallu cyfrannu £700 i'r ysgol yn gyfan gwbl. Dywedodd Haf:

"Fel rhan o Her y Gymuned ar gyfer y Bac cynhaliodd Cerys a finna raffl ar lein drwy Facebook i godi arian. Roedd cyfle i bawb brynu tocyn raffl am £2 y tocyn. Yn gyntaf bu i ni fynd o gwmpas busnesau lleol y casglu rhoddion ar gyfer y raffl. Roedd nifer o gwmniau lleol yn hael iawn gyda'u rhoddion. Diolch o galon Wavells, Llanrug, Glyntwrog, Llanrug, Co-op, Llanrug, Caffi Perthyn, Bethel, Ceir Cymru, Bethel, Sopna, Pontrug a Thŷ Becws, Stryd y Plas, Caernarfon. Bu i ni gynnal y raffl ar lein yn fyw dros Facebook a chasglu £441 yn y raffl. Cawsom dipyn o ddiddordeb a llawer o hwyl! Diolch yn fawr i bawb am gyfrannu ym mhob ffordd."

Mae criw disgyblion uwchradd Ysgol Pendalar wedi bod yn trafod ac wedi penderfynu gwario'r arian ar adnodd fydd yn ddefnyddiol i'r chwe dosbarth yn yr adran sef adnoddau therapi LEGO. Mae'r staff eisoes wedi derbyn hyfforddiant yn y defnydd o LEGO – Six Bricks dechrau mis Ionawr, ond mae angen pecyn adnodd personol i bob disgybl ar gost o £10 yr un. Fe wneith yr arian hwn alluogi'r ysgol i wneud hyn ac roedd y Pennaeth, Mrs Bethan Morris Jones yn hynod ddiolchgar am y cyfraniad hael.





BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch (01248) 361044
D. P. OWENS RHIWLAS

**Diolch a Llongyfarch**

Rwy'n siŵr ar ran darllenwyr rheolaidd yr Eco yma ym Methel a Seion, y caf longyfarch y gwirfoddolwyr a alluogodd y papur bro arbennig yma i gyrraedd y garreg filltir o gyhoeddi'r 500fed rhifyn. Nid ar chwarae bach mae rhywun yn sefydlu, cynnal a datblygu papur dros gyfnod cyhyd. I'r colofnwyr, casglwyr storiau pentref, dosbarthwyr a phwyllgor, diolch o galon. Gyda datblygiadau'r We rwy'n siŵr y bydd trigolion y dyfodol yn gweld cynnwys yr Eco yn faes ymchwil diddorol ar lefel unigolion, teuluoedd ac ardaloedd lleol. Diolch hefyd i'r hysbysebwyr a noddwyr am eu cefnogaeth. Bydd hanes hefyd yn dangos cyfraniad aruthrol y papurau bro at gynnal darllen trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rwyf wedi dweud droeon EICH PAPUR CHWI YW'R ECO. A allwch chwi fod yn 'waed newydd' mewn unrhyw agwedd o gynhyrchu'r Eco ac yn sicrhau ei ddyfodol? Yn rhifyn y dathliad gwelwch felly bod amrywiaeth erthyglau a phytiau yma – rhai'n edrych yn ôl a rhai â dyheuadau'r gwirfoddolwyr tua'r dyfodol.

**Diolchiadau**

Hoffai Delyth a'r teulu, Arfon House, Saron ddiolch i bawb am bob gair a chymwynas o gydymdeimlad yn eu colled ddiweddar. Bydd llawer o'r ardalwyr hefyd yn cofio'r gefnogaeth ddi-flino a roddodd Delyth yn y cyfnod blin diweddar a wynebodd Morlais. 'Y graig a ddeil yw gwraig dda.'

**Coffâd i Ron Hughes, Pennant, Seion**

Chwech oed oedd Ronnie pan symudodd y teulu o ddinas Lerpwl dan warchae adeg yr Ail Ryfel Byd i lonyddwch Seion, Llanddeiniolen. Am yr 81 mlynedd nesaf dyma fu ei gynefin, a Ronnie Seion fu i bawb. Yntau'n ymfalchio yn hynny. Aeth â'r pentref gydag ef i bobman, boed yn waith, cynhadledd eglwysig neu'r gwyliau carafanio oedd mor boblogaidd ganddynt fel teulu. Wedi addysg Ysgol Llan a Cownti Caernarfon, cafodd waith gyda chwmni y Red Garages yng Nghaernarfon, a dyn ceir fu Ronnie ar hyd y bedlan wedi hynny. Symud o'r Dre i Lanwnda, yn werthwr ceir i gwmni Dinas Garage ac yno'r arhosodd nes ymddeol. Nid 'Arthur Daley' mohono, ond tystiodd llawer fod y sgwrs gyda Ronnie – yn hamddenol braf – yn rhan o'r broses gwerthu. Yn ôl at Ronnie y deuai llawer ar adeg 'newid car'.



Ni fentrodd yn bell am wraig – gan briodi Gwenda o'r Rhiwlas. Mae Gwenda bellach yng Nghartref Willow Hall, Caernarfon. Magodd y ddau dri o fechgyn, Bryn, Dilwyn a'r cyw bach Euron. Taid a nain balch fu'r ddau i Osian Trefor a Lleucu. Chwaraeodd Ronnie ran flaenllaw ym mhob elfen o fywyd cymdeithasol y pentref. Heb os, y fangre bwysicaf oedd Capel Seion. Yr oedd Ronnie yn Wesla i'r carn – " Y Wesla o'r Wesla" chwedl rhywun. Trist oedd gweld drws y Capel yn cau yn 2008. Symudodd Ronnie ei aelodaeth i Eglwys Ebeneser, Caernarfon ac yna yn ddiweddar i Gapel Sheilo, Tregarth, capel ei arwr, y Parchg Tegla Davies. Bu'n gysur i Ronnie cyn ei farwolaeth i gael gweld Euron, wedi cyfnod fel athro poblogaidd yn Ysgol Brynrefail, yn troi at y Weinidogaeth yn ardal De Meirion a Threfaldwyn.

I gapel Sheilo y daeth cynulleidfa deilwng i dalu'r gymwynas olaf i Ronnie, dan arweiniad y Parchg Wynn Roberts, un arall o hogia Seion. Yna'r gladdedigaeth ym mynwent Pentir, ble mae bedd ei rieni. Yr oedd y gwasanaeth yn frith o gyfraniadau Ronnie mewn sawl ffordd i fywyd a phobl Seion a thu hwnt.

Fel y dywedodd un arall o blant Seion ddydd yr angladd, "Bydd Seion yn dlotach lle heb Ronnie". Da was, da a ffyddlon. Heddwch i'w lwch.

**Er cof am Ronnie Hughes, Seion**

Ŵr triw i Gwenda; i'r tri – hyd y daith,  
yn dad i'w drysori.  
Talp o Seion oedd Ronnie,  
'hoelen wyth' i'n hen Lan ni.

Ŵr graslon, wir gaer i'r Wesla, - caed Crist,  
caed cred, a chaed Tegla.  
Rhin aelwyd a bro'n elwa,  
yn byw'r daith drwy hybu'r da.

R.LL.J.

**Clwb Cerdded Bethel**

Bu raid ail-wampio'r drefn ychydig y mis yma. Diwedd mis Mawrth bydd taith o rhyw 5 milltir yn ardal Llanberis. Y bwriad yw cerdded heibio Castell Dolbadarn, i fyny drwy'r coed ger caffi Steffan cyn torri ar draws i Maesgwm ac yn ôl am banad.

Yn Ebrill, hen gartref Carneddog yn Carneddi, Nantmor fydd y brif gyrchfan, gyda chyfle i gael tipyn o hanes y gwerinwr llengar hwn. Taith fer o ryw 4 milltir fydd hon ar lôn darmac yn cychwyn o faes parcio Aberglaslyn. Bydd tipyn o ddringfa graddol drwy'r goedlan sy'n arwain at y tŷ.

Bydd dyddiadau ac amseroedd y ddwy daith yn ymddangos gan Morfudd ar gyswllt Whatsapp y grŵp cerdded.

**Rhoddion**

Derbyniais y rhestr rhoddion tuag at gynnal Mynwent Eglwys St Deiniol, Llanddeiniolen trwy law'r Trysorydd, Brian Sharpe, Ael y Bryn, Bethel. Fel pob blwyddyn, hoffai ddiolch i'r sawl a gyfranodd. Mae cost y gynhaliaeth yn mynd yn fwy dibynnol ar y rhoddion hyn bob blwyddyn. Derbynnir unrhyw rodd arianol drwy law'r Trysorydd yn y cyfeiriad uchod.

Dienw £220; Dienw £200; Mrs. C.A.Lowe, Goole £200; Dylan Edwards, Y Wirral £150; Emyr Roberts Y Groeslon, £100; Dienw £100; Dienw £100; Irfon Thomas a Mrs. A. Jones, Llanrug £50; Brian ac Eirlys Sharpe, Bethel £50; Mrs. M. Pierce, Llanrug £30; Dennis Ellis Llanberis £30; Glyn a Iona Richards, Deiniolen £30; Dienw £25; Ivy Wright, Bethel £20; Ann Ellis Williams, Bethel ac Ieuan Ellis Jones, Caernarfon £20; Eurgain Jones, Bethel £20; Mrs. Ann Hughes, Llanrug £20; Phyllis Jones, Cyffordd Llandudno £20; Hugh a Pat Hughes, Bethel £20; Gwen Rowlands, Nefyn £20; Ann Pierce Roberts, Bethel £20; Ieuan Williams, Bethel £10; Mrs. Elizabeth Evans, Bethel £10; Valerie Owen, Bethel £10; Teulu'r diweddar Robert a Margaret Pritchard, Bethel £10; Mrs. Eirian Jones, Deiniolen £10; Mrs. Marjorie Roberts, Bethel £10; Vera Williams, Afallon, Llanrug £10.

**Edrych Ymlaen**

Bydd cryn edrych ymlaen draw yn Isfryn, Bethel ar gyfer 29ain Mawrth. Y diwrnod hwnnw bydd Bob Thomas yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed. Howget yw Bob, ond wedi ymgartrefu yma ers sawl blwyddyn bellach. Mae Bob yn dipyn o ganwr ac wedi bod yn aelod o ambell gôr dros y blynyddoedd gan gynnwys Côr Cadnant yma ym Methel. Efallai bydd Bob yn cofio'r daith wych gafodd y côr i'r Ynys Werdd i gystadlu yn yr Ŵyl Ban Geltaidd yn Killarney. Mwynha dy ddiwrnod Bob, ac ymlaen at y cant!

**Gwynt Etholiad**

Bydd y 'daith' i Siambr y Cyngor Sir yn magu stêm yn ystod mis Ebrill. Fel mae'n hysbys, bydd wardiau Bethel/Seion a'r Felinheli yn uno yn un ward newydd yn cael ei chynrychioli gan ddau gynghorydd. Hyd y gwyddom, Sasha Williams (Plaid Cymru) yw'r unig ymgeisydd o Fethel sy'n 'sefyll' gydag Iwan Huws o'r Felinheli hefyd yn ymgeisio. Diolch iddynt – ac unrhyw un arall o unrhyw blaid – sy'n barod i sefyll. Yr un modd bydd cylch y Cynghorwyr Cymuned hefyd yn dod i ben. Cawn wybod erbyn rhifyn Mai os bydd ein pedwar cynghorydd presennol yn sefyll am gylch arall. Wrth gwrs, mae hawl gan unrhyw etholwr i roi eu henwau ymlaen ar gyfer yr haen yma o Lywodraeth Leol hefyd. Yn ddiddorol, 30 mlynedd yn ôl safodd 12 o etholwyr am y bedair sedd yn ward Bethel/Seion o'r Cyngor Cymuned. Cafwyd cryn 'ganfasio', yna etholiad a chyhoeddiad am 10.00PM yn yr Ysgol Gynradd. O feddwl sut mae'r pentref wedi datblygu mewn rhai ffyrdd ac wedi colli mewn ffyrdd eraill dros y cyfnod, mae angen y llais a chynryrchiolaeth 'leol' fwy heddiw nag erioed.

**Dychryn**

Roeddwn yn cerdded trwy un o'r pentrefi ble roeddwn yn byw ar un adeg y dydd o'r blaen. Y peth cyntaf i'm taro oedd y datblygiad tai yno – rhai'n ail gartrefi a hyd yn oed Air BnB. Yr hen gapel yn troi'n fflatiau gwyliau. Ond y tristwch mwyaf oedd gweld yr enwau ar rai o'r adeiladau bellach – Yr Hen Ysgol, Yr Hen Eglwys, Yr Hen Gapel a'r Hen Bôst. Yno, bu sŵn plant yn chwarae, sgwrs dros y cownter, eisteddfod lewyrchus, a sŵn addoli ar y Sul. Faint o drigolion y pentref hwnnw ddeugain mlynedd yn ôl fuasai'n credu y buasent yn dystion i'r fath newid? Gallwn roddi rhai o'r enwau yna ar rai o adeiladau yn y Bethel lewyrchus, boblog heddiw. Roeddwn yn y Co-op yn Llanrug yn prynu papur. Yno hefyd roedd pobl roeddwn yn adnabod o'r Rhiwlas a Phenisarwaun. Tri phentref gweddol niferus heb gyfleuster o siop, ac angen teithio i bwrcasu. Beth yw ein dehongliad ni fel 'cynllunio i'r dyfodol' tybed? Pwy feddyliai y buasai Siop Spar yng Nghwm y Glo ryw ddiwrnod yn ateb galw'r pentrefwyr?




**Rio yn rhoi'r poster cyntaf ar yr hysbysfwrdd newydd**

**Hysbysfwrdd Newydd**

Erbyn hyn mae hysbysfwrdd y Cyngor Cymuned wedi ei osod ger yr Ysgol. Diolch am y caniatâd i'w osod mewn man cyfleus i nifer o'n pentrefwyr. Yn amlwg bydd newyddion o'r Cyngor yn ymddangos gan gynnwys ceisiadau cynllunio yn y pentref. Tudalen flaen y Cais, sy'n dynodi'r cyfeiriad a disgrifiad o'r Cais yn unig a ddangosir. Ar gyfer y cynlluniau eu hunain, rhaid ymweld â gwefan y Cyngor Sir. Bydd cyfle hefyd i osod unrhyw wybodaeth yr hoffai unigolyn, cymdeithas neu glwb yn y pentref ei arddangos. Yr unig amod yw bod yr hyn a ddangosir yn weddus. Gall y wybodaeth fod yn y Gymraeg, neu'n ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn flaenaf. Dyna bolisi'r Cyngor. Os ydych eisiau arddangos unrhyw wybodaeth yna cysylltwch gydag unrhyw un o'r pedwar cynghorydd: Jane Pierce, Gareth Griffiths, Sasha Williams neu Richard Lloyd Jones. Mae gan bob un ohonynt allwedd i'r hysbysfwrdd.

Tybed a fydd plant heddiw – a Rio yn enwedig - yn cofio mewn ychydig o flynyddoedd mai'r poster cyntaf ar yr hysbysfwrdd oedd un yn nodi cynnig brecwast yn yr Ysgol i'r ardalwyr ar 23ain Mawrth, gyda'r elw'n mynd at ymgyrch cefnogi trigolion dioddefus yr Wcráin.

**Oedfaon Ebrill**

Saron 1.30PM**:** 3ydd - Ffion Rawlinson; 10fed - Philip Barnett; 17eg - Rhian Evans-Hill; 24ain - Parch. Richard Gillion (S)

Cysegr 10.00AM**:** 3ydd - Arwel Williams; 10fed - Eleri Jones; 17eg - Richard Morris Jones (C); 24ain - Islwyn Hughes.

Bethel 10.00AM**:** 10fed - Donald Pritchard; 17eg - Parch. R.E.Hughes; 24ain - Parch. Glenys Jones.



**Merched Y Wawr**

Roedd cyfarfod 4ydd Mawrth o'r gangen yn wahanol gan i ni gynnal Bore Coffi oedd yn agored i holl bentrefwyr Bethel. Cynhaliwyd yr achlysur yn y Neuadd Goffa rhwng 10.00AM a hanner dydd. Bwriad yr achlysur oedd rhoi cyfle i'r pentrefwyr o bob oed ddechrau ail gymdeithasu wedi cyfnod llwm y Covid-19. Derbyniodd y gangen grantiau gan Gyngor Gwynedd a Chronfa'r Loteri Genedlaethol at gostau cynnal y digwyddiad.



Braf iawn oedd gweld y Neuadd dan ei sang er gwaethaf y glaw. Manteisiodd rhai ar y cynnig am gymorth cludiant i'r Neuadd, a diolch i Gwyneth am fod mor barod i'w cario.

Braf oedd gweld pleser yr unigolion o gyd-gyfarfod wedi cryn wahanu, rhai ers misoedd bellach. Rhai yn cyfaddef eu bod yn nerfus os am fentro neu beidio, ac eto mor werthfawrogol o'r cyfle i ail gymdeithasu. Roedd croeso arbennig i ddwy o'n haelodau – Gwyneth Williams a Mabel Jones – a fethodd a dod i gyfarfodydd y gangen eleni oherwydd rhesymau meddygol. Roedd y ddwy'n benderfynol o ddod draw i ail-gyfarfod pawb.

Uchafbwynt y bore oedd eitemau gan blant yr Ysgol, gyda phob dosbarth yn eu tro yn ein diddanu drwy gân, llefaru neu ddawnsio gwerin. Addurnwyd y Neuadd gan luniau'r plant i ddathlu dydd Gŵyl Ddewi. Diolchodd ein Llywydd Anne Elis i'r prifathro Gwion Owen a'i staff am eu parodrwydd i gymryd rhan yn y gweithgareddau. Roedd y plant yn amlwg wedi mwynhau'r profiad, o gofio nad oedd rhai ohonynt wedi cael cyfle i berfformio'n gyhoeddus o'r blaen oherwydd cyfyngiadau Covid-19.

Roedd stondinau yng nghefn y Neuadd hefyd. Un oedd stondin gwaith Gwnio a Gweu Meira Evans, aelod o'r gangen. Roedd Meira'n bwriadu rhoi holl elw'r gwerthiant tuag at Gronfa'r Wcrain. Daeth Rosie a Carol o'r uned Tecstiliau yn y Bedol i godi ymwybyddiaeth o beth sy'n digwydd yno.

Diolch yn fawr i Sion ac Elis am baratoi y Neuadd ar nos Iau. Roedd yn help mawr, ac i Sion, Gwyn a Marcus am helpu i gadw'r byrddau a chadeiriau ar y diwedd.

Gweithiodd aelodau'r gangen fel tîm arbennig gydol y bore, rhai yn y gegin, eraill yn gweini, eraill yn gyfrifol am y raffl, a Jen yn brysur yn tynnu lluniau. Mae'r lluniau i'w gweld ar wefan Merched y Wawr Bethel. Diolch i'r Swyddogion, Anne, Liz a Gwyneth am drefnu'r bore mor drylwyr ac i holl aelodau'r gangen am eu cefnogaeth.

Diolchodd Marcus Robinson i'r gangen am eu gwaith caled a'u hymroddiad i weithgareddau'r pentref dros sawl blwyddyn bellach.

Defnydd arall o'r grantiau a dderbyniwyd yw trefnu taith diwrnod i Lerpwl a'r cyffiniau ar 8ed Mehefin. Ceir ymweliad â Port Sunlight, cartref y llun gwreiddiol o Salem, yna hanner awr o fordaith ar fferi'r Afon Merswy. Yna wedi glanio cyfle i ymweld ag orielau ac amgueddfeydd ardal yr Albert Dock neu groesi'r ffordd i siopau'r ddinas. Bydd manylion pellach am y daith a chyfle i gofrestru'r enwau yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

Bydd ein cyfarfod nesaf am 7.30PM yn y Neuadd ar 13eg Ebrill pan ceir sesiwn o ioga dan arweiniad Wendy Ostler.

**Anne Elis**

E. W. PRITCHARD
Trefnwyr Angladdau
62 STRYD FAWR, LLANBERIS
FFÔN - (01286) 870202

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
01286 673559
Which? Trusted trader
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

**Apêl**
Rwyf wedi cael y dasg o fframio pedwar crys chwaraeon. Oes rhywun yn yr ardal yn digwydd bod â phedair ffram – metal neu bren – fuasai'n gweddu, y gallwn eu prynu gennych os gwelwch yn dda. Gadewch I mi wybod ( 670115).

**Atgof**
Diolch i Marjorie Roberts, Tŷ Newydd am yr erthygl ddiddorol hon. Atgofion ei mam, yr annwyl Annie Elisabeth Williams yw'r gwaith, yn edrych yn ôl ar siopau Bethel ei phlentyndod. Mae'n drueni na allaf gyflwyno'r erthygl yn llaw ysgrifen Annie Elisabeth ei hun. Llawysgrifen ddestlus yn hen ddull 'sgwennu sownd y loops' yn adlewyrchu'r pwyslais mawr a roddwyd yn yr ysgol ar ddatblygu'r grefft o lawysgrifen raenus. Dyma'r erthygl fel y derbyniais hi.

"Dechreuwn yn Saron a gweithio'n ffordd i lawr i Fethel. Siop William a David Humphreys, neu siop Gwyndy i ni'r plant. Siop William yn gwerthu nwyddau a siop David yn gwerthu blawdiau gwartheg. Ble mae'r post rwan (be wyddai Annie Elisabeth am y dyfodol yn 'de) siop Samuel Jones yn gwerthu bara. Rwan y stryd tu cefn i'r post. Ar ben y stryd Siop 'Pob Dim' Miss Foster. I lawr y stryd Siopau Dic Barbar ac Elias Jones, y crydd. James Davies a'i siop rannog, nwyddau cyffredinol un ochr a chig ffres yr ochr arall. Tros y ffordd roedd siop drygist Tomi Alun, a'i fam a'i dad yn cadw siop ddillad. Yna, siop Jordan yn gwerthu paent a phapur papuro. Ar gyfer y chwarelwyr, William Williams (Wil Ceiliog) yn cadw siop gwerthu sgidiau hoelion mawr. Siop da-da William Hugh hefyd ar y stryd. Yn siop Elinor May a Betsan Thomas roedd y pentrefwyr yn prynu paraffin. Rhwng Blaen Rhôs a'r Ysgol roedd y cwt hers a oedd ar gael i holl deuluoedd y pentref.

Rŵan lawr i Bethel. Rwy'n cofio siop Bethel yn wag wedi i Owen Pritchard a'i wraig a Lizzie y ferch adael. Nid wy'n cofio pryd ddaeth Bob Parry o Rhos on Sea i gadw'r siop. Ar y 'main road' roedd Mary Jones yn cadw siop ar y gornel. Yn 'Refail yn naturiol roedd pedoli ceffylau. Deuai Richard Evans, Tŷ Cerrig o gwmpas bob nos Wener yn gwerthu cynnyrch o'i ardd. John Jones, Tŷ'n Maes hefyd yn gwerthu llysiau'r ardd a pharaffin. Fred y crydd draw yn Bryn Chwilog a David Roberts, Pen-buarth yn gwerthu glo ac yn cadw 'hers' yn y garej ar gyfer angladdau."

Cofnod rhyfeddol yn amlygu ffiniau pendant o gaeau agored rhwng Saron a Bethel. Tybed a oedd awgrym yn nifer y siopau fod poblogaeth Saron yn uwch na Bethel. A'r fath amrywiaeth. Pwy oedd angen Tesco a Morrisons? Roedd pobl leol yn prynu cynnyrch lleol. Dyddiau difyr trwy lygaid plentyn rwy'n siŵr. Diolch Marjorie.



**Rhedwyr Ifanc**
Denwyd nifer o redwyr ifanc i gystadlu yn ras Gwib y Ddraig draw ym Mhorthaethwy ar ddechrau'r mis. Cafwyd cynyrchiolaeth o glwb pêl-droed ieuenctid Bethel. Llongyfarchiadau i Ioan (dan 12) am ddod yn ail yn ras ei oedran ac i Gethin am gipio'r drydydd wobr yn ei ras yntau.

## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**
Ar ôl i gryn amser fynd heibio cyn ail-afael yng nghyfarfodydd y Sefydliad, cafodd yr aelodau ddod at ei gilydd nos Iau, Chwefror 17eg i fwynhau lluniaeth ysgafn a gêm o bingo. Roedd yn noson hwyliog gyda phawb yn falch o gael dod at ei gilydd i gymdeithasu. Diolchir am y rhoddion dderbyniwyd tuag at weithgareddau'r noson, a chafodd pawb anrheg yn y raffl a drefnwyd i ddiweddu'r cyfarfod.

## Ysgol Bethel



**Arwyr ar-lein**
Diolch i'r arwyr ar-lein am adrodd stori a oedd yn pwysleisio pwysigrwydd cadw'n ddiogel ar lein i ddisgyblion yr ysgol – neges bwysig iawn!



**Cyngor Eco**
Bu'r Cyngor Eco ac ambell wirfoddolwr o'r ysgol yn brysur yn plannu coed ar dir yr ysgol. Y bwriad yw i greu coedwig fechan ar gae'r ysgol. Yn ogystal, mae gwaith paratoi'r ardd ar gyfer plannu wedi cychwyn.







**Twrnament Pêl-droed**
Da iawn i ddisgyblion yr ysgol aeth ati i gynrychioli'r ysgol yn y twrnament pêl-droed diweddar – y cyntaf ers blynyddoedd! Roedd pawb wedi chwarae'n wych ac wedi llwyddo i gyrraedd y chwarteri!



**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi**
Ar 1af Mawrth dathlwyd Dydd Gŵyl Dewi yn yr ysgol lle daeth pawb i'r ysgol wedi gwisgo'r wisg draddodiadol neu ddillad coch. Wrth lwc eleni roedd cyfle i'r plant goginio a dathlu dydd Mawrth crempog ar yr un diwrnod – am lwcus!





**Wythnos Iechyd Meddwl Plant**
Cynhaliwyd wythnos o weithgareddau amrywiol yn yr ysgol er mwyn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd iechyd meddwl mewn plant. Roedd un diwrnod yn cynnwys cyfle i'r disgyblion ddod i'r ysgol mewn gwisg lliwgar/gwirion. Wel am hwyl!



**Cyngerdd Gŵyl Dewi**
Llongyfarchiadau mawr i'r holl blant am eu perfformiadau gwych yn y neuadd bentref yn ddiweddar – digon o ganu, llefaru a dawnsio. Gwych blantos!






**Taith i Lerpwl**
Roedd Dosbarth Elidir a Gwyrfai wedi cael modd i fyw wrth fynd ar eu trip cyntaf ers blynyddoedd! Yr holl blant wedi ymddwyn yn wych ac roedd yr amgueddfeydd wedi plesio'n arw.






# WAUNFAWR

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Nan Grug Roberts sy'n aelod o Glwb Gymnasteg Bangor ac yn ymarfer dair gwaith yr wythnos i ddatblygu ei sgiliau. Yn ddiweddar, bu'n ffodus iawn i gael mynychu ei chystadleuaeth gyntaf ers dwy flynedd, yng Nglannau Dyfrdwy. Llwyddodd i basio ei gradd lefel 6, a daeth yn gyntaf ar y 'Beam' hefyd. Bu'n cystadlu yn Wiltshire ddechrau mis Mawrth yng nghystadleuaeth Miss Quatro, ac fe berfformiodd yn arbennig o dda yn erbyn gymnastwyr o bob rhan o Loegr. Da iawn chdi Nan!



**Profedigaeth**
Bu farw Doris Roberts, Dwyros yn ystod mis Mawrth yn 94 mlwydd oed. Roedd wedi ei geni a'i magu yma yn y Weun, ac yn gefnogol iawn bob amser i weithgareddau'r pentref. Rydym yn cydymdeimlo gydag Ann ei merch, Geraint ei mab-yng-nghyfraith, y wyrion Gwennan a Llyr a'r teulu ehangach.

Hefyd, bu farw Richard Owen, Fferm Tanrallt yn 90 mlwydd oed. Rydym yn cydymdeimlo gyda'i feibion a'i ferched-yng-nghyfraith, John a Debra, Keith a Gail, ei wyrion Ceri a Bethan a'r teulu ehangach.



Erwan Twm a Nina



Twm a Math

**Gwylnos Wcráin**
Braf gweld nifer dda o'r pentrefwyr yn dod ynghyd nos Sul, 6ed Mawrth i ddangos cefnogaeth i bobl Wcráin a'r sefyllfa erchyll maent ynddi ar hyn o bryd. Roedd pobl o bob oedran wedi troi allan am gyfarfod byr, a diolch i Dafydd Iwan am ein hannerch, i'r Parchg Anna Jane Evans am wneud yn siŵr bod pawb yn gallu clywed drwy system PA, i Liz Saville Roberts, AS am fenthyg baner Wcráin ac i Catrin Llewelyn, Swyddfa Plaid Cymru am brintio baneri papur i ni. Casglwyd £753.46 tuag at Gronfa DEC Cymru.

**Hen Siopau**
Diolch i Gwilym Morris Jones am ymateb i'r apêl fis dwytha am wybodaeth am hen siopau a busnesau Waunfawr – 40 ohonynt! Gan fod y rhestr mor hir, tro'r siopau cig ydi hi'r mis yma:

**Cigyddion Waunfawr:**

**Ardref**
Siop J.R.Jones, (Johni bach Tŷ'n Gadlas). Hynny cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Bwriad 'Joni bach' oedd mynd i'r weinidogaeth, ond methiant fu ei ymgais. Ymfudodd wedyn i'r America.

**Richard Griffith ('Dic Tan Rallt')**
Siop sinc lliw coch dros y ffordd i'r Post ar y safle lle mae'r gysgodfa bysiau heddiw. Byddai Richard Griffith yn lladd moch ac ŵyn yn hen ladd-dŷ Penfforddfangor (adeilad cerrig yn y cae yng nghefn Penrhos a'r becws).
Yn ddiweddarach yn ystod y 1950au, bu'n siop edafedd Owilda Williams, Pant Defaid ('Wilda Wl') ac wedyn siop radio a theledu Mr T Cepas, gŵr o wlad Pwyl oedd yn byw yng Nghwm-y-Glo.

**Penrhos**
Siop groser, cig a physgod o eiddo gŵr o'r enw John Jones, oedd hefyd yn berchen ar siop ym Meddgelert. Roedd ganddo ladd-dŷ ym Mhenfforddfangor, a chyn hynny roedd ganddo ladd-dŷ yn hen iard Hafan, ger Maes Bach.

**Hyfrydle**
Siop W.Williams, yng ngwaelod yr allt sy'n arwain at yr Ysgol, ac wedyn William Gray Williams y mab ('Wil Grê' ar lafar). Byddent yn lladd moch ac ŵyn yn iard Cae Glâs, dros y ffordd i'r siop.

**Peter Evans, Preswylfa (Pitar Bwtshar)**
Siop fechan yng Nghroesywaun, ar y safle lle roedd siop Canolfan Carpedi wedyn. Cario allan gyda fan fechan.

**J.H.Williams ('Joni Bach Pant Defaid')**
Bwtsiar â chanddo ladd-dŷ ym Mhant Defaid, ardal y Groeslon.

**R Williams, Hafod Uchaf**
Gwerthu cig o gwmpas yr ardal efo trol a cheffyl.











# Ysgol Waunfawr

**Eisteddfod**
Llongyfarchiadau i'r disgyblion hynny a fu'n cystadlu yn unigol yn yr Eisteddfod Cylch yn ddiweddar. Yr oedd yn brofiad tra gwahanol y tro hwn, ond gwych oedd clywed fod Cadi Rhys Bl 3 yn cael mynd i'r Eisteddfod Rhanbarth ym Mhontio ar 2il Ebrill i lefaru yn unigol.

**Rygbi**
Mae athrawon yr ysgol wedi bod yn paratoi'r disgyblion ar gyfer twrnament yng Nghaernarfon. Mae Cyfeillion yr ysgol wedi cytuno i brynu cit newydd iddynt a fydd wedi ei noddi gan ddau gwmni lleol - mwy o wybodaeth a lluniau yn fuan.




**Wythnos Cymru Cŵl**
Bu i bob dosbarth wneud amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys coginio, dawnsio gwerin a chynnal eisteddfod dosbarth. Braf oedd cael ymgynull yn y neuadd unwaith eto. Cafwyd gorymdaith drwy'r pentref a phawb yn chwifio'r faner gyda balchder.









**Diwrnod Y Llyfr**
Cafwyd ddiwrnod difyr iawn yng nghwmni pob math o gymeriadau o lyfrau Cymraeg yn ddiweddar. Braf yw gweld y plant yn mwynhau llyfrau ac mor barod i'w trafod.



**Apêl Wcráin**
Daeth cais i'r ysgol gynorthwyo gyda'r ymgyrch i gasglu nwyddau ar gyfer yr ymgyrch ddyngarol yn Wcráin. Daeth mynydd o nwyddau fesul sach, a phedair fan i'r ysgol i'w casglu. Diolch i Gareth a'r criw a fu'n eu llwytho a'u cludo i Wrecsam. Gwnaethpwyd casgliad ariannol hefyd drwy gynnal diwrnod di-wisg. Bydd y cyfraniad ariannol yn cael ei wneud drwy'r Groes Goch.



**Fan Lyfrgell 'Lori Ni'**
Mae'r disgyblion wrth eu boddau yn cael mynd i chwilota am lyfr newydd i'r fan. Da iawn chi blant a daliwch ati i ddarllen.

**Apel De-ffib**
Yr ydym yn falch iawn o gyhoeddi bod peiriant de-ffib ar ei ffordd i'r ysgol ar ôl ymgyrch Anti Jacqueline a Charline ar ran cyfeillion yr ysgol. Diolch yn fawr i'r Cyngor Cymuned am eu cyfraniad hael iawn i'r achos.

Cafwyd cystadleuaeth i enwi'r peiriant - Jac a Maia Williams oedd yn llwyddiannus. Cewch weld y lluniau a chlywed yr enw buddugol yn fuan.

**Newid tymhorau**
Anodd credu fod y gwanwyn ar ddod a'r gaeaf bron wedi cilio. Rhaid cyfaddef na fu'r gaeaf mor ddrwg ag arfer i ni yma yn Ninorwig. Am unwaith, ni fu'n rhaid clirio eira, a braf oedd gweld mai ar gopaon y mynyddoedd y treuliodd yr eira ei amser. Pan fo copa'r Wyddfa'n wyn a'r haul yn tywynnu arno, mae'n edrych yn hynod o dlws; ond does fawr o groeso iddo pan fo'n ein cau yn ein cartrefi. Braf gweld a chlywed arwyddion y gwanwyn: lliwiau melyn y gwahanol flodau, blagur ar y coed a chân yr adar.

**Ymwelwyr**
Yn wahanol iawn i'r blynyddoedd a fu, mae'r Wyddfa a'r mynyddoedd eraill yn denu gydol y flwyddyn bellach, a thai gwyliau'r ardal yn llawn drwy'r flwyddyn.

**Y Capel**
Am ddwy flynedd union bu'r capel yn Neiniolen ar gau, ond ddechrau mis Mawrth daeth y newyddion da fod gwasanaethau i ail-ddechrau. Ar y prynhawn cyntaf daeth cynulleidfa dda ynghyd, a braf gweld nad oedd yr aelodau wedi cefnu ar yr achos. Mae'n drist cofnodi ein bod wedi colli pump o aelodau drwy farwolaeth yn ystod y ddwy flynedd y bu'r capel ar gau, ond daeth eraill i lenwi'r bwlch. Diolch i Gareth am ei wasanaeth ar yr organ, a diolch i Irfon am gymryd gofal o lyfrau'r eglwys. Oherwydd oedran y mwyafrif o'r aelodau, y bwriad fydd cynnal yr oedfaon am 3.30 y prynhawn yn hytrach na 5.00, a mawr obeithiwn y bydd yn llwyddiant, ac yn denu mwy i'r gwasanaethau. Gyda diolch i'n gweinidog, y Parchg John Pritchard am ei waith dros gyfnod anodd o ddwy flynedd. Gyda chymorth yr aelodau bydd yr achos yn siŵr o lwyddo.

**Cofion**
Mae llawer o salwch wedi bod dros yr wythnosau diwethaf, a mawr obeithiwn fod pawb yn gwella. Ein cofion hefyd at y rhai sydd yn yr ysbyty, ac yn wael yn eu cartrefi.







## A welsoch chi hen ffon fy nain?

y stori, a chafodd ei chadw'n ofalus gan y teulu. Felly, y mae hi yn meddiant Mrs. Ena Jones, Bod Ifor, Pontrhythallt heddiw.
Brodor o Ddeiniolen a fu farw'n ddeugain oed yn 1888 oedd Thomas Davies Thomas, (Glan Padarn). Cyhoeddodd ddwy gyfrol o'i gerddi — **Caniadau** (Hughes a'i Fab) pan oedd yn ifanc iawn, ac **Odlau Padarn** (H.

**Hen Ffon fy Nain ar Gân**
Yn rhifyn Ebrill 2021 o'r Eco, gwnaed cais gan y canwr gwerin o Fethel, Gwilym Bowen Rhys, am wybodaeth ynglŷn â 'hen ffon fy nain', a lle mae'n cael ei chadw erbyn hyn. Gwnaed y ffon yn enwog mewn cân gan Glan Padarn (Thomas Davies Thomas, 1848 - 1888) a daeth y gân yn hynod o boblogaidd wedyn. Gwelir yn y llun o glawr rhifyn Ebrill 1977 o'r Eco bod y ffon ym meddiant Ena Jones, Bod Ifor, Pontrhythallt ar y pryd.

Cafwyd ymateb i gais Gwilym flwyddyn yn ôl, a dysgwyd bod y ffon yn saff ym meddiant Eifion ac Owena Hughes, Moelfre. Roedd Ena yn fodryb i Eifion, sef chwaer ei dad, Elis. Trist oedd clywed bod Eifion wedi ein gadael erbyn hyn, ac mae ei weddw Owena wedi symud i Gaernarfon, ond wedi gwneud yn siŵr bod y ffon yn saff. A dyma hi i chi.

Mae fersiwn newydd o'r gân 'hen ffon fy nain' yn ymddangos ar albym newydd Gwilym – 'Detholiad o Hen Faledi #2' – ac mae'r hanes yn gynwysiedig yn y llyfryn nodiadau sy'n dod efo'r CD.

# Codi Llais drwy Bleidlais

Cynhelir yr etholiadau lleol ar 5ed Mai a chyfle i chi ddewis pwy fydd yn eich cynrychioli chi ar y cyngor sir.

Am y tro cyntaf eleni bydd pobol 16 ac 17 oed yn cael pleidleisio felly os ydych chi, aelod o'ch teulu neu gydnabod yn gymwys - cofiwch bod llais yr ifanc yn hollbwysig. Ewch i www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio er mwyn cofrestru.


Mae'r etholiadau lleol yn rhai pwysig iawn ac yn gyfle i chi ddylanwadu ar y gynrychiolaeth yn eich ardal chi a thrwy hynny gael llais yng nghyfeiriad eich bro.

Mae ffiniau rhai wardiau wedi newid ers y tro diwethaf - Y Felinheli a Bethel yn ymuno; Brynrefail yn ymuno â ward Cwm-y-glo a Chaeathro a Bontnewydd yn dod at ei gilydd.

Enwau wardiau Bro'r Eco yw Llanberis, Cwm-y-Glo, Llanrug, Waunfawr, Deiniolen, Penisarwaun a Bethel a'r Felinheli.

Cofiwch gofrestru i bleidleisio a defnyddio'ch pleidlais ar y 5ed o Fai!



**Tyddyn Teg**
**Bwyd - Tir - Pobl**

**LLYSIAU LLEOL FFRES**

**Ymunwch â'n cynllun llysiau!**

**Dewch i'n siop!**

- **Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.**
- **Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.**


Cyslltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
*www.perkinsfurniture.co.uk*
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

# Chwilota

Erthyglau hanes lleol,
Bro Eco'r Wyddfa.
chwilota.wordpress.com

**Cysylltiad y fro â Millom, Cumberland**



*Eglwys y Drindod Sanctaidd, Millom*

Prin oedd poblogaeth Millom yn 1851, ond yn 1855 darganfuwyd mwyn haearn yno, a thyfodd yn gyflym iawn, gyda gweithwyr yn dylifo yno i'r gweithfeydd haearn, yn enwedig o Gernyw ac o Gymru. O astudio cyfrifiad 1861, mae'n ymddangos fod y mwyafrif o'r Cymry oedd yn byw yno'n dod yn wreiddiol o ardal Treffynnon a Threlawnyd. Deuai gwraig i Reithor y plwyf o Sir Benfro, ac yr oedd dau o'u gweision hefyd yn enedigol o'r sir honno. Doedd trefi diwydiannol Barrow a Workington ddim yn bell i ffwrdd, ond mae'n amlwg fod prinder gweinidogion anghydffurfiol yn yr ardal. Oherwydd fod cymaint o Gymry Cymraeg wedi symud yno i chwilio am waith, roedd galw am weinidogion Cymraeg eu hiaith i fynd yno i wasanaethu.

Yn 'Y Goleuad' ym 1874 gwneir apêl am weinidogion i fynd i Barrow, Workington a Millom: *"y mae nifer anhygoel o Gymry yma ag sydd fel defaid heb arnynt fugail".* Ac yn ôl un adroddiad, roedd y Cymry hyn yn byw yng nghanol annuwioldeb o'r math gwaethaf. A rhoddir enghraifft o hynny gan ddweud fod ffermwyr yr ardal hyd yn oed yn torri gwair a'i fydylu ar y Suliau, heb feddwl dim am wneud hynny! Ni roddir enghreifftiau o annuwioldeb y trefi!

Bryd hynny, y Genhadaeth Gartrefol dan nawdd y Methodistiaid Calfinaidd oedd yn gofalu am geisio sicrhau gweinidogion Cymraeg eu hiaith i drefi diwydiannol gogledd Lloegr. Un o'r rhai atebodd yr alwad i fynd i genhadu i'r ardal oedd y Parch Richard Jones, a gyrhaeddodd yno yn 1875, ac a fu'n weinidog yn Millom am chwe blynedd cyn dychwelyd i Gymru yn dilyn galwad o Gaergybi. Ond ym 1884 daeth galwad iddo ddod yn weinidog i'r fro hon, ac ymsefydlodd ym Mrynrefail. Mae'n fwy adnabyddus, wrth gwrs, dan ei enw barddol – Glan Alaw.

Yn y flwyddyn y dechreuodd Glan Alaw ar ei weinidogaeth yn Millom, cynhaliwyd cyngerdd mawreddog yn Workington, a hynny gan Gymry. Amcangyfrifid fod rhwng pedwar a phum cant o Gymry'n byw yn Workington bryd hynny, ac yr oedd galw am adloniant Cymreig os nad Cymraeg yno. Arweinydd a phrif unawdydd y cyngerdd oedd Eos Morlais, a chaiff ei ganmol yn y wasg leol am safon y gerddoriaeth. Yn ymddangos yn yr un cyngerdd yr oedd y Millom Welsh Glee Party a gafodd ganmoliaeth arbennig hefyd. Daw'r adroddiad ym mhapur Y Gwladgarwr, ble dywed y gohebydd, Ap Gwyrfai, fod *"y Saeson yn cau eu clustiau i unrhywbeth o sawr Cymreig",* ond yr oedd y cyngerdd hwn *"yn peri iddynt agor eu cegau mewn syndod".*

Dyna un arall o fechgyn Arfon yn byw yng ngogledd Lloegr felly, a'i enw barddol yn awgrymu mai o ddyffryn afon Gwyrfai y deuai'n wreiddiol. Mewn gwirionedd, brodor o dyddyn Tan y fron, Rhostryfan ydoedd. (Rhaid peidio â'i gymysgu gydag Ap Gwyrfai arall, diweddarach, sef mab Owen Gwyrfai – Owen Williams, y Waunfawr.) Yr oedd yn anfon llawer o adroddiadau am weithgareddau'r Cymry yn Ardal y Llynoedd i'r wasg Gymraeg. Bu farw'n ŵr ifanc 35 oed ar ôl boddi yn chwarel lechi Common Wood, Ulpha, dyffryn Duddon; chwarel a oedd dan ei reolaeth ef a gŵr arall o Rostryfan, sef John Thomas.

Un arall o'r fro a fu'n gweinidogaethu yn Millom oedd y Parch John W. Jones. Fe'i ganed yn Cae Rhydau, Pontrug, yn fab i William a Margaret Jones. Roedd y teulu'n aelodau yng Nghapel Nazareth. Yn ddeunaw oed roedd yn gweithio mewn chwarel lechi, ond mae'n amlwg ei fod â'i fryd ar fynd i'r weinidogaeth, a mynychodd Ysgol Clynnog a Choleg y Brifysgol, Bangor. Ym 1891 roedd yn lletya yn Nhŷ Capel Golan, ac yn disgrifio'i hun fel 'Calvinistic Methodist Preacher'. Nid yw'n ymddangos iddo gael ei ordeinio'n weinidog, ond derbyniodd ofal am gapel Methodistaidd Llanfairtalhaiarn ym 1895.

Ym 1897 rhoes y Parch J. T. Prichard, gweinidog Cymraeg Millom, rybudd i'r Genhadaeth Gartrefol y byddai'n rhoi'r gorau i'w ofalaeth ddiwedd Mehefin wedi pum mlynedd o wasanaethu yno oherwydd iddo dderbyn galwad i fod yn weinidog Nant Gwrtheyrn. Y Parch John W. Jones a symudodd i ogledd Lloegr o Lanfairtalhaiarn. Roedd disgwyl iddo ofalu am gapeli Cymraeg Millom a Dalton, ac i bregethu yn Gymraeg yn Workington unwaith bob dau fis. Efallai mai arwydd oedd hyn fod y mudiad Cymraeg ei iaith yn gwanychu yn yr ardal.

Byr fu arhosiad y Parch John W. Jones yn Millom, oherwydd gwta flwyddyn yn ddiweddarach bu farw yn ŵr ifanc 35 oed. Fe'i claddwyd ym mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Holborn Hill, Millom.

Hyd y gwn, dyma'r cysylltiad olaf rhwng bro Eco'r Wyddfa a'r gymuned Gymraeg yng ngogledd orllewin Lloegr – os na wyddoch chi'n wahanol.

**Dirgelwch yr Ewyllysiau**

Ers y rhifyn diwethaf deuthum ar draws mwy o wybodaeth am William William Roberts, Caradog Place, Ebenezer – y darganfuwyd ei ewyllys yng Ngarn Dolbenmaen. Mae i'w gael yn llyfr W. J. Hughes (Deiniolfryn), sy'n dathlu canmlwyddiant capel Ebenezer ym 1923.




*Clawr llyfr Canmlwyddiant Capel Ebenezer.*

Cafodd William Roberts ei ethol yn flaenor yn y capel ym 1886 ac yn drysorydd ym 1896. Yr oedd hefyd yn cynrychioli ardal Ebenezer ar Gyngor Gwledig Gwyrfai. Meddai Deiniolfryn amdano: *"Nid y crintach llawgeuad oedd y trysorydd hwn, ond un a agorai ei drysor ac a roddai'n hael".*

Daeth hefyd un ymateb – gan Linor Roberts, Garn Dolbenmaen. Gwyddwn fod John Owen Williams o Glwt y Bont wedi symud i'r Garn tua 1910-11. Ond wyddwn i ddim ei fod wedi priodi am yr eilwaith wedi marw ei wraig. Roedd Linor Roberts yn cofio ei ail wraig, a oedd yn cael ei hadnabod fel 'Lusa bach Bryn Llys, Fachwen'. Felly, pwy oedd yr Elisabeth hon a oedd yn Mrs Morris pan briododd J. O. Williams? Tybed ai hi yw'r cysylltiad rhwng William Roberts, Ebenezer a'r teulu yng Ngarn Dolbenmaen?




# LLANRUG

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Robin ac Evelyn Williams, Glan Gors, ar ddod yn daid a nain i Caleb Llywelyn, mab bach i Elin a Huw a gor-ŵyr i Menna Williams, Minffordd. Pob dymuniad da i chi i gyd.

**Merched y Wawr, Llanrug**
**Cyfarfod mis Chwefror**
Cyfarfu nifer dda o aelodau ar nos Fawrth 8fed Chwefror yng Nghapel y Rhos ac estynnodd ein llywydd, Nan Humphreys groeso iddynt.

Cychwynnwyd gyda 'Cân y Mudiad, gyda Susan yn cyfeilio. Dymunwyd yn dda i Mair, Margaret, Myfanwy a Megan gan ddymuno adferiad iechyd buan iddynt. Llongyfarchwyd Menna ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn Ionawr.

Gŵr gwadd y noson oedd yr amryddawn Arwel (Hogia'r Wyddfa) gyda'i storïau doniol am 'Deithio tu ôl i'r Gân'. Yn hogyn o gefndir cerddorol iawn, gyda'i fam yn gantores o fri a'i dad yn aelod o gorau meibion, does ryfedd fod ganddo'r llais tenor melodaidd. Bu'r Hogia o Bentref Bach Llanbêr yn crwydro Cymru benbaladr, gydag Arwel druan yn deithiwr difrifol yn mynd yn sâl mewn car, trên, llong ac yn sicr mewn awyren. Deuai hiraeth arno am adra ble bynnag yr oeddent o gartref, 'teg edrych tuag adref' oedd hi bob tro. Ond roedd ei ddawn o adrodd storïau bythgofiadwy a throeon trwstan yn hynod o ddoniol wedi diddori neuaddau a chapeli Cymru gyfan, a phan ddaeth y cyfle i deithio dramor – 'Wel dyna sôn am hiraeth!'.

Cawsant wahoddiad i'r America, Canada, Affrica ac Awstralia, gan wneud ffrindiau lu. Bu'r hogiau yn 'Llys Genhadon' gwych i Gymru fach.

Bellach mae Arwel wedi teithio o'i bentref genedigol i Benisarwaun – ond mae Cae Eboni yn edrych tuag at 'Hen Bentref Bach Llanbêr'a'r Wyddfa a'i chriw. Fodd bynnag mae'r hiraeth hwn yn un pleserus.

Diolchwyd i Arwel am orig hynod o ddifyr a doniol gan Nan.

Edrychir ymlaen at orig yng nghwmni Meinir Gwilym ar 8fed Mawrth.

**Clwb Clychau'r Grug**
Llongyferchir Menna, Llywydd y Côr ac unawdydd, gyda'r llais hudolus, ar gyrraedd pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Dymuna'r genod gydymdeimlo'n ddwys â Delyth a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Morlais gŵr hoff i Ann. Cydymdeimlir hefyd â Nia yn ei phrofedigaeth o golli Gwenno, ei mam addfwyn. Rydym yn meddwl amdanoch.

Byddwn yn cyfarfod nesaf yn yr 'Innings' ar 2ail Fawrth am 12.15 PM

**Cyfarfod mis Mawrth**
Estynnwyd croeso cynnes i bawb yng Nghapel y Rhos, nos Fawrth, 8fed Mawrth gan ein Llywydd Nan, gan barhau i ddilyn rheolau'r Covid-19 o wisg mwgwd a chadw pellter o ddau fetr. Roedd y Sêt Fawr wedi'i gorchuddio â baneri lliwiau Wcráin gyda phawb yn ymbil am heddwch a diwedd i'r ymladd erchyll.

Canwyd Cân y Mudiad, gyda'r geiriau:
'Ni chaiff na gormes hir na'r un sarhad,
fyth ddwyn oddi arnom ni ein hiaith na'n gwlad'
yn golygu cymaint y dyddiau cythryblus hyn. Diolchir i Susan am gyfeilio.

Derbyniwyd ymddiheuriadau ac anfonwyd ein cofion at Megan a Myfanwy. Da gweld Mair yn bresennol wedi triniaeth i'w llygaid.

Derbyniwyd £50 yn ôl gan Elain Williams, gan na chafodd y cyfle i fynd i Batagonia oherwydd y pandemig. Cynigiodd Meirwen fod y gangen yn rhoi'r arian i Gronfa Wcráin, drwy law Eurgain Haf, Uwch Swyddog Elusen Achub y Plant yng Nghymru.

Mae Gŵyl y Pum Rhanbarth yn ôl. Cynhelir hi wyneb yn wyneb am y tro cyntaf ers tair blynedd ar ddydd Sadwrn, 14eg Mai yn Neuadd Bentref, Rhydymain, Dolgellau am 9.45 AM. Lle i 100 sydd yno, felly'r cyntaf i'r felin… Y tâl fydd £25 – sydd yn cynnwys coffi a chinio. Trefnwyd rhaglen lawn, gyda stondin i'n denu i wario. Fe'n diddenir gan ddisgyblion Ysgol Gerdd William Mathias, Catrin Williams, (Arlunydd), John Dilwyn Williams ac Eryrod Meirion. Enw a'r arian erbyn dydd Gwener, 15fed Ebrill fan bellaf os gwelwch yn dda – noder **ni roddir** ad-daliadau.



**Priodas**
Ar 28ain Ionawr yng Nghapel y Rhos Llanrug, priodwyd Elen Wyn Parry o Lanrug a Gethin Môn Edwards o Fryngwran. Gweinyddwyd gan y Parch. Elwyn Richards a'r organyddes oedd Lowri Prys Roberts.

Dymuna Elen a Gethin ddiolch i'w teulu a ffrindiau am ymuno â nhw yn y dathlu.

Gwraig wadd y noson oedd un o Wlad y Medrau, ac roedd hon yn medru diddanu. Cawsom orig hudolus yng nghwmni neb llai na Meinir Gwilym, cantores, cerddor, cyfansoddwraig, cyflwynwraig fedrus ar deledu a radio a garddwraig gampus ar y rhaglen 'Garddio a Mwy'. Hogan o Langristiolus gafodd ei haddysg yn Ysgol Henblas, Ysgol Uwchradd Llangefni a Phrifysgol Bangor. Gyda'i dwylo medrus ar y gitâr mwynhawyd orig soniarus o wahanol ganeuon o'r canu gwerin, cân am ei chynefin, 'Cân flin', 'Dim byd a nunlle' ac 'I'r golau'. Diolchwyd i Meinir am noson hyfryd a chyfeillgar gan Nan.

Edrychir ymlaen at y 'Noson o Hwyl' ar 12fed Ebrill. Cadwch yn saff.



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
www.fframia.com

GERAINT OWEN
CARPEDI

Cil y Mynydd
Waunfawr
Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Symudol - 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR
O BATRYMAU

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
0808 164 0123
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru

# Ysgol Gynradd Llanrug








**Llwyddiannau chwaraeon**
Daeth tîm pêl-droed yr ysgol i'r brig yn ddiweddar yng nghystadleuaeth pêl-droed cymysg Ysgolion Eryri.

Derbyniodd Dewi Williams wobr am fod yn "boy of the year" gan Menai Track And Field yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr iddo.

Llongyfarchiadau i'r dair yma ar eu llwyddiant yn y gala nofio yn ddiweddar.





**Dydd Gŵyl Dewi**
Daeth pawb yn ôl i'r ysgol wedi'r gwyliau yn eu dillad coch yn barod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cafwyd ginio Cymreig, canu anthem a chlywed chwedlau Cymraeg.



**Eisteddfod**
Eleni unwaith eto cafwyd bwrwm eisteddfodol draw yn Ysgol Brynrefail. Dyma griw a aeth o'r ysgol. Llongyfarchiadau i Ilid ac Elis a phob lwc draw yn y sir.



**Ymweliad PC Dylan**
Tro y Cyfnod Sylfaen oedd cyfarfod PC Dylan. Bu i'r plant fwynhau stori am y gwasanaethau brys ac roedd ganddynt lawer o gwestiynau iddo.



**Cyfeiriannu**
Daeth Gwydion Thomas draw i gael gweithdy cyfeiriannu @arytrywydd gyda phlant blwyddyn 5 a 6.







**Diwrnod y Llyfr**
Bu pawb yn dathlu Diwrnod y Llyfr wrth wisgo fel cymeriadau a dod a'i hoff lyfr i ddangos. Dyma rai o'r dosbarthiadau.

# Cyngor Cymuned Llanrug

## Cyfarfod 18fed Ionawr 2022

**Adroddiad y Cyng. Beca Brown, aelod Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Roedd y Pwyllgor Craffu Gofal yn edrych ar wasanaeth therapyddion galwedigaethol ac yn derbyn diweddariad am y datblygiadau yn y gwasanaeth a beth yw'r nod wrth symud ymlaen.

Cawsom gyflwyniad ar yr Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru a oedd yn ddarn o waith hynod o fanwl yn dwyn i ystyriaeth yr holl ystod o faterion sydd yn gysylltiedig â llesiant. Cefais sicrhad y bydd dyletswydd cymdeithasol ac economaidd y Cyngor yn plethu drwy'r Asesiad, gan nad ydi cefndir gymdeithasol yn nodwedd sydd wedi ei warchod o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Bu trafod mawr wrth gwrs ar effeithiau Covid-19 ar y rhai a oedd eisoes yn fregus a beth y gellir ei wneud i lareiddio peth ar yr effeithiau rheiny wrth inni ddod allan o'r pandemig, gobeithio.

Yn y Pwyllgor Iaith cawsom adroddiadau ar gynllun hybu'r Gymraeg ym meysydd yr Adran Addysg; Cefnogaeth Gorfforaethol a Thai ac Eiddo. Cawsom gyfle i roi sylwadau ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Tai a Chymunedau Cymraeg, a'r pryder yw bod yr ymgynghoriad wedi dod braidd yn rhy fuan inni fedru asesu gwir effaith y pandemig ar ein cymunedau ac felly ar yr iaith.

Cafwyd cyfarfod anffurfiol o'r Pwyllgor Craffu Gofal a chyflwyniad gan Jo Whitehead o'r Bwrdd Iechyd a chyfle i'w holi am unrhyw faterion o bryder. Llongyfarchwyd y Bwrdd Iechyd ar lwyddiant y rhaglen frechu.

Cawsom gyfle i ymuno â Craig ab Iago yn y Fforwm Tai er mwyn derbyn diweddariad a chyflwyniad ar gynllun Tŷ Gwynedd – sef creu tai braf i bobol nad ydynt yn gymwys am dŷ cymdeithasol ond sydd ddim yn gallu cystadlu ar y farchnad tai agored chwaith. Cafwyd diweddariad hefyd ar y cynllun Siop Un Stop i dai ble bydd modd gweld holl stoc tai eich ardal a gweld lle mae eich cais am dŷ arni yn y rhestr aros. Mae anogaeth hefyd i unrhyw un sydd â thŷ preifat ar werth i gysylltu â'r Cyngor rhag ofn bod diddordeb ei brynu.

Fel rhan o'm trafodaethau gyda'r Adran Amgylchedd am bryderon traffig a pharcio Llanrug ac am yr hen fater o ddiogelwch y Sgwâr, cefais gyfarfod gyda swyddog am 3.15 y prynhawn ar y Sgwâr, pan roedd yr ardal honno ar ei phrysuraf. Nodwyd yn syth bod peryg i blant wrth iddynt groesi o gyfeiriad Ysgol Brynrefail am y Spar gan fod rhaid iddynt groesi tri llif traffig mewn man ble nad oes gwelededd da. Nodwyd hefyd ei bod yn beryg i gerddwyr ddod rownd ymyl yr hen bost gan fod llwybr traffig i'r rhai sydd am deithio o Ffordd yr Orsaf i lawr am Ysgol Brynrefail, a does dim pafin na fawr o le i gerddwyr. Bwriedir cymryd camau i ddiogelu'r Sgwâr o fewn y chwe mis nesaf. Derbyniwyd bod angen peintio llinellau melyn i ddynodi'r safle bws ger siop sglodion Tegfan fel nad ydi ceir yn parcio ar draws y safle bws gan ei gwneud yn beryg i'r rhai sydd yn aros. Mae bwriad hefyd i ail-beintio llinellau'r safle bws wrth Gorlan y Rhos hefyd. Mae bwriad i gyflawni'r pethau hyn cyn diwedd mis Mawrth. O ran y trafferthion ehangach yn Ffordd yr Orsaf cawsom sgwrs am y gwahanol syniadau sydd wedi eu rhoi gerbron dros y blynyddoedd, gan gynnwys system unffordd. Y bwriad yw i fynd yn ôl at yr adroddiadau sydd eisoes wedi eu gwneud i weld pa syniadau sydd yn gymwys i ymgynghori arnynt ymhellach.

**Y Fynwent**

Adroddwyd fod aelod o'r Cyngor wedi bod yn y Fynwent yn tacluso'r llythyrau oedd wedi gwlychu ac wedi'u chwythu oddi ar y stêcs. Nodwyd hefyd nad oedd yn bosib ail-gylchu blodau plastig a byddai angen edrych ar hyn o safbwynt polisi o weithredu yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Adroddwyd fod Pwyllgor y Fynwent wedi cyfarfod ac wedi penderfynu ar nod ac amcanion y Pwyllgor ar gyfer 2022 / 2023 fel a ganlyn:-

Parhau i gario allan asesiad risg ar y Fynwent;

Parhau i ddatblygu system i ddigideiddio'r Fynwent a'r system reolaeth;

Parhau i ymgeisio yng nghystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn

Monitro gofod yn y Fynwent

Adolygu ffioedd y Fynwent ar gyfer 2022/2023 (argymhellir eu codi 5% ar gyfer 2022/2023)

Mabwysiadu polisi gwyrdd pan fo'n bosib

Rhoi hysbysfwrdd ychwanegol yn y Fynwent

Penderfynwyd cysylltu â'r Eglwys yng Nghymru i'w hysbysu na fydd y Cyngor yn parhau gyda'r cynllun o gymryd cyfrifoldeb am y Fynwent a hefyd i dynnu ei sylw at y wal sydd yn bochio ar y ffordd i'r Fynwent.

Nodwyd hefyd i roi gwahoddiad i ymgymerwyr, seiri maen lleol i gyfarfod â'r Pwyllgor i egluro am y gwaith sydd wedi ei wneud a'r cynlluniau am y dyfodol.

**Pwyllgor Bwyd a Llesiant**

Adroddwyd fod y pwysau o fwyd a dderbynnir wedi codi o 80kg yr wythnos i 120kg a'n bod mewn cytundeb gyda Fareshare am 12 mis i ddarparu'r bwyd. Mae'r Cyngor yn derbyn rhywfaint o fwyd drwy gynllun Olio (gellir cael mwy o wybodaeth am Olio drwy ymweld â'i wefan www.olioex.com.

Diolchwyd am y rhodd o £50 a dderbyniwyd gan 'griw paned'.

Oherwydd bod cytundeb mewn lle am 12 mis, bydd yn ofynnol chwilio am fwy o wirfoddolwyr i gynorthwyo.

**Pwyllgor Hamdden a Mwynderau**

Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi cyfarfod, ac ymysg y materion a drafodwyd oedd mabwysiadu nod ac amcanion y Pwyllgor ar gyfer 2022 / 2023

Nodwyd fod adborth positif wedi ei dderbyn am y goleuadau Nadolig

Edrych i mewn i'r posibilrwydd o gael arwydd 'Nadolig Llawen' a choeden Nadolig ar gyfer 2022 yn Llanrug, a mwy o oleuadau ar y polion

Cario mlaen gyda chystadleuaeth addurno tŷ ar gyfer 2022 (nodwyd fod y nifer a gystadlodd am 2021 wedi cynyddu oddi ar 2020 a bod y gystadleuaeth yn boblogaidd iawn)

Creu cystadleuaeth ar gyfer busnesau lleol ar gyfer Nadolig 2023

Parhau â'n hymgyrch i gael biniau cyffredin, biniau baw cŵn ynghyd â chreu rhaglen o ddyddiadau casglu sbwriel yn Llanrug a Chwm y Glo

Parhau i blannu Cennin Pedr

Adnewyddu giât i gae chwarae Dolafon

Gosod mainc arall i gae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo

Adnewyddu'r 'planters' ar y parc sglefrio a chae chwarae Allt Goch, Cwm y Glo

**Y Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd fod y Pwyllgor wedi cyfarfod, ac ymysg y materion a drafodwyd oedd addasu'r Gyllideb ar gyfer 2021 / 2022, paratoi Cyllideb ar gyfer 2022 / 2023 gan ystyried nod ac amcanion y pwyllgorau ar gyfer 2022 / 2023.

Er mwyn symud ymlaen gyda chyfrif Elusen 'Poor House' nodwyd fod rheolau sefydlog y Cyngor yn y Gymraeg yn unig ar hyn o bryd ac ni wnaiff 'Banc Unity Trust' eu derbyn. Bydd angen chwilio am gyfieithydd i wneud y gwaith yma.


Cymeradwywyd y Gyllideb ar gyfer 2022 / 2023 a phenderfynwyd codi praesept o £77,000 am y flwyddyn.

**Grantiau**

Penderfynwyd rhoi grant o £2,500 i'r Sefydliad Coffa ac £800 i Eco'r Wyddfa.

**Cais Cynllunio**

Penderfynwyd parhau i wrthwynebu'r cais gan CK Hutchison Networks (UK) Ltd i godi polyn telegyfathrebu 15m a chyfarpar offer ar y Pafin Ger 37 Nant Y Glyn, Llanrug ac i anfon ein sylwadau blaenorol ymlaen.

HYWEL WILLIAMS
AELOD SENEDDOL ARFON

01286 672076
8 Stryd y Castell Caernarfon
hywel.williams.mp@parliament.uk
Talwyd costau'r cyhoeddiad hwn gan Senedd San Steffan, o gronfeydd cyhoeddus

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Crynodeb o Gyfarfod 1af Chwefror 2022

**Cofnodion 11eg Ionawr 2022:**
Cafwyd y Cofnodion yn gywir.

**Materion o'r Cofnodion:**

**Gwelliannau i Lwybrau Cyhoeddus:**
Trefnwyd i gyfarfod swyddogion o'r adran yng Nghyngor Gwynedd ar Ionawr 31, gan gerdded rhai llwybrau y nodwyd bod angen gwaith arnynt.

**Map Enwogion yr ardal:**
Cafwyd amcanbris gan Gareth Roberts. Bu trafodaeth, ac roedd teimlad positif i roi ar waith gan obeithio unwaith y bydd y mapiau wedi eu cynllunio y bydd posib i'r ysgolion weithio ar hanes lleol, grwpiau lleol ac efallai bydd Gareth yn trefnu teithiau cerdded, bydd hyn i gyd yn sicr yn rhoi pwrpas da iddynt. Penderfynwyd trefnu is-bwyllgor i gyfarfod ag ef cyn y cyfarfod nesaf. Bydd Phyllis Ellis, Hefin Williams, Sasha Williams ac Emma Chappell yn ffurfio'r is-bwyllgor.

**Cysgodfan Bws Brynrefail:**
Bu i Ynyr holi ynglŷn â chysgodfan bren fel sydd yn Y Felinheli. Gobeithiwn dderbyn amcanbris er mwyn rhoi cysgodfan newydd yno.

**Gohebiaeth a Materion Eraill:**
**Biniau Halen:**
Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn datgan na fydd rhaid i ni drefnu llenwi'r biniau halen mwyach. Mae'r adran wedi cymryd y cyfrifoldeb yn ôl, ac felly cysylltu â Chyngor Gwynedd yn syth fydd angen os oes angen llenwi bin halen yn ystod y gaeaf

**Cynllunio:**
Dyma geisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:

C22/0083/18/DT - Ty'n Y Gadlas, Pentir - Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i'r eiddo.

C22/0069/18/LL Ty Cefn, Lôn Rhiwlas - Cais ar gyfer codi tŷ deulawr.

C22/0066/18/AC Bryn Difyr, Bethel - Cais i ddiwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio C19/0581/18/LL

**O Gwmpas y Bwrdd:**
Penisarwaun - Bin Halen ger Wenoldy wedi diflannu. Cais i ail osod un newydd.

Coed - gordyfiant Tan y Gaer dal heb ei dorri yn ôl.

Arwydd Penisarwaun o Racca - dal heb gael un newydd.

Rhiwlas - Angen cysylltu a holi am doriadau llwybrau Rhiwlas

Mae pryder nad oes siop mewn 3 pentref yn yr ardal, a bod gwasanaethau'r pentrefi'n dirywio.

Mae Sash wedi bod yn cydweithio ag Angharad Owen ynglŷn â chreu ardal i blannu blodau gwyllt i helpu'r amgylchedd. Mae cynllun ar dro, ac yn siarad gydag Adra i weld lle mae posib gwneud hyn mewn llecynau yn yr ardal. Bydd holiadur yn cael ei roi allan yn fuan, gan annog pawb i ymateb.

Un syniad ddaeth ynglŷn â gwella llwybrau oedd bod yna gynllun lle mae pobl ifanc yn gallu helpu gan gofrestru am wobr Dug Caeredin am eu hamser.

# Cyngor Cymuned Waunfawr

## Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr 12.01.2022

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 19.12.2021 gan y Cyng LD ac eiliwyd gan y Cyng ID.

**Materion yn codi o'r Cofnodion**

**Materion Caeathro** – Ffordd Osgoi Bontnewydd – Ar amser i gael ei hagor mis Chwefror,

Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon - Dal ar yr agenda

Eisteddfod Genedlaethol - Angen cychwyn trafod ar ffyrdd o godi arian tuag at yr Eisteddfod

Drych - aros ymateb Cyngor Gwynedd

Peblig - Clerc wedi holi adran Cynllunio Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r adeilad sy'n cael ei ddymchwel - aros ymateb.

**Materion Waunfawr** – Llinellau Gwyn -.Ar raglen waith Cyngor Gwynedd.

Ffordd Cefn Du - tyllau yn cael eu cau.

Cae Aml-dywydd - Mewn trafodaethau gyda Chyngor Gwynedd.

Golau fflachio bob ochr i'r pentref - Edrych ar opsiynau ar hyn o bryd.

Cyflymder traffic drwy'r pentref– Cerbyd monitro cyflymder traffic yn y pentref yn rheolaidd wedi parcio mewn gwahanol safleoedd.

Eisteddfod Genedlaethol - Angen cychwyn trafod ffyrdd o godi arian tuag at yr Eisteddfod, targed o £2,000 i'r Gymuned.

Coeden Nadolig - Diolch i Snowdonia Fire Protection am eu cymorth eleni yn goleuo'r goeden i ni, a diolch i Rich am roi y goeden i fyny a'i thynnu lawr cyn Ionawr 6ed.

**Gerddi Bach** - y tai yn mynd i fyny yn dda. Gwaith o osod siglen a ffensio mwy ar y parc chwarae i gael eu cyflawni yn fuan.

**Llochesi Bws** - wedi derbyn cais i gael lloches bws ar gyfer plant sy'n mynychu Ysgol Brynrefail, - angen ymholi ymhellach gyda Chyngor Gwynedd.

**Llwybrau** - gwaith i gael ei wneud ar Barc Dudley yn fuan.

**Dyddiad cyfarfod nesaf** - 23.02.2022.






# Cyngor Cymuned Llanberis

## Cofnodion Cyfarfod 9fed Chwefror 2022

**1. Presennol ac Ymddiheuriadau:**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Gwilym Evans, Iwan Harding, Bethan Holding, Olwen Gwilym, Cyng. Kevin Morris Jones, Kim Jones, Claudia O'Donnell, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard.
***Ymddiheuriadau:*** Heather L Jones.
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**2. Datgan Buddiant:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**3. Cadarnhau Cofnodion:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher, 12fed Ionawr, 2022 fel rhai cywir.

**4. Materion yn codi o'r Cofnodion:**
***1. Cyflwr fflat ym Maes Padarn:***
Dim pellach i'w adrodd, ond bod cwmni Adra i fod yno cyn diwedd yr wythnos i ddechrau ar y gwaith. Addawodd HS roi gwybod i'r Clerc os byddai'r cwmni'n 'torri ei gyhoeddiad'.
***2. Cyngor Gwynedd (CG) - Llifogydd A4086:***
Cafwyd ar ddeall fod gwirfoddolwr (EB) wedi bod yn ceisio datrys helynt y gwter ger Ynys-wen. Adroddwyd fod gweithwyr eraill wedi eu gweld yno hefyd. Gan i'r tywydd fod yn sych yn ddiweddar doedd dim modd gwybod i sicrwydd a gafodd y broblem ei datrys.
***3. Cae Pel-droed UEFA:***
Cafwyd dyddiad ar gyfer y gwaith o roi wyneb newydd ar y cae: yr wythnos yn dechrau yr 21ain o Chwefror. Mae disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau o fewn yr wythnos.
***4. Cysgodfan Bws:***
Dim dyddiad eto ar gyfer derbyn y gysgodfan newydd.
***5. Arolwg Ail-gartrefi a Llety hunan-ddarpar (Air B&B):***
Roedd llawer o'r gwaith wedi ei gwblhau a'i drosglwyddo i'r Cadeirydd.
***6. Cysgodfannau Bws:***
Yn dilyn ymholiad ynglŷn â'r cysgodfannau yn Nôl y Goeden dywedodd y Clerc iddo, o edrych yn ôl ar gofnodion y Cyngor, gael cadarnhad o'r hyn a ddywedodd yn y cyfarfod diwethaf, sef mai Cyngor Gwynedd (CG) oedd perchennog y ddau adeilad cerrig, ac nid y Cyngor hwn, beth bynnag yr oedd rhai o staff CG wedi ei ddweud wrth HLJ. Mae llythyr hefyd o CG yn cadarnhau hynny. [Cofnodion 2019/01 6.1 a 2019/02 5.4 a Llythyr CG/DWW-08.02.2019].
***7. Llwybrau:***
Hyd yma chafwyd dim ymateb oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)
***8. National Grid***
Y gwaith ar y Ffordd Osgoi wedi ei ymestyn hyd y 25ain o Chwefror.

**5. Gohebiaeth:**
***1. APCE - Maes Parcio Nantperis:***
Daeth ateb i law am y problemau yn y maes parcio.

a) Cafwyd addewid y bydd gweithwyr yn ystod y gaeaf yn clirio'r ffosydd i atal y llifogydd fel a fu yno yn ddiweddar.

b) Adroddwyd fod oriau agor y toiledau wedi newid ac nad oedd y toiledau'n cael eu hagor am gyfnod yn ystod y gaeaf ac eithrio gwyliau'r Nadolig a'r Calan. O dan y drefn bresennol maent ar gau o ddiwedd Tachwedd hyd ddiwedd Mawrth oni bai fod gwyliau'r Pasg cyn diwedd Mawrth.

c) Yn achos diffygion y peiriant talu, dywedwyd ei fod wedi ei drwsio ar fwy nag un achlysur, ac erbyn hyn mae peiriant newydd wedi ei archebu ar gyfer y tymor nesaf.

ch) Y bedwaredd broblem oedd y biniau. Dywedwyd fod yr Awdurdod angen lleoliad i finiau, ond roedd yn cydnabod efallai nad dyma'r lle gorau gan fod biniau, er wedi eu cloi, yn denu sbwriel, roedd hefyd yn derbyn eu bod yn gadael argraff wael. Derbyniwyd y llythyr a bydd cynghorwyr Nantperis yn cadw golwg ar y maes parcio

***2. Cwmni Yswiriant Zurich:***
Llythyr yn cydnabod y bydd y cwmni'n talu am y gysgodfan a ddinistriwyd o flaen Dôlafon, ac am godi'r un newydd, llai £100.

***3. CG - Adroddiad Bro Peris:***
Cyhoeddwyd canlyniad yr arolwg a wnaed gan y Cyngor mewn perthynas ag ***Ardal Ni 2035 - Bro Peris***. Ymhlith y materion a oedd o bwys ac yn dda am yr ardal roedd yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, ac yn ail a thrydydd 'agosatrwydd at atyniadau naturiol, e.e. mynyddoedd, glan y môr a chefn gwlad' ac 'ysbryd a chyfeillgarwch cymunedol'.

Ymhlith y nodweddion nad oedd mor dda yn yr ardal roedd 'problemau'n ymwneud â pharcio', 'trafnidiaeth gyhoeddus a rhwydwaith bws annigonol', ac yn gydradd drydydd 'sbwriel ac edrychiad cyffredinol yr ardal' a 'nifer o ail dai a thai haf yn yr ardal'. Mater arall a gafodd sylw oedd, 'Pa newidiadau y byddech am eu gweld yn y pymtheg mlynedd nesaf'. Ar y brig roedd 'cynllun i sicrhau tai addas i anghenion pobl leol', gyda 'cefnogi busnesau i sefydlu a ffynnu yn lleol' yn dod yn gydradd ail ynghyd â 'cynllun twristiaeth gynaliadwy glir yn ei le er mwyn gwell rheolaeth ar dwristiaeth ac uchafu (!) potensial economaidd'. Roedd hwn yn ymgynghoriad pur eang ar draws yr ardal, ac NID yn benodol i blwyf Llanberis a'r ddau bentref, Llanberis a Nantperis yn unig. Addawodd y Clerc ddosbarthu copi electroneg o'r crynodeb a dderbyniodd.

***4. Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023:***
Llythyr ar ran swyddogion yn holi am gefnogaeth i'r Eisteddfod a symudwyd o 2021 i 2023 oherwydd y pandemig. Adroddodd y Clerc i'r Cyngor roi £2,000 tuag at yr Eisteddfod yn ôl yn Ionawr 2020. Os bydd newid yn nhrefniadau apêl yr ardaloedd yn sgil chwyddiant, yna byddai'n briodol ystyriedd eu cais bryd hynny. Roedd y Clerc wedi anfon gair at y Trefnydd a oedd wedi mynegi diolchgarwch yr Eisteddfod.

***5. CG - Biniau Halen:***
Llythyr yn nodi newid ym mholisi Cyngor Gwynedd. O hyn ymlaen CG fydd yn llenwi'r biniau halen ac yn talu amdano.

Croesawyd y newydd gan yr aelodau.

***6. BroWyddfa 360:***
Daw cynllun y newyddion lleol ar wefan BroWyddfa360 i ben ddiwedd Mawrth. Llythyr oddi wrth gydlynydd Bro360, sy'n weithredol mewn ardaloedd Cymreig eraill, i ofyn am gymorth i barhau â'r gwaith. Gan nad ydi'r llythyr yn benodol yn gofyn am arian, efallai y byddai'n werth cysylltu i holi sut fath o gymorth, neu faint o arian y maen nhw'n chwilio amdano. Hefyd maen nhw'n awyddus i weithio efo'r Cyngor ac yn ei wahodd i gyfrannu straeon am ddatblygiadau, llwyddiannau neu gyfarfodydd o'r ardal.

**6. Cynllunio:**
**C22/0047/15/DT -** 2 Stryd Tomos, Llanberis - *Cais ar gyfer codi to un-codiad canopi yn erbyn blaen yr eiddo* . Gan nad oedd y dyluniad yn eglur iawn bu peth trafod, ond penderfynwyd os oedd yn gweddu i weddill y stryd nad oedd gwrthwynebiad.

Hefyd trafodwyd cais **C22/0049/18LL** - ar lan Llyn Padarn, Gilfach Ddu, Llanberis - *Gosod pontŵn arnofiol, pont, sedd concrid ynghyd â llwybr cerdded* .

Cais yw hwn ym mhlwyf Llanddeiniolen, roedd rhai yn teimlo y dylai adran gynllunio CG fod wedi cysylltu â ni gan fod unrhyw beth yn y Gilfach Ddu'n fwy tebygol o effeithio ar Lanberis yn fwy na'r un o bentrefi plwyf Llanddeiniolen. Cafwyd ar ddeall fod y safle yma wedi ei ffafrio gan Reolwr Adnoddau Hamdden, Adran Economi a Chymuned CG er mwyn lleihau pwysau ymwelwyr ar ardal Y Glyn a'r pyllau a'r pontwn sydd yn y fan honno. Yn hynny o beth roedd i'w groesawu ym marn yr aelodau.

**7. Mângymorthdaliadau:**
Derbyniwyd sawl cais am gymorth ac fe benderfynwyd y gellid cynnig cymorth iddynt i gyd er bod arian yn brin oherwydd y gwario sylweddol ar y Cae Chwarae ger y llyn.

Penderfynwyd rhoi fel a ganlyn:

Merched y Wawr, Llanberis a Nant – £300; Côr Dyffryn Peris –£300; Cronfa RH Owen – £200;

Eco'r Wyddfa – £400; Geidiaid, Brownies a Rainbows Llanberis – £300; Grŵp Datblygu Llanberis – £200

• **Mynegi Diddordeb:** Merched y Wawr: HS, IO; Côr Dyffryn Peris: BH, GE, TT; Grŵp Datblygu: BH.

**8. Y Fynwent:**
Mewn ymgynghoriad â'r Clerc trefnodd IO i gael gwared â thyrchod daear a oedd wedi bod yn bla yn ddiweddar.



# Penodi swyddog i arwain gwaith hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngwynedd


Iwan Hywel

Yn dilyn penderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd i fuddsoddi £203,880 i ddatblygu gwaith menter iaith y sir, mae Pen Swyddog newydd wedi ei benodi ar gyfer Hunaniaith.

Wedi blynyddoedd o weithio yn y maes cynllunio iaith, bydd Iwan Hywel yn cychwyn ar y gwaith fel Pen Swyddog Hunaniaith ym mis Mai. Ar hyn o bryd, mae'n Arweinydd Tîm Mentrau Iaith Cymru.

Meddai: "Mae hon yn swydd heriol ond cyffrous tu hwnt, mae gennym gyfle i sefydlu Hunaniaith fel menter iaith annibynnol fydd yn creu incwm fydd yn mynd nôl i hybu'r iaith Gymraeg yng Ngwynedd.

"Y pethau pwysicaf fydd cydweithio, efo mudiadau cymunedol eraill, a gwrando, pobl sy'n bwysig.

"Drwy wrando ar lais pobl Gwynedd a'u cynnwys ymhob cam o'r ffordd  gallwn sicrhau y bydd y fenter iaith yn gweithio er budd yr iaith a thrigolion ein sir, dwi'n edrych ymlaen yn ofnadwy i ddechrau ar y gwaith."

Wrth groesawu Iwan Hywel ar ei benodiad, dywedodd y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg:

"Mae gan Gyngor Gwynedd hanes hir o hybu a gwarchod yr iaith. Rydan ni yn awyddus i weld Hunaniaith yn fenter iaith gref, a fydd yn y pendraw yn gweithredu yn annibynnol o'r Cyngor, gan arwain y gwaith o sicrhau dyfodol llewyrchus i'r Gymraeg mewn cymunedau ar hyd a lled ein sir.

"Er mwyn cefnogi'r ymdrechion yma, mae Cabinet y Cyngor wedi ymrwymo i fuddsoddi dros £200,000 yn ychwanegol i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yma yng Ngwynedd. Bydd hyn yn golygu cryfhau presenoldeb ymarferol staff Hunaniaith ar lawr gwlad yng nghymunedau Gwynedd.

"Rydw i'n falch iawn o groesawu Iwan i'r swydd newydd fel Pen Swyddog Hunaniaith gan arwain ar y gwaith allweddol yma.

"Wedi gweithio i Fentrau Iaith Cymru ers blynyddoedd, mae'n dod â phrofiad a brwdfrydedd dros y Gymraeg ac rwy'n edrych ymlaen at ei weld yn dechrau ar y swydd ym mis Mai."

Ychwanegodd Dafydd Iwan, Cadeirydd Grŵp Strategol Hunaniaith:

"Mae Hunaniaith yn ffodus iawn o gael un mor brofiadol ym maes y Mentrau Iaith i arwain y cyfnod newydd hwn yn ei hanes. Edrychaf ymlaen yn fawr i weld Iwan yn gafael yn yr awenau."

# Prosiect Natur Llanddeiniolen

Mae Prosiect Natur Llanddeiniolen yn cael ei arwain gan Angharad Owen sydd yn ferch o Rhiwlas ac yn gobeithio datblygu llecynnau gwyrdd ar draws plwyf Llanddeiniolen.  Gobaith y prosiect yw i gael llecynnau cymdeithasol ar draws y plwyf i bawb fwynhau plannu, tyfu a chymdeithasu. Mae gan Brosiect Natur Llanddeniolen dudalen Facebook i ddilyn datblygiad y prosiect.

Y bwriad ydi i ddechrau datblygu llecynnau gwyrdd yn ein pentrefi ar draws y plwyf, i greu cynefin ar gyfer natur, tyfu bwyd ffres a gwella ein iechyd a llesiant drwy ddyfnhau ein cysylltiadau efo'n gilydd a'n hamgylchedd.  Bydd y grŵp yn cefnogi ac adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud gan ysgolion, mentrau a grwpiau cymunedol lleol i wella ein bro, yn gweithio mewn partneriaeth efo eraill i gael adnoddau ac yn gweld beth sy'n bosib os gydweithiwn ar weledigaeth gyffredin. Mae'r grŵp yn gobeithio creu rhwydwaith er mwyn rhannu offer, sgiliau ac ysbrydoliaeth, gwerthfawrogi'r hyn sydd




ganddom a chreu'r dyfodol a ddymunwn – ac wrth gwrs dathlu. Gobeithio bydd pawb yn gallu teimlo'n rhan o'r prosiect.


Mae'r grŵp wedi cydweithio gydag Adra i adnabod o leiaf tri llecyn pwrpasol ar gyfer y prosiect ym Methel.  Mae holiadur am y prosiect ar agor ar hyn o bryd er mwyn i bawb gael lleisio eu barn a rhannu syniadau. Ein prosiect ni ydi Prosiect Natur Llanddeiniolen ac felly'n holl bwysig fod pawb yn cymryd y cyfle i leisio eu barn a syniadau.  Mae'n bosib dilyn 'linc' i'r holiadur ar dudalen Facebook Prosiect Natur Llanddeiniolen neu gallwch gysylltu gyda Sasha Williams 07810174160 os nad oes gennych fynediad i Facebook.

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA
☎ 01286 672898



# CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD MENTER FACHWEN




Prin roedd Gareth Roberts o Gallt y Foel (ond o Lanrug yn wreiddiol) wedi gorffen dathlu ei ben-blwydd yn 40 oed cyn iddo gael ei daro'n wael wrth gerdded y bryniau uwchben Llanberis yn 2003. I dorri stori hir yn fyr, cafodd drawiad ar ei galon a glanio yn y Manchester Royal Infirmary cyn derbyn y newyddion mai heb driniaeth, tua chwech wythnos i ychydig o fisoedd o fywyd fyddai ganddo ar ôl.

Byd hollol wahanol iddo; roedd wedi graddio mewn Ffilm a Ffotograffiaeth o Falmouth School of Art ym 1984 cyn treulio ei yrfa mewn gwahanol feysydd yn y byd celf a'i ddewis fel un o'r 'British Young Contemporaries' mewn arddangosfa yn Sydney, Awstralia yn 1985.

Yn dilyn sgiliau anhygoel y tîm meddygol ym Manceinion (a *quadruple bypass* i'r galon), cafodd Gareth egni ac ysbrydoliaeth newydd yn ei fywyd. Dros y blynyddoedd roedd wedi arddangos ei waith led-led y wlad, wastad ar bynciau 'hanesyddol'. Cyfres o luniau yn dilyn y ffin rhwng Cymru a Lloegr a'r hanesion ar ei hyd (yn lle dilyn llwybr Clawdd Offa) oedd testun yr arddangosfa yn Awstralia. Hefyd, bu'n arddangos ei waith yn olrhain hanesion y 'ceffylau gwyn' sydd wedi eu cerfio ar Fryniau Wiltshire ac Oxfordshire yn arbennig (fel yr 'White Horse of Uffington').

Wedi ei lawdriniaeth yn 2003, penderfynodd Gareth ganolbwyntio ar ei waith ei hun a gwaith llawrydd gyda'i gamera. Un uchafbwynt oedd cyhoeddi ei gyfrol 'Y Sêr yn eu Tynerwch' gyda Myrddin ap Dafydd yn 2011. Casgliad o luniau nos Gareth oedd y llyfr, wedi eu tynnu trwy ddefnyddio dim byd mwy na golau'r lleuad – ac ar ffilm, nid yn ddigidol.

Yna yn 2008 gofynodd Cyngor Llanddeiniolen i Gareth greu map o hanes ac archaeoleg y plwyf. Newidiodd hynny bopeth. Aeth Gareth ati i greu map oedd yn adrodd yr annisgwyl – hanesion cudd sydd o fewn golwg, a sbarduno'r gynulleidfa i fynd i gerdded a darganfod yr ardal. Neu mewn geiriau eraill 'cerdded er lles iechyd a llesiant'. Yn ddiarwybod iddo – roedd wedi creu 'gyrfa' iddo'i hun.

Yn fuan wedi argraffu map plwyf Llanddeiniolen, daeth Menter Fachwen at Gareth a gofyn iddo greu un iddyn nhw hefyd: cylchdeithiau Llyn Padarn y tro hwn. Dyna oedd cychwyn y bartneriaeth waith rhwng Gareth a Menter Fachwen.

Yn 2013, wedi iddynt derbyn grant gan Menter Môn gofynnodd Menter Fachwen i Gareth ymuno â nhw yn llawn amser i ffurfio 'Y Cynllun Cerdded a Darganfod'. O'r eiliad yna ymlaen, magodd y cynllun ei fywyd ei hun.

Naw mlynedd yn ddiweddarach, mae'r cynllun wedi cyhoeddi dros ddwsin o fapiau plwyfi o ardal yr Eco hyd at Benrhyn Llŷn. Mae nifer eraill ar-lein, yn cynnwys 30 o fapiau yn olrhain y Llwybr Llechi. Mae Gareth wastad yn awyddus i roi cyfle i, a chydweithio gyda sawl un ag anableddau dysgu i'w helpu gyda'r broses o greu y mapiau – yn arbennig i dynnu lluniau. Nod y mapiau yw adrodd hanesion lleol a chreu lluniau yn ail-greu tirweddau ac adeiladau coll, i ddangos i bobol beth oedd yn arfer bod yno. Mae hyn yn helpu i ddod â'r hanes yn fyw.

**Sgyrsiau ac Arddangosfeydd**

Ond wrth gwrs, mae wastad llawer mwy o wybodaeth a hanesion yn cael eu casglu nag sydd o le iddynt yn y cyhoeddiadau. Dyma pam bydd Gareth yn cynnal sgyrsiau cyhoeddus neu i gymdeithasau led-led gogledd Cymru. Bydd hefyd yn rhoi sgyrsiau i ysgolion cynradd ac uwchradd.

Trwy gyd-weithio gyda Hywel Roberts o Winona, Minnesota (o Arthog yn wreiddiol), mae Gareth wedi bod drosodd i'r 'Mid-West' yn America ddwywaith yn rhoi cyfres o sgyrsiau am ein treftadaeth a'n hanes. Cyfarwyddwr 'Wild Wales Walkabouts' yw Hywel Roberts (dim perthynas) sydd yn ail-gysylltu Americanwyr gyda 'hen wlad' eu hynafiaid. Bob blwyddyn bydd Hywel yn dod a chriw i ardal yr Eco, a bydd Gareth yn eu tywys ar deithiau cerdded yma ac acw.

Bydd y Cynllun hefyd yn creu arddangosfeydd i gyd-fynd â'r mapiau. Comisiynau yw'r arddangosfeydd fel arfer a dros y blynyddoedd maent wedi cynnwys amrywiaeth o bynciau a themâu fel 'Caeau Pêl-Droed Coll', 'Tafarndai Coll', hanesion pentrefi a chyfres llwyddiannus iawn gyda Phrifysgol Bangor yn adrodd hanesion yr Iddewon yng ngogledd Cymru, yn cynnwys yr un presennol yn yr Amgueddfa yn Llandudno.

Yn dilyn comisiynau gan 'LleCHi', mae gan y Cynllun ddwy arddangosfa barhaol ar hyn o bryd – un yn adrodd hanes Deiniolen a Chlwt y Bont yn EBs, Deiniolen a'r llall am waith Isaac Hughes, y ffotograffydd cyntaf i fyw a gweithio yn Llanberis (sydd i'w weld yn yr eglwys yno). Rhagor am hyn yn y rhifyn nesaf.

**Teithiau Cerdded**

Y teithiau cerdded sydd wedi denu y rhan fwyaf o bobl ers 2013. Eisoes mae Menter Fachwen wedi tywys dros 270 ohonynt a denu dros 17,000 i'r teithiau a'r sgyrsiau. Cyfle i ddangos hanesion coll yw'r teithiau cerdded. Yn aml iawn rydym yn gyrru neu'n cerdded heibio pethau na wyddwn eu bod yno. Dro ar ôl tro mae cerddwyr wedi dweud eu bod wedi byw yn rhywle eu holl fywydau ac yn gwybod dim am beth oedd yn arfer bod yn y cae nesaf iddynt! Mae nod y gwaith a'r teithiau yn syml – cael pobl i ymddiddori yn eu hamgylchedd a'u sbarduno i fynd i 'gerdded a darganfod er lles eu hiechyd'.

**Y Dyfodol**

Gobaith Gareth yw y daw diwrnod lle gall Menter Fachwen drefnu 'canolfan' i'r Cynllun. Dros y blynyddoedd mae'r cynllun wedi casglu cannoedd o lyfrau hanes lleol, ac archif enfawr o hen luniau a gwrthrychau (rhoddion yn bennaf) ac mae Gareth yn awyddus i'w rhannu gyda'r




Arddangosfa Cwm y Glo




Mankato

Map Llanddeiniolen




cyhoedd. Byddai hefyd yn gartref i'r arddangosfeydd am hanesion y fro a phethau a llefydd i'w darganfod. I gasglu llawer o'r deunydd, bydd Gareth yn cyfweld â nifer fawr o drigolion y fro ac yn ddiolchgar am help cyson sawl un.


Ond am y dyfodol agos, bydd y flwyddyn hon yn un brysur eto i'r cynllun. Mae Gareth yn gweithio ar nifer o fapiau newydd yn lleol (gyda phynciau yn amrywio o fapio'r Ail Ryfel Byd, hanes yr Iddewon ar Ynys Môn a chwpl o fapiau plwyfi newydd) yn ogystal ac arddangosfeydd i gyd-fynd â nhw. Hefyd mae ei waith gyda Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yn parhau.

Y tro nesaf cawn olwg fanylach ar yr arddangosfeydd presennol gan Gynllun Cerdded a Darganfod Menter Fachwen.

I gysylltu â Gareth, ysgrifennwch ato yn:
Menter Fachwen, Tŷ Llundain, Cwm y Glo, Caernarfon LL55 4DT
Neu trwy ei e-bostio ar:
garethroberts754@yahoo.co.uk




Mapiau



Llwybr llechi



Ysgol Brynrefail



Taith Gerdded 250

# CHWILAIR DATHLU 500fed RHIFYN YR ECO

| | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | R | B | E | N | A | R | A | Ll | I | R | L | E | I | N |
| S | E | I | O | N | N | A | N | T | P | E | R | I | S | M |
| W | Ff | C | D | Dd | N | E | L | O | I | N | I | E | D | LL |
| A | T | O | L | I | W | Ch | F | S | I | L | G | L | P | D |
| Dd | A | N | P | Y | I | A | W | B | U | L | Ff | U | C | E |
| O | B | Ll | E | E | N | F | Th | A | A | R | O | A | F | N |
| W | S | A | N | R | I | D | B | C | R | F | E | G | H | U |
| D | Y | N | I | Th | L | U | H | E | Y | A | S | U | S | M |
| I | F | B | S | Y | L | N | C | W | Th | D | E | F | T | Y |
| N | N | E | A | G | F | U | D | R | Y | E | M | O | Ll | C |
| O | E | R | R | L | U | F | O | T | Ll | A | L | Dd | N | R |
| R | N | I | W | A | U | N | F | A | W | R | Ff | G | W | O |
| W | I | S | A | U | C | U | Y | O | I | Dd | R | A | G | Ng |
| I | L | G | U | R | N | A | Ll | E | I | S | P | M | Th | Y |
| G | E | H | N | E | Ll | R | A | Dd | L | E | N | R | O | C |

**AR BEN ARALL I'R LEIN**
**BETHEL**
**CAEATHRO**
**CHWARAEON**
**CHWILOTA**
**CORNEL DDARLLEN**
**CYNGOR CYMUNED**
**DEINIOLEN**
**DINORWIG**
**ELIN ENFYS**
**ERTHYGLAU**
**GARDDIO**
**LLANBERIS**
**LLANRUG**
**LLYTHYRAU**
**NANT PERIS**
**PENISARWAUN**
**SEION**
**UN FUNUD FACH**
**WAUNFAWR**
**YN YSTOD Y MIS AETH HEIBIO**
**YSGOLION**

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

Pa eitem sy'n ymddangos yn Yr Eco'n rheolaidd sydd heb ei gynnwys yn y chwilair?

Mi gewch chi'r ateb yn rhifyn nesaf Yr Eco - mwynhewch!

## ATEBION
## CHWILAIR DYDD GŴYL DEWI

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ll | H | N | A | P | A | U | L | I | N | U | S |
| W | A | O | Ll | E | R | P | Ng | D | Dd | E | Y |
| Ff | N | N | I | Ch | C | E | R | E | D | I | G |
| L | C | I | Dd | N | Y | R | B | L | Rh | N | O |
| N | E | C | H | E | P | E | Ph | T | S | U | R |
| A | S | O | P | U | W | R | D | E | A | F | Y |
| W | I | L | D | E | W | I | S | A | N | T | M |
| Dd | G | O | A | H | P | N | B | U | T | W | D |
| S | W | M | Th | L | U | D | T | R | N | E | A |
| A | Ch | E | L | E | R | O | Ff | Dd | E | M | I |
| N | A | N | U | T | S | D | B | E | T | F | Th |
| T | Y | Dd | E | W | I | G | W | Y | R | Th | I |

**BRYN**
**CEREDIG**
**COLOMEN**
**DATHLU**
**DEWI SANT**
**GORYMDAITH**
**GWYRTH**
**HANCES**
**LLANDDEWIBREFI**
**NAWDDSANT**
**NON**
**PAULINUS**
**PERERINDOD**
**SANT**
**TY DDEWI**

# Garddio

## EBRILL

Mae'r gwanwyn bellach i'w weld o'n cwmpas ym mhob man ac mae'n amser i dorchi llewys yn yr ardd, er bod y gwynt yn dal i fod yn fain ac yn gryf ar brydiau.

Ym mis Ebrill mi fydd y coed *malus* a *prunus* yn llawn blodau gwyn a phinc ac yn llonni fy nghalon, cyn iddynt ollwng eu petalau hyd bob man a gwneud llanast! Beth am blannu naill ai *Prunus* 'Ukon' sydd efo blodau hufen a dail lliw copr hyfryd, neu *Prunus* 'Shirofugen' sydd efo dail ifanc lliw efydd, a blodau sy'n agor yn wyn ond yn raddol droi'n binc golau. Ond mae'r coed drain gwynion a'r coed drain duon yn harddu'r cloddiau yn y fro, yn rhad ac am ddim ac yn fy marn i yr un mor hardd, a gwell fyth yn arwyddion pellach bod y gwanwyn a'r haf ar y ffordd. O'r diwedd bydd modd plannu'r rhan fwyaf o'r hadau. Mi ydw i wedi bod yn trio fy ngorau i ddal arni cyn plannu: rwyf ar dân am gael dechrau ond yn gwybod yn iawn y gall y tywydd barhau i fod yn oer a gwyntog yma ar lethrau Moel Rhiwen. Mi ydw i wedi mentro plannu rhai hadau yn y '*propogator*' yn y tŷ ac wedi dilyn cyngor welis i mewn papur newydd, sef dod â'r sach o gompost di-fawn i mewn i'r ystafell *utility* er mwyn cynhesu'r pridd cyn mynd ati i hau. Gobeithio roith hynny gychwyn da i'r hadau eleni. Wedi'r cyfan, buan y bydd yr hadau, a blannwyd eisoes, yn y tŷ neu o dan wydr yn tyfu ymlaen yn llwyddiannus a bydd silffoedd ffenest y tŷ'n llawn planhigion bach egwan am gyfnod. Mae hefyd yn amser i blannu y tu allan – ond gwyliwch rhag barrug a rhew dros nos. Rhaid cyfaddef y byddaf yn rhoi'r rhan fwyaf yn y tŷ gwydr am sbel, cyn mentro eu rhoi allan; yn sicr, fyddan nhw i mewn dros nos am gyfnod. Dysgu trwy brofiad!



Dyma'r amser i ddechrau rhoi sylw i'r lawnt hefyd. Mae hi wedi bod yn wlyb ac yn oer ac fe allai ychydig o fwyd wneud lles iddi ynghyd â'i hawyru drwy balu fforc drwyddi fesul troedfedd. Ond cadwch oddi ar y lawnt gymaint ag y gallwch os ydy'n parhau'n wlyb.

**TASGAU**

1. Meistrolwch y chwyn drwy eu cadw dan reolaeth. Ceisiwch eu chwalu nhw'n gynnar cyn iddyn nhw gael gafael.
2. Gwyliwch rhag i flodau'r coed a'r llwyni ffrwythau gael barrug.
3. Clymwch y rhosod sy'n dringo, barf yr hen ŵr (*clematis)* a blodau'r dioddefaint (*passion flowers)* ac unrhyw blanhigion lluosflwydd tal.
4. Rhowch fwyd i'r rhosod a llwyni eraill a rhowch y cloron (*tubers*) dahlia mewn potiau mwy pan maent wedi egino.
5. Mae'n amser hau blodau blwyddol a hadau perlysiau. Plannwch eich pys pêr gan gofio eu clymu i bolion/rhwyd i'w helpu i ddringo.
6. Gallwch roi ychydig mwy o ddŵr a gwrtaith pwrpasol i blanhigion tŷ. Gallwch symud planhigion deiliog megis y lili heddwch (*peace lily*) a phalmwydd y parlwr i botiau mwy os ydy'r gwreiddiau'n rhy fawr i'w potiau presennol. Mae'n debyg y byddaf fi'n rhoi'r goeden orennau allan ar y patio, yng nghysgod y gwydr, os yw'n ddigon cynnes, ond yn dod â hi i mewn yn ôl fel bo'r angen. Llwyddais i gael un oren y llynedd, ond yn anffodus mi gafodd yr adar y ffrwyth cyn i mi gael ei fwyta!
7. Gallwch hau lawnt newydd neu drwsio mannau moel neu hau hadau dros fannau mawr moel. Mae'n syniad da hefyd ceisio lleihau'r mwsog yn eich lawnt. Does dim diben ei gribinio – mi wneith o jest tyfu nôl; bydd rhaid i chi daenu lladdwr mwsog arno yn y lle cyntaf ac wedyn ei gribinio allan. Mi fydd cribinio hefyd yn dod â'r chwyn i'r golwg ac yn ei gwneud hi'n haws i chi eu gwaredu.
8. Gallwch roi pryd o fwyd i'r rhosod ddechrau mis Ebrill ac eto wedyn ddechrau mis Mehefin.

Dyma'r amser prysuraf o safbwynt plannu. Plannwch eich prif gnwd o datws. Cofiwch roi digon o dail iddynt a throedfedd dda rhyngddyn nhw. Os daw rhew hwyr ar ôl iddyn nhw ddeilio, chwistrellwch nhw efo dŵr cynnes yn gynnar yn y bore a fyddan nhw ddim gwaeth. Os nad oes ganddoch chi ardd fawr gallwch blannu tatws mewn bagiau pwrpasol neu gynhwysydd nobl (dim llai na 40cm o led). Rhowch 4cm o gompost yn y gwaelod a gosodwch dair taten ar y compost gyda'r egin at i fyny. Gorchuddiwch y tatws efo 10cm arall o gompost a'i ddyfrio'n dda. Daliwch ati i briddo nes bydd y cynhwysydd yn llawn a'i ddyfrio fel bo'r angen.





Gallwch hau persli hefyd; mae rhai yn tywallt dŵr cynnes iawn (yn syth o'r tecell ar ôl iddo ferwi) ar yr hadau gan nad ydynt yn egino'n hawdd. Un coel gwrach yw bod yn rhaid iddynt fynd saith gwaith at y diafol ac yn ôl cyn iddynt egino! Os ydyn nhw'n penderfynu aros efo'r diafol gallwch blannu planhigyn wedi ei brynu o'r ganolfan arddio leol (dydyn nhw ddim yn ddrud) a mwy na thebyg mi wneith hadu ei hun dros y gaeaf os wnewch chi adael llonydd iddo.

Gallwch hefyd hau pys, moron a sawl llysieuyn arall. Yn y tŷ gwydr, mae'n amser hau tomatos a'r blodau blwyddol.

Mae modd tyfu moron o bob lliw bellach, ac maent yr un mor hawdd i'w tyfu â'r rhai oren arferol, ac yn ôl pob sôn yn llawn rhinweddau llesol. Mi fyddaf yn plannu rhai i osgoi'r pry moron, mewn hen focsys ail gylchu (neu debyg) unwaith eto eleni. Y syniad yw bod y pry'n hedfan heibio heb weld y moron. Yr unig beth alla'i ddeud ydy mae o'n gweithio i mi …

Yn yr amseroedd cythryblus hyn mae angen edrych ymlaen at y dyfodol, mwynhau ein gerddi a gwerthfawrogi pa mor lwcus ydan ni yn y rhan yma o'r byd. Rwyf wedi cyfieithu dyfyniad welais mewn cylchgrawn, gan dyfwr blodau proffesiynol: "Mae hau hadau'n ddatganiad o ffydd yn y dyfodol". Ac mae bod yn yr awyr agored yn yr ardd yn falm i'r enaid.

***Rhosyn Mynydd***

# Ar ben arall i'r lein

Dyna ni yn de, 3ydd Mawrth wedi mynd heibio a heb fod yn agos i'r afon. Do, mi wnes hel y gêr at ei gilydd er mwyn cael mynd allan ar y diwrnod agoriadol, ond yn anffodus nid fel yna y bu pethau gan fod rhyw faterion o'r byd gweinyddol wedi codi unwaith eto, ac felly aros adref fu rhaid o flaen y melltith mawr 'na, sef y cyfrifiadur. Un o'r materion gododd oedd bod cyfarfod o gyfarwyddwyr y Gymdeithas wedi ei drefnu y noson honno, a dyma'r cyfarfod cyntaf ers dros chwe mis ac felly mi oedd yn hanfodol cael bendith ar rai o'r gweithgareddau rydym am geisio eu trefnu, am fod y clo mawr i weld drosodd am ryw hyd o leiaf.

Un o'r materion rwy'n ceisio rhoi pwyslais arno yw penodi ysgrifennydd newydd. Dwi wedi bod wrth y gwaith am 43 o flynyddoedd ac mae'n hanfodol bwysig cael dilyniaeth. Cawn weld be ddaw. Mater arall pwysicach fyth yw dal diddordeb y nifer o aelodau iau (wel, a dweud y gwir, y rhai hŷn hefyd), ac o ystyried bod ein cyfarfodydd yn cael eu cynnal nawr yn y Ganolfan yn Llanberis y teimlad yw o'r diwedd ein bod wedi cael lle delfrydol i ddod at ein gilydd. Os bydd yn gyfleus i'r Ganolfan, rydym yn gobeithio dechrau trefnu hyfforddiant ar glymu plu a materion sydd ynghlwm â'r byd pysgodfaol tua diwedd y tymor pysgota, sef Hydref eleni. Mi fydd hyn yn weithgaredd diddorol iawn dros fisoedd y gaeaf ac yn rhoi esgus i rai roi'r 'xbox' o'r neilltu am ryw ddwy awr!

Eto yn y Ganolfan, brynhawn 9ed Mawrth, bu cyfarfod o Grŵp Ymgynghorol Pysgodfeydd Lleol, ble cawson gyfle i weld sut mae pethau'n chwythu gyda Ben Wilson, sef prif swyddog pysgodfeydd newydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Yr argraff gefais oedd ei fod yn berson reit frwdfrydig gyda gweledigaeth ar y ffordd o bosib y dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu pysgodfeydd Cymru. Un ffordd mae hyn yn cael ei dargedu yw bod arian o CNC a'r Llywodraeth yn cael ei ddosbarthu i'r corff Afonydd Cymru, ac maent hwythau wedyn yn ei gyfeirio at ymddiriedolaethau afonydd led-led Cymru. Cyn belled ag y mae ein hafonydd ni yn y cwestiwn, Ymddiriedolaeth Afonydd Gogledd Cymru ydi'r bois. Mae'r arian yma yn ei dro'n cael ei ddidoli at brosiectau i wella cynefinoedd a hwyluso llwybr yr eog dros hen rwystrau o'r oes ddiwydiannol. Dyfroedd yr ardal yma sydd wedi manteiso ar hyn yw Afonydd Perthi a Ffôs y Dail. Ond drwy edrych ar y darlun mawr, gwariant isel iawn yw hyn, o gysidro be' sydd wedi cael ei wario ar ddalgylchoedd y Ddyfrdwy, Clwyd a'r Conwy. Mi godwyd y cwestiwn, a chawn weld be' fydd yr ymateb cyn bo hir – wel, gobeithio yn de.

Mater a gafodd gryn sylw oedd argyfwng yr eog. Trwy drio teimlo sut mae'r gwynt yn chwythu o goridorau'r awdurdodau, mi fuaswn yn tybio na fydd yn hir iawn cyn i ni weld mwy o rwystrau ar bysgota yn dod i'n ffordd. Ni fuasai'n syndod o gwbl i weld pysgota am yr eog yn cael ei wahardd yn gyfan gwbl. Nid oedd chwaith unrhyw fwriad i ail ddechrau magu cywion eog yn y ddeorfa i geisio gwella'r sefyllfa. Ond ar hyn daeth rhyw berl (!) – pe byddai'r eog yn diflannu o'n dyfroedd, efallai y buasai cynllun stocio'n cael ei gysidro! Pan glywais hyn, daeth i'm meddwl – 'Wel, be goblyn dwi'n dda mewn cyfarfod pan mae'r fath syniadau'n cael eu taflu o gwmpas?' Ac felly mi chwalwyd yn chilfriw mân fy argraff fod y prif swyddog yn frwdfrydig at wella ein pysgodfeydd – pennaeth newydd ond yr un hen syniadau. Dwi'n meddwl y buasai'n well i ni oll ddechrau canŵio a hwylfyrddio: mae'r brwdfrydedd i gyd i weld yn cael ei anelu at bethau o'r fath.

Fel y cyfeiriais ar y dechrau, mae llawer o amser wedi ei roi gen i a nifer o'm cyd-deithiwyr o'r byd pysgota dros y blynyddoedd i geisio cael dylanwad ar bolisïau a fyddai'n arwain at wella pysgodfeydd y fro hon. Ia, teithio i'r holl gyfarfodydd yng Nghaerdydd a led-led y wlad – yr holl amser ac ymroddiad – ac erbyn heddiw yn amlwg yn hollol wastraff amser.





Cyfeiriais y mis diwethaf at hen luniau yr wyf wrthi'n eu trosglwyddo o sleidiau. Wel dyma i chi ychydig eto o 1984, blwyddyn y pysgod mawr o Lyn Cwellyn. John E Jones, Bethel gyda dau frithyll o'r llyn, un 4 pwys a'r ail yn 3 pwys, 10 owns; a dyma ei nodiadau – "Brithyll brown gwyllt 3lbs 10oz wedi i mi ei ddal yn Llyn Cwellyn 1984 (yr oedd y pysgodyn bach yn ei fol, wedi cael ei lyncu, gwelwyd ei gynffon yng ngwddf y pysgodyn mawr)."



Arllwysiadau diweddar o waith trin Llanrug

**Gwaith trin dŵr**

Mae'n debyg eich bod yn dal i gymryd sylw o'r cyhoeddusrwydd, a da o beth ydi hyn, sy'n cael ei roi ar y newyddion (ar y teledu ac yn y papurau) i broblem enfawr y carthffosiaeth sy'n cael ei ollwng i'n dyfroedd. Mae hyn wedi effeithio'n ofnadwy ar fro'r Eco. Diolch i'r drefn, mae pethau'n gwella ar Lyn Padarn oherwydd y gwario mawr i uwchraddio gwaith trin carthffosiaeth Llanberis. Ond cofiwch, mi gymerodd flynyddoedd i'r awdurdodau dderbyn hyn a phenderfynu gweithredu; ac ni fuasai'r gwelliant yma wedi dod i rym heblaw i'r Gymdeithas, drwy ein cynrychiolwyr *Fish Legal,* ymladd y mater yn y Llys Apêl. Ond nid Llanberis yw'r unig frwydr: mae'r budreddi'n dal i gael ei ollwng, ac ar hyn o bryd gwaith trin carthffosiaeth Llanrug sy'n achosi problemau. Na, tydi o ddim yn beth braf troedio glannau'r Finiog ar adegau oherwydd y drewdod sy'n gysylltiedig ag arllwysiadau o waith trin carthffosiaeth Llanrug. Yn ôl pob golwg, o weld ei benderfyniad ynglŷn â chais cynllunio Seiont Manor, mae Cyngor Cymuned Llanrug yn sylweddoli fod problem yma. Mae Llanrug yn bentref poblogaidd, ac felly mwyaf tebyg fod nifer o geisiadau eraill i adeiladu o gwmpas y lle. Felly, efallai buasai'n agoriad llygad i'r cynghorwyr, pan fo amser, i fynd lawr y Finiog yn achlysurol i gael gweld safon yr arllwysiadau, a phenderfynu wedyn os yw peth fel hyn yn dderbyniol.



Tyrfar y potsiar

**Tyrfar y Potsiar**

Diddorol dros ben oedd y cyfeiriad yn Chwilota, rhifyn Mawrth, ble roedd Dafydd yn cyfeirio at achos o flaen Llys Ynadon Caernarfon fis Gorffennaf, 1877, pan gafodd un Hugh Gray ddirwy o £2 am geisio trywanu eogiaid yn yr Afon Seiont. Cafodd ei ddal gan giperiaid. Tydi pethau wedi gwaethygu 'dwch? Ciperiaid yn dal potsiars ym 1877! Ble mae'r ciperiaid heddiw tybed?

A rhag i rai bendroni a meddwl gyda be' oedd yr eogiaid yn cael eu taro, dyma i chi lun o'r teclyn taro, sef 'tyrfar'. A na, tydi o heb gael ei ddefnyddio ar y Seiont: mae yma yn amgueddfa pysgota'r Clwb! Da de; ac wedi dod yn wreiddiol fel anrheg o afon ymhell iawn o'r fro.

**Huw Price Hughes**



## Dyddiadur y gath ddwad/Bobliadur - Rhan 2

Dyma hanes cath fawr goch a ddaeth, flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw, ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Soniais y mis diwethaf bod yr Eifftiaid, amser maith yn ôl, yn addoli cathod. Roedd aelodau'r teulu yn siafio eu haeliau i ddangos eu galar os oedd eu cath yn marw! Weithiau roedd y cathod yn cael eu troi'n *mummies* a'u gosod yn y bedd efo'u perchnogion. Ond digon am hynny – awn ni'n ôl at lethrau Moel Rhiwen a gadael i Bob ddweud ei hanes:

"Doedd fawr o siâp arnai pan gyrhaeddais i Fryn y Maen ond roeddwn i wedi setlo yno'n ddigon del. Ocê, doedd o ddim fel bod adra, ond roedd pawb oedd yn gweithio yno'n glên a doedd neb yn gweiddi nac yn trio fy nghicio. Roeddan nhw wedi trwsio fy ngên efo weiren a gwella fy nghlwyfau ar ôl i mi gael ffrae efo car. Roeddwn i'n cael digon o fwyd, teganau, gwely clyd a sylw pan oedd gan y staff amser. Dydw i ddim yn gath flin, ond dydy bywyd ddim wedi bod yn hawdd i mi. Dwi bellach yn gath sunsur wyth oed, 6 kg efo agwedd sy'n matsio'r bywyd ges i efo pobl gas doedd ddim yn fy ngharu. Wir yr, dydw i ddim isio brifo neb … Ond jest weithiau, mae popeth yn mynd yn ormod i mi; dwi'n panicio ac mae fy ewinedd yn gadael eu hoel ar bobl sy'n dod rhy agos.

Ond heddiw mae rhywbeth ar bawen. Dwi'n gallu ei synhwyro. Mae Amy (un o'r staff cleniaf) yn dod i fy stafell efo'r CAETS!!! Sy'n golygu'r milfeddyg neu waeth … Ond cyn i mi gael tynnu'r ewinedd o'r blew dwi a'r caets yng nghefn y fan efo fy masged, fy nheganau, bwyd, offer toiled, i gyd ar ein ffordd i rywle.

Ymhen hir a hwyr mae'r fan wedi stopio a'r drws cefn wedi agor. Mmmm ogla da! Awyr iach, dim oglau cathod eraill, dim ond oglau glân, ffres. Tybed lle ydan ni? Dwi'n clywed sŵn traed – dau berson – un tal ac un byr. Mae'r lleiaf yn gafael yn y caets ac yn fy nghario i fyny allt. Mae caeau gwyrdd bob ochr a phethau gwyn blewog mawr i'w gweld. Mae hi'n siarad efo fi – dallt dim be mae hi'n ddeud, ond mae hi'n swnio'n ddigon clên.

Sŵn drws yn agor. Mae'r caets a fi yn cael ein gosod ar y llawr. Mae'n oer yma, ond mae fy ngwely'n cael ei osod ar y llawr. Www … powlen ddŵr, a gwell fyth powlen llawn bisgedi. Ella fyddai'n licio'r lle yma wedi'r cwbl …"

# "Llwyfan i bawb" yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2022

Mae trefnwyr Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych wedi datgelu rhai o'u cynlluniau ar gyfer yr Eisteddfod gyntaf ers tair blynedd. Ar ôl gorfod gohirio'r ŵyl o ganlyniad i Covid-19, cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2022 ar gyrion tref Dinbych rhwng 30 Mai a 4 Mehefin eleni.

Mae miloedd o blant a phobl ifanc wrthi'n cystadlu mewn dros 220 o Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth di-gynulleidfa dros y gwanwyn, gyda'r buddugol ymhob rhanbarth yn cael eu gwahodd i gystadlu ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych. Yn wahanol i'r trefniadau arferol ni fydd rhagbrofion i'r rheiny sy'n cyrraedd y rownd derfynol yn Ninbych er mwyn sicrhau bod pawb yn cael y profiad o gystadlu ar brif lwyfan yr Urdd. O ganlyniad, nid un pafiliwn fydd ar faes yr Eisteddfod, ond tri.

**Tocynnau mynediad i'r Maes yn rhad ac am ddim – bellach ar gael i'w harchebu**

Daeth cadarnhad ym mis Rhagfyr 2021 bod yr Urdd yn derbyn £527,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn agor y drysau a chynnig mynediad am ddim i bawb i Eisteddfod yr Urdd 2022, ym mlwyddyn canmlwyddiant y mudiad. Mae tocynnau'r ŵyl bellach ar gael i'w harchebu drwy wefan Eisteddfod yr Urdd (www.urdd.cymru/tocynnau) ac eleni maent yn cynnig mwy nag erioed gyda mynediad i'r cystadlu, Gŵyl Triban, sioeau a holl adloniant y Maes yn rhan o'r tocyn.

**Gŵyl Triban – aduniad mwya'r ganrif**

Am y tro cyntaf erioed, ac i ddathlu'r gorau o gerddoriaeth a diwylliant cyfoes Cymru, cynhelir gŵyl o fewn gŵyl ar faes Eisteddfod yr Urdd eleni. Dyma fydd "aduniad mwyaf y ganrif" gyda gwahoddiad i holl aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau'r Urdd ymuno yn y dathlu. Mi fydd mynediad i Triban (2-4 Mehefin) yn rhad ac am ddim ac yn gynwysedig yn y tocyn i faes yr Eisteddfod. Bydd yr ŵyl yn cynnig gwledd o fwyd a diod, cyfle i hel atgofion ynghyd â pherfformiadau gan Eden, Gwilym, Eädyth, Tara Bandito, N'Famady Kouyaté a llawer mwy.

Dywedodd Siân Eirian, Cyfarwyddwr Eisteddfod yr Urdd a'r Celfyddydau,

"Does dim dwywaith ein bod ni i gyd, boed yn gystadleuwyr, hyfforddwyr, cefnogwyr, stondinwyr neu'n wirfoddolwyr wedi hiraethu am yr Eisteddfod a'i hasbri. Mae ein diolch yn fawr i'r holl wirfoddolwyr, beirniaid, hyfforddwyr a staff sydd wedi rhoi o'u hamser i sicrhau ein bod yn gallu llwyfannu Eisteddfodau Cylch a Rhanbarth y gwanwyn hwn. Heb os, bydd Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych, yng nghanol blwyddyn canmlwyddiant yr Urdd, yn ŵyl i'w chofio - ac mae pawb ynghlwm â pharatoadau'r Eisteddfod yn haeddu hynny."






ECO'r Wyddfa
Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Cwpan Pinatar

Fis Chwefror roedd Merched Cymru yn un o wyth tîm pêl-droed oedd yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth Cwpan Pinatar yn Sbaen. Roedd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal rhwng yr 16eg a'r 22ain o Chwefror. Cystadleuaeth y gwahoddir tîmau iddi yw hon, a dim ond unwaith o'r blaen mae wedi ei chynnal a hynny yn 2020. Yr Alban oedd yn fuddugol bryd hynny. Eleni roedd Gwlad Belg, Yr Alban, Rwsia, Gwlad Pŵyl, Iwerddon, Hwngari, Slofacia a Chymru'n cystadlu.

Gwrthwynebwyr cyntaf Cymru oedd Yr Alban, sef y pencampwyr presennol. Cafwyd ergyd gynnar i Gymru wrth i Hayley Ladd orfod cael ei heilyddio oherwydd anaf. Fe sgoriodd Yr Alban yn ystod amser ychwanegol yr hanner cyntaf. Ond fe wnaeth Cymru ymateb yn syth: yn dilyn y gôl, aeth Cymru i fyny ac ennill cic o'r smotyn. Sgoriodd Jess Fishlock y gic o'r smotyn i'w gwneud hi'n un gôl i un wrth fynd mewn i hanner amser. Fe gychwynnodd yr ail hanner yn llewyrchus i Gymru wrth i Jess Fishlock gael ail gôl. Roedd Cymru'n gryf, ac fe sgoriodd Natasha Harding ar farc yr awr. Fe orffennodd hi felly yn fuddugoliaeth o dair gôl i un i Gymru. Roedd y pencampwyr allan a Chymru drwodd i'r rownd gyn-derfynol.

Gwlad Belg oedd yn wynebu Cymru yn y rownd gyn-derfynol. Roedd hi am fod yn gêm anodd. Fe chwaraeodd Cymru'n dda, gyda'r ddau dîm yn cael nifer o gyfleon i sgorio yn ystod y gêm. Methodd y ddau dîm â sgorio, ac roedd rhaid penderfynu pwy fyddai'n mynd i'r ffeinal drwy giciau o'r smotyn. Fe sgoriodd Kayleigh Green y gic gyntaf i Gymru ond yn anffodus bu i Charlie Estcourt, Lily Woodham ac Angharad James fethu eu rhai nhw gan roi'r fuddugoliaeth i Wlad Belg o dair gôl i un. Doedd hi ddim i fod.

Roedd un gêm ar ôl i'r merched wrth iddyn nhw frwydro yn erbyn Iwerddon am y trydydd safle. O ystyried eu bod wedi chwarae mor dda yn erbyn Yr Alban a hefyd Gwlad Belg roedd y perfformiad yma'n eithaf siomedig. Fe sgoriodd O'Sullivan i Iwerddon ar ôl 25 munud, ac heblaw am ergyd Sophie Ingle yn taro'r post doedd Cymru ddim yn llawer o fygythiad. Y sgôr derfynol felly oedd Iwerddon yn ennill o un gôl i ddim. Diweddglo siomedig i'r gystadleuaeth i Gymru. Gwlad Belg oedd y pencampwyr, gan ennill yn y ffeinal yn erbyn Rwsia.

Er na fu'r merched yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth, roedd hi'n ffordd dda iawn o baratoi at y gemau pwysig fydd yn digwydd ar ddechrau mis Ebrill, yn erbyn Ffrainc a Kazakhstan. Mi fydd hi'n dasg anodd yn erbyn Ffrainc, ond gobeithio bydd y merched yn gallu cipio pwynt neu dri! Ar hyn o bryd mae Cymru yn ail yn eu grŵp ar gyfer cyrraedd Cwpan y Byd gyda 13 o bwyntiau, ac mae Slofenia yn agos iawn tu ôl gyda 11 o bwyntiau. Pwysig iawn felly ein bod yn cael rhywbeth o'r ddwy gêm i sirchau ein bod gam yn agosach at Gwpan y Byd.

## COLOFN CHWARAEON

**EDRYCH 'NÔL**

500 heb fod allan. Llongyfarchiadau Eco'r Wyddfa, a'r Adran Chwaraeon yn benodol yn y cyswllt yma. Bu cofnodi, llongyfarch, barnu a hybu byd y campau'n rhan allweddol o wead yr Eco o'r cychwyn. Ers olynu'r Golygydd Chwaraeon gwreiddiol, Dafydd Ifans, Penisarwaun, rwy'n siŵr fy mod wedi ymwneud â dros 400 o'r rhifynnau. Sawl awr o ymchwil, ffonio, cofnodi – a dadlau. I rai, ffafrio Llanrug; i eraill, Llanbêr! Gobeithio fod rhywun am ddanfon stori i mi yn hytrach na gorfod tyrchu fy hun. Yn araf deg mae hyn yn gwella. Dros gyfnod, yn anffodus, cael y stori yn y *Caernarfon and Denbigh* oedd y peth pwysig i nifer – ac yna daeth y rhyngrwyd.

Rwyf wedi ceisio glynu wrth rai agweddau o ysgrifennu dros y blynyddoedd. Yr elfen bwysicaf, yn enwedig dros y degawd diwethaf, oedd adlewyrchu twf aruthrol yr ystod helaeth o gampau yr ymwneir â hwy yn yr ardal. Adlewyrchu hefyd y twf yng nghyfraniad merched mewn sawl agwedd ym myd y campau ym mro'r Eco. Hybu a chefnogi cyfraniadau unigol sy'n cynnal clybiau campau'r fro. Dros y blynyddoedd, cafodd pêl-droed, rygbi (dynion a merched), criced, hoci, rhedeg mynydd, athletau, nofio, pêl-rwyd, pêl-fasged, bowlio dan do, snwcer, pŵl, dartiau, jiwdo, marchogaeth ceffylau, bocsio ac ambell i gamp arall sylw rwy'n siŵr. Mae'n amheus a roddodd unrhyw bapur bro arall sylw i'r fath ystod o chwaraeon.

Nodi llwyddiant clybiau ac unigolion o wahanol gampau ar lefel lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yr wyf hefyd wedi credu'n gryf mewn hybu'r gefnogaeth i dimau Cymru ar y lefel ryngwladol. Mae prinder o drafod byd y campau drwy gyfrwng y Gymraeg yn y wasg Gymreig. Ni welir hyd yn oed ganlyniadau'r is-gyngheiriau pêl-droed a rygbi lleol yn y *Daily Post* a'i ddrych eil-dwywm y *C. and D* bellach. Tudalennau o Lerpwl, Everton, Man. U, Wrecsam a cholofn weithiau am y Gynghrair Bêl-droed Genedlaethol a thwf RGC. Bellach mae gennyf is-olygydd penigamp yn Mared Rhys a'i chyfraniadau o galon y Wal Goch. Diolch iddi.

Yn naturiol, y bêl gron gafodd y prif sylw. Balchder oedd croniclo fod Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel wedi codi'r Junior Cup. Mae'r Waunfawr hefyd wedi cael ambell i rediad yn y cwpanau. Yr F.A. Trophy i Lanrug draw yn y Rhyl. Aml lwyddiannau'r ddau Lan dan oruchwyliaeth Jiws, Dafydd Mona, Aled Owen ac eraill. Tîm cryf – a chefnogaeth frwdfrydig – Deiniolen dros gyfnod byr. Siom clybiau'r ardal yn cael eu gosod mewn haenau is wedi'r ail wampio oherwydd eu 'cyfleusterau' ar ac oddi ar y cae; a rhywun yn ymwybodol o gefnogaeth y clybiau hyn i hanes y gêm, a'r ymdrech dymhorol i gynnal y traddodiad. Waunfawr yn brwydro ymlaen gan ddyheu am gael maes a chartref parhaol yn y pentref ryw ddydd. Llwyddianau timau Ysgol Brynrefail dan Phil Holland ar lefel genedlaethol. Ysgol 'fach' yn llorio'r mawrion yn aml. Am flynyddoedd bûm yn trefnu Tlws yr Eco. Cystadleuaeth ryng-bentrefol ar y cychwyn, ac yna yn gystadleuaeth dan 7, dan 9 a dan 11 rhwng y clybiau dros ddwy noson yn aml. Cafwyd cystadleuaeth pêl-rwyd i'r genethod am gyfnod hefyd. Rwy'n dal i gael oedolion yn f'atgoffa fod ganddynt fedal Eco'r Wyddfa. Yn anffodus, pallodd y gefnogaeth ac mae chwarae mewn – a threfnu – twrnameintiau yn ffordd allweddol o godi arian i'r clybiau bellach. Trist, ond dyna yw datblygiad. Bu clybiau ieuenctid yn llwyddiannus ym Mro'r Eco, ond heddiw mae cryn ganoli gyda chlybiau'n cynnwys chwaraewyr o du allan i'r pentrefi. Hefyd cyfnod yr Acadamis. Dyma'r ffordd ymlaen, mae'n amlwg. Fy unig siom oedd na chawsom gap llawn o'r ardal ers cyfnod Malcolm Allen. Fe ddaw rwy'n siŵr.

Fe gymer sawl blwyddyn arall i mi gyrraedd y 500 rhifyn personol, ond cawn weld. Cymysgedd o falchder mewn bro – a blinder – fu hi, fel pob gwirfoddolwr arall, ond teimlaf fod y fro arbennig yma'n haeddu sylw am ei hymdrechion, datblygiad a'i thraddodiad. Ymlaen.

**CYWIRIAD**

Bu Carys Parry, Gwynant, Llanrug mewn cysylltiad parthed y darlun o'r tîm pêl-droed a ymddangosodd yn rhifyn mis diwethaf. Roedd yr anfonwr, Dafydd Roberts yn awgrymu mai un o dimau'r Darans tua 1930 ydoedd. Nid felly, meddai Carys. Yn ei barn hi, llun ydyw o dîm Glasgoed (Hall?), Penisarwaun yn ystod y cyfnod. Mae'n ymddangos mai ar y cae wrth brif fynedfa Neuadd Glasgoed y chwaraewyd y gemau 'cartref'. Mae hi wedi gallu enwi pedwar o'r chwaraewyr. Dyma nhw.

Rhes Flaen ( Ail o'r chwith): Hari Williams, Bryn Rhydd (Tad Alwyn Williams, Pen Gaer)

Rhes Ganol : (Ar y Chwith): Ei frawd Huw Williams, Bryn Rhydd

Rhes Ôl (Ail o'r Chwith): Buckley Parry, Braich Dinas,

Rhes Ôl (Pedwerydd o'r Chwith): Richard Evan Pritchard, Cae Corniog.

Gan fod Dafydd Roberts yn enwi y gôl-geidwad fel Cadwaladr Roberts, Tai Groesion, (brawd ei dad), mae chwech chwaraewr a dau yn eu dillad eu hunain i'w henwi. All rywun lenwi'r bylchau? Hefyd oedd hwn yn dîm oedd yn chwarae gemau rheolaidd mewn Cynghrair leol neu ranbarthol? Beth am ymateb?

Mae Carys yn cytuno bod y mwyafrif yn y llun yn gweithio yn y chwarel.

## COLOFN CHWARAEON - PARHAD

**COLLI EICON**

500 yw'r rhifyn perthnasol yr Eco mis yma. 700 oedd y rhif perthnasol yng nghyrfa y diweddar Shane Warne, troelliwr goes (leg spinner) unigryw Awstralia. 700+ o wicedi ar lefel prawf, yn ail yn y rhestr wicedi yn hanes y gêm. Bydd ei belen gyntaf erioed yng nghyfresi'r Lludw ble bowliwyd capten Lloegr, Mike Gatting, yn aros yn atgof am byth yn hanes y gamp. Cystadleuydd di-gyfaddawd, meddyliwr craff, sylwebydd deallus, ond o hyd â gwên a mwynhau y cystadlu a'r cymdeithasu.

Yn y 60au pan ddechreuais fy ngyrfa gricedol' draw yn Nhŷ Newydd, bod yn fowliwr cyflym oedd dymuniad yr ieuenctid. Prin oedd y cyfleuon i wylio criced dosbarth cyntaf yn fyw neu ar y cyfryngau. Fred Trueman, a bowlwyr 'mellt' India'r Gorllewin oedd yn tanio dychymyg ifanc.

Bychan o gorff oeddwn i. Yn ffodus roedd troellwr coes profiadol yng nghlwb Bangor. Gordon Pape, o deulu'r cigyddion ym Mangor. Garddynau tewach na'm cluniau i. Oriau o ymarfer gydag o. Gweithio ar linell a chyflymdra y bêl. Ac yn bwysicach yr ymdrech i droelli'r bêl.

Am ddegawd, tri ohonom yn unig oedd o'r dull yma o fowlio hyd glybiau'r gogledd. Manteisiol wrth gwrs yw troelli y bêl oddi wrth y mwyafrif o'r batwyr sef rhai llaw dde. Mae llyfrau cadw sgôr clwb Bangor yn y 60au a'r 70au cynnar yn cynnwys tranc sawl batiwr daliwyd/ stympiwyd T. G. Jones, bowliwyd R. Ll. Jones. T. G. oedd Tommy Glyn Jones wicedwr ardderchog clwb Bangor.

Daeth Shane Warne ag awyr iach i'r gêm. Roedd pobl yn laru ar y doreth o fowlio cyflym/lled gyflym a gosod meysydd amddiffynol. 12 pelawd yr awr, a prisiau mynediad yn codi. Yna, Warne y troelliwr ymosodol. Herio'r batiwr. Wyt ti ddigon dewr i ymosod? Amrywiaeth. Batiwyr yn gorfod gweithio strategaeth newydd. Roedd hyn yn apelio i'r ieuenctid. Y gwallt melyn, y 'sweater' Awstralia dros ei ysgwydd, a dal y bêl i fyny i fonllefau'r dorf – cefnogol ac anghefnogol – wedi cipio pum wiced mewn batiad unwaith eto. Darluniau fydd yn aros yn y cof. Arwr yr MCG ac arwr criced ble bynnag y chwaraeir y gêm.



Adam Jones - gyda diolch i Gwynfor James am y llun

ISSN 2516-7235






## Y CAM CYNTAF?

Mewn erthygl arall rwy'n dyheu am gael olynydd i Malcolm Allen fel enillydd cap llawn pêl-droed i Gymru. Mae ambell i ferch wedi cyflawni'r gamp. Dyma gyfnod yn sicr ble mae rheolwyr Cymru yn rhoi eu ffydd yn yr ieuenctid. Braf cofnodi bod 12 chwaraewr o Glwb Ieuenctid Bethel – saith dan 12, a phump dan 11 wedi cymryd y cam cyntaf wedi eu dewis i garfanau oedranol Ysgolion Gwynedd.

Mae saith o'r bechgyn yn yr oedran dan 12. Mae pump ohonynt wedi cynhyrchioli'r clwb o'r dechrau, rhai ers yn 6 oed ac eraill ers yn 8 oed. Y pump ffyddlon yw Max Lawson, Morgan Davies, Meilir Davies, Jac Taylor (Gôl-geidwad), a Steffan Morris. Mae'r ddau arall – Caio Jones a Cai Newell – o Lanrug, gan nad oes tîm yr oedran yma yno ar hyn o bryd.

Mae pedwar bachgen wedi cyrraedd y garfan sirol dan 11. Llongyfarchiadau i Deio Davies, Jac Davies, Caio Orlik Jones a Ceian Davies sydd flwyddyn yn iau. Da iawn fechgyn a diolch arbennig i'r ddau hyfforddwr ym Methel – Andrew 'Klopp' Williams ac Andrew Davies – gyda chymorth Graham Burton.

## Llwyddiant ym myd rhedeg

Ar fore Sul cyntaf mis Mawrth, aeth 700 o redwyr dros Bont y Borth i gystadlu yn Hanner Marathon Môn a drefnir gan gwmni 'Always Aim High'. Roedd yr haul yn gwenu, er fod brath yn y gwynt. Rhedwr o Lanberis a ddaeth yn fuddugol, yn cynrychioli Clwb Rhedwyr Eryri. Llongyfarchiadau mawr i Adam Jones ar ei lwyddiant. Dyma enw i wylio allan amdano yn y dyfodol.

Ddiwedd Chwefror, teithiodd Rhian a Dyfed Thomas o Lanrug i Richmond i gystadlu mewn ras hanner marathon. Bu'n rhaid i'r trefnwyr newid cwrs y ras ar y munud olaf yn dilyn y stormydd gwynt a ddymchwelodd goed ym Mharc Richmond a gwneud amgylchiadau'n eithaf peryglus. Roedd dros 700 yn cystadlu, a daeth Rhian yn drydedd ferch dros 40 oed a Dyfed yn seithfed yn y ras, gwta dri munud tu ôl i'r enillydd. Ond er mai ras ffordd oedd hon i fod, dywedodd Dyfed ei fod wedi rhedeg sawl ras traws gwlad lanach!

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Eco eich cyrraedd bydd dwy ras yng nghyfres Rasys Nos Fawrth wedi eu cynnal, a'r rhedwyr mynydd yn edrych ymlaen am dymor o rasys rheolaidd yn dilyn cyfyngiadau'r ddwy flynedd ddiwethaf.